Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

# Asesu'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg mewn Ysgolion yng Nghymru Rhan II

## Adroddiad terfynol


Jane Nicholas
Martin Pollard
Robert Smith
Stephen Thomas


Medi 2010

(WIDT)


(h) Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg 2010
Elusen Gofrestredig Rhif 3133921

# Cynnwys


**Cydnabyddiaethau** i

**Crynodeb gweithredol** ii

**1. Cyflwyniad** 1

1.1 Cefndir 1

1.2 Nodau a methodoleg 1

1.3 Strwythur yr adroddiad 2

**2. Gwerth y Dimensiwn Rhyngwladol** 3

**3. Pam asesu'r DRhA?** 5

3.1 Rôl y DRhA o ran y cwricwlwm ysgol a chymwysterau 5

3.2 Rôl y DRhA o ran datblygiad yr ysgol gyfan 8

3.3 Llenyddiaeth a dogfennaeth berthnasol 9

**4. Cam 1: Gwaith datblygu a pheilot cychwynnol** 10

4.1 Y gwaith cychwynnol o dreialu'r hunanasesiad drafft 10

4.2 Deilliannau'r gwaith peilot cychwynnol 10

**5. Cam 2: Treialu'r offeryn hunanasesu DRhA** 14

5.1 Y Sampl 14

5.2 Casglu data 14

5.3 Yr wyth astudiaeth achos 17

**6. Canfyddiadau allweddol ac argymhellion** 48

6.1 Y DRhA yn yr ysgolion peilot 48

6.2 Deilliannau DRhA 51

6.3 Materion yn ymwneud â mesuriadau a thystiolaeth 56

6.4 Gweithredu'r DRhA yn effeithiol 58

6.5 Casgliadau 60

6.6 Argymhellion 61

**Atodiad 1 Beth yw'r DRhA?** 63

**Atodiad 2 Yr offeryn hunanasesu** 64

**Atodiad 3 Y canllawiau** 70

**Atodiad 4 Deunydd darllen pellach ar y DRhA** 76

**Atodiad 5 Datblygu'r hunanasesiad drafft** 80

**Atodiad 6 Datblygu'r canllawiau drafft** 83

**Atodiad 7 Taflenni holi** 85

# Cydnabyddiaethau


Hoffai'r tîm ymchwil yn y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) a CEWC-Cymru ddiolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gefnogi'r prosiect ymchwil, ac am ei mewnbwn polisi mewn perthynas â'r DRhA ac ADCDF; ac, yn arbennig, y British Council a'r aelodau canlynol o'r Grŵp Llywio am eu harweiniad a'u cymorth gwerthfawr:

| | |
|---|---|
| **Angela Cook** | Prif Ymgynghorydd - Cambridge Education |
| **David Istance** | Uwch Gynghorydd – OECD |
| **Polly Seton** | Cynrychiolydd AALl Sir Gaerfyrddin/Ceredigion - Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg Cymru (WIDE) |
| **Catherine Evans** | Arolygydd – Estyn |
| **Emily Daly** | Cynrychiolydd AALL Caerdydd – WIDE |
| **Michelle Jones** | Tîm Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Llywodraeth Cynulliad Cymru |

Hoffai'r tîm hefyd ddiolch i'r athrawon a'r dysgwyr yn yr ysgolion peilot am roi o'u hamser i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn.

# Crynodeb gweithredol

## Cefndir

Cynhaliwyd y prosiect hwn fel yr ail ran o waith ymchwil ar effaith y Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA), a gomisiynwyd gan British Council Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd **Rhan I** o waith ymchwil y British Council yn cynnwys astudiaeth gwmpasu i nodi graddau gweithgareddau DRhA mewn ysgolion yng Nghymru a chael adborth ysgolion ar eu heffeithiolrwydd.

Canolbwyntiodd gwaith ymchwil **Rhan II** ar fesur effaith DRhA mewn ysgolion yng Nghymru drwy ddatblygu a threialu offeryn hunanasesu, ynghyd â chanllawiau ategol mewn sampl o wyth ysgol. Cafodd y gwaith ymchwil ei wneud gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) mewn partneriaeth â'r Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru (CEWC-Cymru) rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2010.

Mae'r term Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA) yn cyfeirio at bob elfen o addysg a dysgu sy'n canolbwyntio ar weithgarwch Ewropeaidd a/neu ryngwladol neu'n ei ymgorffori. Mae'n gyfystyr â'r term dimensiwn byd-eang, ac yn cwmpasu gweithgarwch a geir mewn sawl maes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

### *Gwerth y Dimensiwn Rhyngwladol*

Deellir fwyfwy fod DRhA yn elfen bwysig o addysg ysgol yng Nghymru a thu hwnt. Mae amrywiaeth o ffactorau yn cyfrannu at ei gwneud yn berthnasol: y cyfleoedd a gynigir gan gyfathrebu byd-eang a chyfryngau newydd; masnach ryngwladol a'i materion cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig; mwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliannau, ieithoedd a chredoau eraill; a heriau gwirioneddol fyd-eang megis mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rhannu adnoddau naturiol. Mae'n gysylltiedig ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ac yn ei ategu. Bu hwn yn flaenoriaeth o ran polisi addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru ers 2004 ac, yn ôl Estyn, mae'n ddeilliant dysgu allweddol i'w asesu mewn arolygiadau o ysgolion o fis Medi 2010. Caiff gwerth y DRhA ei gefnogi'n gryf gan lunwyr polisi addysgol ac mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn ei ystyried yn elfen allweddol o'u darpariaeth ddysgu.

Hefyd nododd adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2010 gan y Gymdeithas Addysg Datblygu yn seiliedig ar bôl piniwn gan Ipsos MORI, fod y dysgu hwn yn creu

cymdeithas ag ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol sy'n edrych tuag allan, a oedd yn gwrthbwyso annifyrrwch ynghylch gwahaniaethau o ran hil a chrefydd. Cafodd hefyd fod cryn dipyn o gefnogaeth i ddysgu byd-eang yn yr ysgol ymhlith y cyhoedd.

### *Pam asesu'r DRhA?*

Cynlluniwyd yr hunanasesiad i helpu ysgolion i roi'r gorau i greu cofnod ffeithiol o'r gwaith DRhA a wnaed ganddynt a dechrau canolbwyntio ar sut roedd y DRhA o fudd i'r ysgol, o ran cyfrannu at effeithiolrwydd addysgol, cydlyniant cymdeithasol ac agweddau a gwerthoedd dysgwyr ac athrawon. Rhennir yr offeryn yn bum adran: 'deilliannau i ddysgwyr', 'deilliannau i athrawon', 'deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol', 'deilliannau i'r gymuned ehangach' ac adran olaf i helpu ysgolion i gynllunio datblygiad y DRhA yn y dyfodol. Rhoddir cyfle i ysgolion asesu'r graddau y mae'r DRhA yn cyfrannu at effeithiolrwydd yr ysgol yn y pedair adran gyntaf gan ddefnyddio'r disgrifyddion canlynol sef 'sylfaenol', 'yn datblygu', 'wedi datblygu' neu 'wedi gwreiddio'.

Yn ogystal â bod yn werthfawr mewn termau addysgol ynddo'i hun, drwy wneud effaith DRhA yn fwy amlwg, byddai ysgolion yn gallu defnyddio'r offeryn i asesu pa mor effeithiol y bu eu gweithgareddau DRhA wrth gyflawni elfennau allweddol o'r cwricwlwm ysgol.

### *Rôl y DRhA o ran y cwricwlwm ysgol a chymwysterau*

Nodwyd mai'r meysydd cwricwlwm a'r fframweithiau cymwysterau allweddol a oedd yn berthnasol i'r DRhA yng Nghymru oedd:

- Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB) / Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).
- Manylebau pwnc, yn arbennig: daearyddiaeth, hanes, llywodraeth a gwleidyddiaeth, cymdeithaseg, ieithoedd tramor modern a datblygiad y byd.

### *Rôl y DRhA o ran datblygiad yr ysgol gyfan*

Datblygwyd yr hunanasesiad DRhA ar adeg cyhoeddi dwy ddogfen allweddol a oedd wedi dechrau llywio arferion ysgolion: *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* **Llywodraeth Cynulliad Cymru** (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009) a *Fframwaith Arolygu Cyffredin* newydd Estyn (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010). Ceisiodd yr hunanasesiad adlewyrchu'r ddau fframwaith hyn o ran ei strwythur, ei iaith a'i ganllawiau ategol.

## Canfyddiadau allweddol

Mae'r canfyddiadau allweddol canlynol yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr ysgolion peilot eu hunain o'u gweithgareddau DRhA a'r cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd â staff.

### *Y DRhA yn yr ysgolion peilot*

- Dywedodd pob ysgol ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar safon gwaith dysgwyr ynghyd â'u cymhelliant a'u cyrhaeddiad, ond nodwyd ei bod yn anodd dangos tystiolaeth o hyn. Ymhlith y manteision eraill roedd: mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion byd-eang, cyfleoedd i ddysgwyr ehangu eu gorwelion, cyrraedd lefel uwch o sgiliau a meithrin gwell cydberthnasau â staff.
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod eu gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at effeithiolrwydd eu hysgolion, drwy hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. Gwelwyd hyn yn y chwe maes a nodwyd: lles dysgwyr, asesu ar gyfer dysgu/cyfranogiad dysgwyr, datblygu agweddau a gwerthoedd, sgiliau (meddwl, cyfathrebu, TGCh, a rhifedd), gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun byd-eang, a chyrhaeddiad.
- Roedd trefniadaeth ac arweinyddiaeth DRhA yn amrywio ond pwysleisiodd pob ysgol fod ymrwymiad a chyfraniad staff yn hollbwysig. Yn yr ysgolion uwchradd roedd y pennaeth (fel arweinydd cyffredinol yr ysgol) neu un o'r penaethiaid cynorthwyol yn chwarae rhan, tra yn yr ysgolion cynradd y pennaeth a fyddai wrth y llyw yn aml.
- Roedd yr ysgolion hynny a oedd o'r farn eu bod wedi 'gwreiddio'r' DRhA wedi annog staff i ystyried sut y gallai wella eu gwaith ar lefel adrannol (er enghraifft drwy ystyried sut y gallai gyfrannu at gynlluniau gwaith). Gallai trafodaeth ar lefel adrannol lywio trywydd ehangach yr ysgol gyfan gan ganolbwyntio ar y ffordd y caiff y DRhA ei gynnwys yn ystyrlon ymhob rhan o'r cwricwlwm, ac fel gweithgaredd ABCh ac mewn gwasanaethau ysgol ac ati.

### *Barn dysgwyr ar y DRhA*

- Nododd dysgwyr ystod eang iawn o fanteision o ran meithrin gwell dealltwriaeth fyd-eang a hyrwyddo cytgord rhwng gwledydd. Ymhlith y rhain roedd perthnasedd cyflwyniadau gan bobl o wledydd eraill; gwell dealltwriaeth o anghydraddoldeb byd-eang ac amddifadedd; meithrin eu dealltwriaeth ddiwylliannol; astudio ieithoedd modern yn fwy perthnasol ac uniongyrchol; a rôl y DRhA yn y gwaith o feithrin eu dealltwriaeth o faterion, gwrthdaro a hanes ledled y byd.
- I ddechrau cyfeiriodd y rhan fwyaf o ddysgwyr at fanteision DRhA i wledydd eraill, - neu at ystod eang iawn o fanteision o ran meithrin gwell dealltwriaeth fyd-eang a hyrwyddo cytgord rhwng gwledydd. Yn aml nid oeddent wedi ystyried i ba raddau yr oedd y DRhA wedi bod o fudd uniongyrchol iddynt hwy fel unigolion neu sut y gallai eu helpu mewn cyd-destunau eraill. Fodd bynnag, gydag annogaeth, rhestrwyd datblygu sgiliau cyfathrebu, TGCh, sgiliau cynllunio, datrys problemau a gwell gwybodaeth o bwnc fel y nodwyd uchod.

- Roedd dysgwyr hefyd yn llawn brwdfrydedd ac yn rhagweithiol wrth fynd ati i gynllunio a chyflawni gweithgareddau'n ymwneud â'r DRhA ac, er enghraifft, dysgu iaith. Croesawyd ac atebwyd yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag ymgysylltu â diwylliannau eraill, ac roeddent yn gyflym i weld y gwahaniaethau rhwng stereoteip a'r realiti a nodi hynny.

### *Deilliannau i ddysgwyr*

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod manteision y DRhA naill ai 'yn datblygu' neu 'wedi datblygu' o ran hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.
- Roedd dros hanner o'r farn bod manteision y DRhA wedi'u 'gwreiddio' o ran agweddau a gwerthoedd dysgwyr.
- Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddaeth i law yn hunanasesiad ffurfiol yr ysgolion, nodwyd amrywiaeth o ddeilliannau cadarnhaol gan yr ysgolion peilot yn adrannau ansoddol yr hunanasesiad a'r cyfweliadau astudiaethau achos. Cafwyd bod llawer o'r safbwyntiau hyn yn hynod ansoddol gan gynnwys eu helpu i ddeall materion yn well, creu dinasyddion hyddysg a meithrin eu sgiliau, (yn enwedig cyfathrebu a TGCh), ennyn hyder a hunan-barch.

### *Deilliannau i athrawon*

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod y manteision i athrawon 'yn datblygu'. Nodwyd bod athrawon yn fwy ymwybodol o faterion byd-eang a bod ganddynt well ymwybyddiaeth o fathau gwahanol o addysgeg a disgwyliadau gwledydd eraill.
- Ymhlith y deilliannau eraill roedd profiad o ddefnyddio TGCh i gysylltu â gwledydd tramor, sgiliau cynllunio ac arwain a'r cyfle i ryngweithio'n anffurfiol â dysgwyr drwy weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r DRhA.
- Roedd ysgolion yn bwriadu achub ar gyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau o arfer proffesiynol (er enghraifft CDPau) a oedd yn ceisio datblygu rôl arwain mewn perthynas â'r DRhA. Ymhlith y gweithgareddau arfaethedig yn y maes hwn roedd cyfrannu at weithgareddau ALl a chysylltu ag ysgolion a rhwydweithiau eraill.
- Nododd pob ysgol ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar staff o ran cymhelliant a boddhad, ynghyd â chynnig cyfleoedd i staff deithio ac ehangu eu gorwelion. Nododd dwy ysgol yn benodol rannu arfer a gweithio mewn tîm i raddau mwy helaeth, yn enwedig mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, tra nododd pob un well cydberthnasau rhwng athrawon a dysgwyr.

### *Deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol*

- Roedd tair ysgol o'r farn bod agweddau ar y deilliant hwn wedi'u 'gwreiddio' mewn dau faes (yr effaith ar ethos a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol), ac roedd dwy hefyd yn credu bod rôl DRhA wedi'i 'gwreiddio' o ran yr effaith ar ymddygiad a chydlyniant cymdeithasol a lefelau presenoldeb disgyblion.
- Fodd bynnag, roedd yn fwy cyffredin i ysgolion farnu bod yr agweddau hyn 'wedi datblygu' neu eu bod 'yn datblygu' ac roedd tair ysgol o'r farn bod effaith y DRhA ar bresenoldeb yn 'sylfaenol'.

### *Deilliannau i'r gymuned ehangach*

- Roedd dwy ysgol o'r farn bod effaith y DRhA wedi'i 'gwreiddio' ymhob agwedd ar y deilliannau i'r gymuned ehangach, ond roedd nifer gyfartal neu ychydig yn fwy o'r farn bod hon yn elfen a oedd 'yn datblygu'.
- Cydnabuwyd y gallai'r DRhA gyfrannu at y gwaith o feithrin cysylltiadau â'r cymunedau a wasanaethir gan ysgol drwy godi ymwybyddiaeth o'r hyn roedd y plant a phobl ifanc wedi'i gyflawni drwy weithgareddau codi arian i ategu gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r DRhA.

### *Defnyddioldeb yr hunanasesiad*

- Roedd pob ysgol yn gadarnhaol ynghylch yr hunanasesiad DRhA a'r canllawiau ategol. Credwyd y gallai roi data gwerthfawr iddynt at ddibenion atebolrwydd a chynllunio ac y byddai o'r budd mwyaf petai'n cael ei ddefnyddio fel y sail i broses adolygu barhaus. Roedd ysgolion hefyd yn cydnabod ac yn croesawu'r cysylltiad â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Ym marn ysgolion roedd y cynllun gweithredu a gafwyd ar ddiwedd yr asesiad yn werthfawr iawn i bennu targedau a mesur eu heffeithiolrwydd yn ddiweddarach.
- Mewn ysgolion uwchradd gallai deilliannau asesiadau DRhA fwydo i mewn i adolygiadau adrannol wrth i bob pennaeth adran geisio gwerthuso cryfderau presennol ei dimau a'r meysydd i'w gwella.
- Dywedodd pum ysgol, gan gynnwys y rhai a nododd eu bod 'yn datblygu', y byddent yn croesawu astudiaethau achos a rhestr o wefannau defnyddiol i gyd-fynd â'r hunanasesiad.

### *Gweithredu'r DRhA yn effeithiol*

- Nodwyd bod yr hunanasesiad ei hun yn ffactor a fyddai'n hyrwyddo'r broses o arwain y DRhA ochr yn ochr â ffactorau sbarduno posibl eraill megis rôl eco-gynghorau ysgolion a blaenoriaethau a nodwyd drwy weithredu ADCDF.
- Pwysleisiodd pob ysgol y ffaith bod ymrwymiad a chyfranogiad staff, yn yr ysgol ei hun a thramor, yn hanfodol bwysig.
- Roedd modd dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu agweddau ar y DRhA i amryw o staff, ond roedd hefyd angen i uwch reolwyr chwarae rhan.
- Nododd ysgolion fod darbwyllo llywodraethwyr o'i bwysigrwydd yn aml yn rhan greiddiol o'r broses o sicrhau bod y DRhA wedi'i 'wreiddio' yn eu gweithgareddau.
- Roedd yr ysgolion hynny a oedd o'r farn eu bod wedi 'gwreiddio'r' DRhA wedi annog staff i ystyried sut y gallai wella eu gwaith ar lefel adrannol/pwnc.
- Roedd y defnydd o dechnoleg (fideo-gynadledda, e-bost ac ati) i'w gwneud yn bosibl cysylltu â chymunedau dramor yn amlach hefyd yn agwedd yr ystyriwyd ei bod yn hyrwyddo DRhA wedi'i 'wreiddio'.

## Casgliadau

Cydnabu pob ysgol yn y sampl gyfraniad DRhA a'i rôl yn natblygiad personol a chymdeithasol ehangach plant a phobl ifanc (o ran agweddau a gwerthoedd). Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod deilliannau'r DRhA yn anodd eu mesur yn aml. Mae gwell ymwybyddiaeth a gwybodaeth o wledydd gwahanol, bod yn gyfarwydd â gwahaniaethau diwylliannol a'u parchu, a'r hyder i ystyried byw a gweithio dramor am gyfnodau byr neu hwy yn nodweddion a all ddod yn fwyfwy pwysig mewn economi fwy byd-eang. O ystyried nad yw Cymru wedi mabwysiadu'r model ysgolion arbenigol, mae cyfle i bob dysgwr gael budd o'r DRhA. Byddai angen i'r dull hwn o weithredu gynnwys y DRhA fel rhan allweddol o'r Cwricwlwm Cymreig, ac mewn ymateb i fentrau eraill megis hawliau plant a phobl ifanc wedi'u hymgorffori yn yr agenda Ymestyn Hawliau. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod angen i ysgolion ddadansoddi eu gweithgareddau presennol a datblygu dull systematig o nodi cyfleoedd a sut y gellir achub arnynt, er mwyn gwneud hyn yn effeithiol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwaith ymchwil a'r rhaglenni sy'n ategu'r broses o gyflawni DRhA yng Nghymru yn: http://www.britishcouncil.org/cy/wales.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cefndir y gwaith ymchwil, y nodau a'r fethodoleg ac yn amlinellu strwythur yr adroddiad.

## 1.1 Cefndir

Cynhaliwyd y prosiect hwn fel yr ail ran o waith ymchwil ar effaith y Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA), a gomisiynwyd gan British Council Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd y gwaith ei reoli gan y British Council drwy grŵp llywio prosiect, ac fe'i gwnaed gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) a'r Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd - Cymru (CEWC-Cymru). At ddiben yr astudiaeth hon, mae'r Dimensiwn Rhyngwladol yn cynnwys gweithgarwch addysgol Ewropeaidd a rhyngwladol a gynhelir mewn ysgolion.

Roedd **Rhan I** o waith ymchwil y British Council yn cynnwys astudiaeth gwmpasu i nodi graddau gweithgareddau DRhA mewn ysgolion yng Nghymru a chael adborth ysgolion ar eu heffeithiolrwydd. Nododd ymatebwyr ystod eang iawn o fanteision gwerth ychwanegol ac effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â phrosiectau DRhA, a chysylltwyd y rhain â'r gwaith o wella ysgolion yn gyffredinol. Gallai'r effeithiau hyn fod yn sail i fframwaith asesu er mwyn asesu a monitro effaith gweithgareddau o'r fath mewn ysgol.

Canolbwyntiodd gwaith ymchwil **Rhan II** ar fesur effaith DRhA mewn ysgolion yng Nghymru drwy ddatblygu a threialu hunanasesiad gyda sampl o wyth ysgol. Cafodd y gwaith ymchwil ei wneud rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2010.

## 1.2 Nodau a methodoleg

Nodau'r prosiect oedd asesu effaith DRhA ar effeithiolrwydd ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr drwy:

- greu Offeryn Hunanasesu DRhA
- treialu'r Hunanasesiad DRhA

- cynnal astudiaethau achos manwl o ysgolion
- gwneud y mwyaf o ganfyddiadau'r gwaith ymchwil.

Camau allweddol y gwaith ymchwil oedd:

- sefydlu grŵp llywio/cynghori arbenigol ar gyfer y prosiect
- creu hunanasesiad cychwynnol i'w ddefnyddio gan ysgolion, yn seiliedig ar ddata eilaidd ac astudiaeth Rhan I
- treialu'r hunanasesiad gyda sampl o dair ysgol er mwyn gweld pa mor effeithiol ydoedd
- datblygu'r hunanasesiad ymhellach
- llunio canllawiau drafft i ategu'r hunanasesiad
- cyflwyno'r offeryn drafft mewn wyth ysgol, yn rhai cynradd ac uwchradd, ledled Cymru, sy'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r DRhA ar lefelau gwahanol
- llunio'r hunanasesiad terfynol ynghyd â chanllawiau sy'n rhoi gwybodaeth, arweiniad ac awgrymiadau ar gyfer sicrhau bod gwaith DRhA yn cyfrannu at i) gwella cyflawniadau dysgwyr, ii) gwella ysgolion a iii) datblygu ymarferwyr, gan gynnwys astudiaethau achos o'r wyth ysgol beilot
- dosbarthu ac ymgorffori
- llunio adroddiad ymchwil llawn sy'n trafod yr uchod ynghyd â chrynodeb gweithredol.

## 1.3 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion astudiaeth Cam II. Mae Pennod 2 yn ystyried gwerth y DRhA, tra bod Pennod 3 yn nodi'r rhesymeg ar gyfer asesu'r agwedd hon ar waith ysgol. Mae Pennod 4 yn trafod y broses o ddatblygu'r offeryn mewn tair ysgol uwchradd a'i dreialu'n gychwynnol. Mae Pennod 5 yn cyflwyno'r wyth astudiaeth achos a gynhaliwyd ledled Cymru. Mae Pennod 6 yn cynnwys y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol. Caiff yr hunanasesiad a dogfennaeth berthnasol arall eu cynnwys fel atodiadau.

## 2. Gwerth y Dimensiwn Rhyngwladol

Deellir fwyfwy fod DRhA yn elfen bwysig o addysg ysgol yng Nghymru a thu hwnt. Mae amrywiaeth o ffactorau yn cyfrannu at ei wneud yn berthnasol: y cyfleoedd a gynigir gan gyfathrebu byd-eang a chyfryngau newydd; masnach ryngwladol a'i materion cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig; mwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliannau, ieithoedd a chredoau eraill; a heriau byd-eang megis mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rhannu adnoddau naturiol.

Mae'r syniad bod yn rhaid i ysgolion helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer y byd rhyng-gysylltiedig hwn, drwy eu galluogi i feithrin y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i wneud cyfraniad cadarnhaol fel dinasyddion byd-eang gweithredol, bellach yn gred brif ffrwd ymhlith addysgwyr. Yn ei chyflwyniad i *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu* (2006), nododd y Gweinidog dros Addysg ar y pryd fod dull gweithredu o'r fath yn:

> *Allweddol er mwyn inni nid yn unig 'Ddechrau Byw'n Wahanol' ond i sicrhau ein bod yn gweddnewid meddylfryd cenedlaethau'r dyfodol yn llwyr...Y byd yr ydym yn byw ynddo yw'r unig un sydd gennym - mae terfyn ar ei adnoddau. Nid opsiwn felly yw byw'n gynaliadwy a bod yn ymwybodol o'r effaith y mae ein ffyrdd ni o fyw yn ei chael ar draws y byd, ond rheidrwydd.*

Yng Nghymru, mae ADCDF - sy'n cwmpasu cryn dipyn o'r gwaith DRhA a wneir gan ysgolion - wedi bod yn flaenoriaeth i bolisi addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru ers 2004. Atgyfnerthir pwysigrwydd yr elfen hon gan y ffaith bod Estyn wedi cynnwys datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang fel deilliant dysgu allweddol i'w asesu mewn arolygiadau ysgol o fis Medi 2010.

Yn 2010, lluniodd y Gymdeithas Addysg Datblygu yn Lloegr adroddiad a oedd yn tanlinellu manteision meintiol gwirioneddol dysgu byd-eang. Yn seiliedig ar bôl piniwn gan Ipsos MORI, nododd fod dysgu o'r fath yn gwneud y canlynol:

- Creu cyfrwng i hyrwyddo natur ddybryd newid yn yr hinsawdd, gan haneru nifer y bobl sydd o'r farn nad oes diben iddynt hwy gymryd camau mewn perthynas ag ef.
- Cynyddu'n sylweddol y gyfran o'r cyhoedd sy'n cefnogi'r egwyddor o roi cymorth i wledydd tramor.
- Creu cymdeithas ag ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol sy'n edrych tuag allan.
- Gwrthbwyso annifyrrwch ynghylch gwahaniaethau o ran hil a chrefydd.

Hefyd nododd yr adroddiad fod lefel uchel iawn o gefnogaeth gyhoeddus i ddysgu byd-eang yn yr ysgol, gydag 86 y cant o bobl yn cytuno ei bod yn elfen allweddol o'r gwaith o ymdrin â materion rhyngwladol bwysig.

Felly caiff gwerth y DRhA ei gefnogi'n gryf gan lunwyr polisi addysgol a'r cyhoedd, ac mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn ei ystyried yn elfen allweddol o'u darpariaeth ddysgu.

# 3. Pam asesu'r DRhA?

Yn ystod Rhan I o waith ymchwil y British Council, nododd ymatebwyr o'r holl grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy fod cysylltiad anecdotaidd cryf rhwng gweithgareddau DRhA a gwella cyrhaeddiad dysgwyr a gwella ysgolion. Fodd bynnag, ni ellid mesur y berthynas hon mewn modd cadarn, meintiol ar sail tystiolaeth, a chafodd gwaith ymchwil Rhan II ei gomisiynu i greu offeryn hunanasesu a allai helpu ysgolion i fesur effaith y DRhA. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i roi'r gorau i greu cofnod ffeithiol o'r gwaith DRhA a wnaed ganddynt a dechrau canolbwyntio ar sut roedd y DRhA o fudd i'r ysgol, o ran cyfrannu at effeithiolrwydd addysgol, cydlyniant cymdeithasol ac agweddau a gwerthoedd dysgwyr ac athrawon.

Yn ogystal â bod yn werthfawr mewn termau addysgol ynddo'i hun, drwy wneud effaith DRhA yn fwy amlwg, byddai ysgolion yn gallu asesu pa mor effeithiol y bu eu gweithgareddau DRhA wrth gyflawni elfennau allweddol o'r cwricwlwm ysgol. Yn fwy cyffredinol byddai'r broses hon hefyd yn ategu prif elfen ffocws Llywodraeth Cynulliad Cymru ar effeithiolrwydd ysgolion, a phwyslais Estyn ar elfen hunanasesu o arolygiadau ysgol.

## 3.1 Rôl y DRhA o ran y cwricwlwm ysgol a chymwysterau

Ar gam cynnar o'r prosiect, lluniodd y partneriaid ddogfen o'r enw 'Beth yw'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg?', gan nodi'r prif feysydd cwricwlaidd a fframweithiau cymwysterau a oedd yn berthnasol i'r DRhA yng Nghymru (gweler Atodiad 1). Darparodd gyd-destun ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r hunanasesiad, yn ogystal â chanllaw cyfeirio defnyddiol i'r ysgolion peilot.
Y meysydd dan sylw oedd:

### 3.1.1 Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB) / Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae CEB yn gydran o'r Craidd Dysgu 14-19, sydd â'r nod o helpu pob dysgwr i feithrin dealltwriaeth o faterion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol. Fel rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru, mae'n ofynnol i fyfyrwyr dreulio 60 awr o amser dysgu dan arweiniad ar faterion CEB.

Dogfennau allweddol:

- *Cymru, Ewrop a'r Byd: fframwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru,* APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009; ISBN: 978 0 7504 5244 1

  http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/091019frameworkcy.pdf (Cymraeg)
  http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091019frameworken.pdf (Saesneg)

- *Manylebau Bagloriaeth Cymru: lefelau Uwch/Canolradd/Sylfaen,* CBAC, 2008

  http://www.ngfl-cymru.org.uk/cym/wbq-essentials/wbq-specifications.htm (Cymraeg)
  http://www.ngfl-cymru.org.uk/eng/wbq-essentials/wbq-specifications.htm(Saesneg)

### 3.1.2 Addysg Bersonol a Chymdeithasol(ABCh)

Mae ABCh yn ofyniad statudol rhwng 7 a 19 oed. Mae'r Fframwaith ABCh a awgrymir (nad yw'n statudol) yn cwmpasu nifer o elfennau DRhA, yn enwedig Dinasyddiaeth Weithgar, sy'n cynnwys dealltwriaeth o hawliau dynol a'r broses o wneud penderfyniadau rhyngwladol; a Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang sy'n cynnwys dealltwriaeth o adnoddau naturiol a rhyngddibyniaeth fyd-eang.

Dogfen allweddol:

- *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru,* APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008; ISBN: 978 0 7504 4432 3

  http://cymru.gov.uk/psesub/home/framework/?lang=cy (Cymraeg)
  http://wales.gov.uk/psesub/home/framework/?lang=en (Saesneg)

### 3.1.3 Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Mae ADCDF yn disgrifio'r gwaith y mae ysgolion yn ei wneud i hyrwyddo dinasyddiaeth gyfrifol a dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng materion lleol a byd-eang. Nid yw'n gydran gwricwlaidd statudol nac yn bwnc ar wahân, ond disgwylir ei gyflwyno ymhob rhan o'r cwricwlwm a thrwy system reoli ac ethos yr ysgol gyfan. O fis Medi 2010, bydd ADCDF yn un o bedwar 'profiad dysgu' allweddol a fesurir gan arolygwyr Estyn gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd.

Dogfennau allweddol:

- *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwya Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion*, APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008; ISBN: 978 0 7504 4770 6

  www.esd-wales.org.uk/english/ESDreports/pdf/reports%203/ESDGC%20common%20(e).pdf (Saesneg)

  www.esd-wales.org.uk/cymraeg/esdreports/pdf/reports%203/ESDGC%20common%20(w).pdf (Cymraeg)

- *Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu – Diweddariad (Ionawr 2009),* APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

  www.esd-wales.org.uk/cymraeg/esdreports/pdf/D674_Welsh.pdf (Cymraeg)
  www.esd-wales.org.uk/english/esdreports/pdf/D674_English.pdf (Saesneg)

### 3.1.4 Manylebau pwnc

Mae manylebau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ogystal ag ar gyfer cymwysterau pynciau, hefyd yn cyfrannu at y DRhA. Mae'r cyfraniad hwn yn amlwg iawn mewn pynciau megis daearyddiaeth, hanes, llywodraeth a gwleidyddiaeth, cymdeithaseg, ieithoedd tramor modern a datblygiad y byd.

Dogfennau allweddol:

- Dogfennau cwricwlwm cenedlaethol:

  http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/curriculumassessment/arevisedcurriculumforwales/?lang=cy (Cymraeg)
  http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/curriculumassessment/arevisedcurriculumforwales/?lang=en (Saesneg)

- Manylebau ar gyfer cymwysterau pynciau:

  www.cbac.co.uk (Cymraeg) / www.wjec.co.uk (Saesneg)

- Sicrhau bod Ieithoedd yn Cyfrif: Ieithoedd Tramor Modern mewn YsgolionUwchradd a Llwybrau Dysgu 14–19:

  http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/makinglanguagescount/?skip=1&lang=cy

## 3.2 Rôl y DRhA o ran datblygiad yr ysgol gyfan

Datblygwyd yr hunanasesiad DRhA ar adeg cyhoeddi dwy ddogfen allweddol a oedd wedi dechrau llywio arferion ysgolion: *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* **Llywodraeth Cynulliad Cymru** (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009) a *Fframwaith Arolygu Cyffredin* newydd Estyn (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010). Dan arweiniad y grŵp llywio, ceisiodd partneriaid y prosiect adlewyrchu'r ddau fframwaith hyn o ran strwythur, iaith a chanllawiau ategol yr offeryn.

### 3.2.1 Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY)

Mae'r FfEY yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella effeithiolrwydd ysgolion, yn seiliedig ar system 'ddiwygio tair lefel' ar y cyd ag ysgolion, awdurdodau addysg lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n disgrifio'r nodweddion allweddol sydd eu hangen i adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes a gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc ledled Cymru, ynghyd â chyfraniad pob partner i gyflawni hynny.

Gan fod ysgolion yn gyfarwydd â'r FfEY, a bod disgwyl iddynt ei ddefnyddio i lywio cynlluniau datblygu eu hysgol, talodd partneriaid y prosiect sylw arbennig i'r FfEY yn Adran D o'r offeryn asesu. Gofynnir i athrawon ystyried cyfleoedd, rhwystrau a chamau gweithredu mewn pump o elfennau effeithiolrwydd y FfEY - Cwricwlwm ac Addysgu, Arweinyddiaeth, Ymyrraeth a Chefnogaeth, Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol, a Gweithio gydag Eraill. Cafwyd cyfeiriad pellach at y FfEY yn Adran B, lle y gofynnwyd i ysgolion ystyried effaith y DRhA ar Gymunedau Dysgu Proffesiynol.

Dogfen allweddol:

- *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu Cymunedau Dysgu Effeithiol Gyda'n Gilydd*, APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008; ISBN: 978 0 7504 4616 7

  http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworkcy.pdf (Cymraeg)
  http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworken.pdf (Saesneg)

### 3.2.2 Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Bydd Estyn yn defnyddio'r fframwaith hwn i lywio ei arolygiadau o bob sefydliad addysgol o fis Medi 2010. Mae'n cynnwys deg Dangosydd Ansawdd, y disgwylir i ysgolion fesur eu cynnydd yn eu herbyn. Mae'r Fframwaith yn hynod berthnasol i'r

DRhA, am fod ADCDF wedi'i restru fel profiad dysgu allweddol y mae'n rhaid i sefydliadau ei ddarparu (fel y nodwyd uchod). Mae ei bwyslais ar hunanwerthuso hefyd yn ei wneud yn berthnasol i'r hunanasesiad DRhA cyffredinol, a thrafododd grŵp llywio'r prosiect bwysigrwydd posibl yr offeryn o ran helpu ysgolion i greu sail dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd gweithgareddau DRhA.

Dilynodd tîm y prosiect gyngor Estyn ac aelodau eraill o'r grŵp llywio i sicrhau bod yr offeryn asesu yn fwy perthnasol i ysgolion sy'n paratoi am arolygiad. Yn arbennig, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddeilliannau meintiol o weithgareddau DRhA, gan ofyn i ysgolion gyflwyno tystiolaeth o effaith gweithgareddau yn hytrach na chofnod ffeithiol syml o'r hyn a ddigwyddodd. Deilliodd y pedwar disgrifydd y byddai ysgolion yn mesur ei effaith yn eu herbyn (Sylfaenol, Yn datblygu, Wedi datblygu ac Wedi gwreiddio) o ddogfen flaenorol gan Estyn ar ADCDF a dogfen ddilynol Llywodraeth y Cynulliad sef *Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion yng Nghymru*. Cafodd yr iaith ei newid hefyd fel bod yr offeryn asesu yn fwy cydnaws â therminoleg Estyn, megis aralleirio 'deilliannau y tu hwnt i glwydi'r ysgol' yn 'deilliannau i'r gymuned ehangach' a newid 'diwrnodau ymwybyddiaeth' i 'diwrnodau thematig'.

Dogfennau allweddol:

- Fframwaith Arolygu Cyffredin, llawlyfrau hunanasesu a dogfennaeth arall:

  www.estyn.gov.uk/cy_inspectionguidance_2010.asp (Cymraeg)
  www.estyn.gov.uk/InspectionGuidance_2010.asp (Saesneg)

- *Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a DinasyddiaethFyd-Eang yng Nghymru* Estyn, 2006

  www.esd-wales.org.uk/cymraeg/esdreports/pdf/Establishing%20ESGDC%20report.pdf (Cymraeg)
  www.esd-wales.org.uk/english/ESDreports/pdf/Estyn_Baseline_Report.pdf (Saesneg)

## 3.3 Llenyddiaeth a dogfennaeth berthnasol

Yn ogystal â'r dogfennau a grybwyllir uchod ystyriwyd amrywiaeth o lenyddiaeth berthnasol yn ystod y prosiect, er mwyn llywio datblygiad offeryn asesu DRhA ac er mwyn ei gynnwys mewn rhestr o adnoddau a argymhellir ar gyfer fersiwn terfynol ei ganllawiau ategol. Darparodd y dogfennau hyn, a restrir yn Atodiad 4, ddeunydd cyfeirio defnyddiol ar gyfer tîm y prosiect, er i gyd-destun addysgol penodol Cymru olygu bod angen datblygu'r offeryn asesu gan ystyried y safbwyntiau cwricwlaidd ac ysgol gyfan a amlinellwyd yn Adrannau 3.1 a 3.2 uchod.

# 4. Cam 1: Gwaith datblygu a pheilot cychwynnol

Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau'r gwaith peilot cychwynnol a wnaed mewn tair ysgol uwchradd. Ceir gwybodaeth am y ffordd y datblygwyd yr hunanasesiad DRhA cyn ei dreialu, gan gynnwys rhesymeg y broses, yn Atodiad 5.

## 4.1 Y gwaith cychwynnol o dreialu'r hunanasesiad drafft

Ar gyfer y cam cychwynnol hwn ar y broses beilot, gyda chymeradwyaeth y grŵp llywio, dewisodd tîm y prosiect ysgolion uwchradd yr oedd yn gyfarwydd â hwy eisoes, ac a oedd wedi gwneud gwaith DRhA dros nifer o flynyddoedd, er mwyn sicrhau ymateb prydlon a chadarnhaol. Y tair ysgol a ddewiswyd oedd ysgol Gymraeg yn Ne-orllewin Cymru, ysgol ddwyieithog yng Ngogledd-ddwyrain Cymru ac ysgol ddwyieithog arall yng Ngorllewin Cymru. O ganlyniad cafwyd cymysgedd o leoliadau daearyddol, cyfnodau, a sefydliadau addysgol Cymraeg/Saesneg. Cafodd yr ysgolion yr offeryn drafft a'r wybodaeth gefndirol ar ffurf y ddogfen ‘Beth yw'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg?’ (gweler Atodiad 1) ym mis Mawrth 2010, a gofynnwyd iddynt ddychwelyd yr hunanasesiad wedi'i gwblhau o fewn tair i bedair wythnos (a oedd yn cynnwys gwyliau'r Pasg). Rhoddwyd adborth ar lafar i dîm ymchwil SCYA hefyd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

## 4.2 Deilliannau'r gwaith peilot cychwynnol

Cyflwynodd tîm y prosiect adroddiad a dadansoddiad mewn perthynas â'r gwaith treialu, yn ogystal â chopïau o'r hunanasesiad a gwblhawyd gan bob ysgol, i grŵp llywio'r prosiect. Mewn un ysgol y pennaeth, a'r pennaeth yn unig, oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad ac mewn un arall pennaeth adran â diddordeb mewn DRhA oedd wedi gwneud ond nad oedd ganddo unrhyw gyfrifoldebau uwch reoli. Yn y drydedd ysgol roedd y pennaeth a dau aelod allweddol o dîm rheoli canol yr ysgol wedi cwblhau adrannau o'r hunanasesiad. Dewisodd pob ysgol gwblhau fersiwn papur yr hunanasesiad, yn hytrach na'i wneud yn electronig.

Isod ceir crynodeb a dadansoddiad o ddefnydd yr ysgolion o'r hunanasesiad peilot.

### 4.2.1 Enghreifftiau o weithgareddau DRhA presennol

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau DRhA presennol a nodwyd gan y tair ysgol roedd: diwrnodau thema/rhyngwladol; yr ysgol yn creu cyswllt drwy gymryd rhan mewn prosiectau penodol, e.e. Comenius, Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol; teithiau dramor a chyfeillion gohebu; a chynadleddau Cenhedloedd Unedig enghreifftiol CEWC-Cymru.

Ymhlith y meysydd cwricwlwm a nodwyd roedd: Bagloriaeth Cymru, daearyddiaeth, ieithoedd modern, Saesneg, celf, addysg grefyddol a cherddoriaeth, yn ogystal â thema drawsbynciol ADCDF. Crybwyllwyd gweithgareddau penodol eraill gan ysgolion unigol, e.e. neges Ewyllys Da'r Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, a Her Sgiliau'r Byd.

### 4.2.2 Cwblhau'r hunanasesiad, Adrannau A-D

***Adran A: Deilliannau i ddysgwyr***

Dywedodd pob ysgol ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar safon gwaith dysgwyr ynghyd â'u cymhelliant a'u cyrhaeddiad, ond nodwyd ei bod yn anodd dangos tystiolaeth o hyn. Ymhlith y manteision eraill roedd: mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion byd-eang, cyfleoedd i ddysgwyr ehangu eu gorwelion, cyrraedd lefel uwch o sgiliau a meithrin gwell cydberthnasau â staff. Nodwyd ffynonellau amrywiol o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau, gan gynnwys taflenni gwerthuso/hunanasesu, dyddiaduron a phortffolios o waith myfyrwyr, ffotograffau, gwybodaeth ar wefannau ysgolion, holiaduron i ddisgyblion a thrafodaethau. Roedd un ysgol wedi casglu barn grŵp o ddisgyblion o Flwyddyn 8 ynghylch gweithgareddau posibl yn y dyfodol. Roedd dysgwyr yn awyddus i ddefnyddio fideo-gynadledda i wella eu gwersi a meithrin dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill. Awgrymwyd hefyd fwy o gyfleoedd i wneud gwaith unigol ar brosiectau am wlad neu fater a amlygwyd yn yr ysgol.

***Adran B: Deilliannau i athrawon***

Unwaith eto nododd pob ysgol ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar staff o ran cymhelliant a boddhad, ynghyd â chynnig cyfleoedd i staff deithio ac ehangu eu gorwelion. Soniodd dwy ysgol hefyd am fwy o rannu arfer a gweithio mewn tîm, yn enwedig mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru. Nododd pob ysgol fod cydberthnasau athrawon/dysgwyr wedi gwella. Ymhlith y dystiolaeth a roddwyd roedd cofnodion cyfarfodydd, gwaith prosiect, ffotograffau, holiaduron staff, ac adborth gan ddysgwyr ar ymweliadau a gwersi.

Adrannau A a B oedd yr hawsaf o ran eu llenwi a chasglu tystiolaeth yn ôl yr ysgolion. Dywedodd un ysgol y byddai'n bosibl dosbarthu'r adrannau hyn i staff mewn adrannau/cyfadrannau unigol i'w llenwi cyn i'r hunanasesiad gael ei gwblhau ar gyfer yr ysgol gyfan.

***Adran C: Deilliannau i gymuned yr ysgol***

Cafodd yr adran hon ei llenwi gan y pennaeth mewn dwy ysgol a phrin y cyffyrddwyd â hi gan yr aelod o staff heb safbwynt rheoli. Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau roedd: gwasanaethau, wythnos Masnach Deg, gwaith cyngor yr ysgol, cysylltiadau â myfyrwyr rhyngwladol, diwrnodau thema, ADCDF a gwaith ABCh. Ymhlith y dystiolaeth roedd: dogfennau cynllunio, polisïau, dogfennaeth prosiect benodol, cofnodion cyfarfodydd, arddangosfeydd, a defnydd o Amgylchedd Dysgu Rhithwir ysgolion. Dywedodd un ysgol fod mwy o ddysgwyr yn bresennol ar ddiwrnodau ac iddynt thema ryngwladol ac wythnosau â gweithgareddau penodol.

***Adran Ch: Deilliannau y tu hwnt i glwydi'r ysgol***

Unwaith eto, cafodd yr adran hon ei llenwi gan y pennaeth mewn dwy ysgol a phrin y cyffyrddwyd â hi gan yr aelod o staff heb safbwynt rheoli. Ymhlith y gweithgareddau roedd: cysylltiadau ag ysgolion ledled y byd ac ysgolion cynradd, prosiectau rhyngwladol a diwrnodau ac iddynt thema, cyfleoedd i deithio, a fideo-gynadledda. Ar y cyfan roedd ysgolion yn llai hyderus ynghylch llenwi'r adran hon ac o'r farn bod yr agwedd hon wedi'i datblygu i raddau llai.

***Adran D: Gwella effeithiolrwydd ysgolion***

Teimladau cymysg oedd gan ysgolion am yr adran hon. Ni wnaeth yr aelod o staff heb brofiad rheoli ei llenwi o gwbl. Er eu bod yn gallu cydnabod ei phwysigrwydd, dywedodd y ddau bennaeth eu bod wedi cael rhywfaint o anhawster i ddechrau yn cysylltu eu gwaith DRhA â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

### 4.2.3 Casgliadau cyffredinol

- Roedd y tair ysgol wedi cynnal rhyw fath o archwiliad DRhA (darparodd un ysgol gopi) ac roedd eu harchwiliadau eu hunain wedi dilyn patrymau tebyg.
- Ym marn yr ysgolion roedd y DRhA yn gyfrwng delfrydol i ddatblygu Asesu ar gyfer Dysgu ymhellach ac roedd yn annog cydweithio rhwng staff a dysgwyr.
- Teimlai pob ysgol fod yr hunanasesiad yn addas at y diben a gallai werthfawrogi'r angen iddo fod yn gyson â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a fframwaith arolygu newydd Estyn.

- Nododd un pennaeth fod gormod o ailadrodd yn yr hunanasesiad ac awgrymodd y dylid rhestru'r gweithgareddau mewn adran ragarweiniol cyn symud ymlaen i dystiolaeth. Fodd bynnag, roedd ysgol arall yn anghytuno, gan ddweud ei bod yn bwysig sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y deilliannau a'r dystiolaeth a chynlluniau'r dyfodol bob amser.
- Roedd pob ysgol yn croesawu'r syniad o astudiaethau achos, ond roedd un ysgol yn arbennig o'r farn y dylid cael mwy o'r rhain gan ysgolion uwchradd gan fod yr astudiaethau achos presennol ar gyfer DRhA yn canolbwyntio'n gryf ar ysgolion cynradd.
- Nodwyd droeon fod amser ac arian yn rhwystrau i weithgareddau DRhA. Credai dwy ysgol fod angen iddynt ehangu eu gwaith DRhA i gynnwys mwy o staff ac adrannau. Nid oedd gwaith trawsgwricwlaidd un ysgol wedi'i ddatblygu'n dda eto, a nododd yr ysgol honno broblemau o ran amserlennu a neilltuo amser i staff ar gyfer cyfarfodydd a gweithio rhwng adrannau.
- Roedd angen cynnal trosolwg strategol i lenwi rhannau olaf yr hunanasesiad.
- Roedd pob ysgol o'r farn bod canllawiau ar y math o weithgareddau i'w cynnwys, sut i asesu lefel yr ymgysylltu a chyngor ar yr hyn a oedd yn gyfystyr â thystiolaeth yn bwysig iawn. Tanlinellodd pob ysgol y ffaith bod angen i'r canllawiau fod yn gryno ac yn benodol.

Llywiodd y casgliadau hyn, ynghyd ag amrywiaeth o faterion a godwyd gan aelodau o'r grŵp llywio, y broses o lunio canllawiau i helpu ysgolion i ddefnyddio'r hunanasesiad a chynllunio'n effeithiol ar gyfer y gwaith o ddatblygu gweithgareddau DRhA. Ceir y canllawiau eu hunain yn Atodiad 3 ac amlinellir y rhesymeg dros eu datblygu yn Atodiad 6.

# 5. Cam 2: Treialu'r offeryn hunanasesu DRhA

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r sampl o ysgolion a ddefnyddiwyd yn y peilot ac yn cyflwyno deilliannau ail ran y gwaith o ddatblygu'r hunanasesiad diwygiedig ar ffurf astudiaethau achos o wyth ysgol ledled Cymru. Cyn cynnal y peilot lluniodd tîm y prosiect, dan arweiniad grŵp llywio'r prosiect, ganllawiau drafft i gyd-fynd â'r hunanasesiad. Caiff y broses o ddatblygu'r canllawiau hyn ynghyd â'r egwyddorion a fu'n sail iddynt eu hamlinellu yn Atodiad 6.

## 5.1 Y Sampl

Cafwyd sampl o 15 o ysgolion, yn cynrychioli trawstoriad o ysgolion cynradd ac uwchradd o bob cwr o Gymru. Roedd y sampl yn cynnwys un ysgol arbennig ac un ysgol breifat ac roedd gan yr ysgolion a nodwyd hanes amrywiol o ymwneud â'r DRhA.

Mynegwyd diddordeb gan 12 o ysgolion ac o blith y rhain dewiswyd sampl derfynol o wyth ysgol a oedd wedi ymwneud â'r DRhA i raddau amrywiol ar gyfer y peilot. Cynhaliwyd astudiaethau achos, mewn pedair ysgol uwchradd, tair ysgol gynradd ac un ysgol arbennig. Roedd dwy o'r ysgolion uwchradd yn sefydliadau 11-16 tra roedd y ddwy arall yn cynnwys y chweched dosbarth. Deuai'r ysgolion o amrywiaeth o gymunedau ledled Cymru. Roedd yr ysgolion uwchradd yn cynnwys dwy ardal ddiwydiannol (un gymuned ddiwydiannol fawr ac un fach), ysgol mewn tref farchnad a oedd yn gwasanaethu cefnwlad wledig fawr, a phedwaredd ysgol mewn ardal canol dinas. Roedd dwy o'r ysgolion cynradd mewn pentrefi gwledig ac roedd y drydedd mewn ardal canol dinas. Lleolwyd yr ysgol arbennig mewn tref yn y Cymoedd.

## 5.2 Casglu data

Aeth y tîm ymchwil ati i baratoi taflenni holi ar gyfer yr athrawon a'r dysgwyr yn ystod yr ymweliadau â'r ysgolion a oedd yn destun astudiaeth achos (Atodiad 7) a chytunwyd ar y rhain gan y grŵp llywio cyn y peilot. Roedd y daflen holi ar gyfer staff yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- Cefndir yr ysgol o ran datblygu'r DRhA.
- Deilliannau'r DRhA.
- Defnyddio'r hunanasesiad.

Cynlluniwyd y daflen i ddysgwyr i ganfod barn dysgwyr ar y ddau brif faes canlynol:

- Rôl dysgwyr o ran y DRhA yn yr ysgol.
- Eu canfyddiadau o ddeilliannau'r DRhA.

Cafodd yr ysgolion tua thair wythnos i gwblhau'r hunanasesiad ac yna ymwelodd aelod o'r tîm ymchwil â'r holl ysgolion. Yn ystod yr ymweliadau cyfwelodd yr ymchwilydd â'r unigolyn a oedd yn bennaf cyfrifol am gwblhau'r hunanasesiad ynghyd ag aelodau perthnasol eraill o staff fel y bo'n briodol. Mae Tabl 5.1 yn dangos sawl aelod o staff ymhob ysgol a gafodd gyfweliad a rolau'r staff hynny yn yr ysgol.

**Tabl 5.1** Nifer y staff a gafodd gyfweliad a'u rolau

| Ysgol | Nifer y staff a gafodd gyfweliad | Rolau Staff |
|---|---|---|
| **Ysgol A** | 4 | Pennaeth Cynorthwyol<br>Ysgrifennydd Cyfathrebu (ddim yn addysgu)<br>Athro hanes<br>Rheolwr y Llyfrgell |
| **Ysgol B** | 5 | Pennaeth Cynorthwyol<br>Cydlynydd Bagloriaeth Cymru<br>Pennaeth Daearyddiaeth<br>Arweinydd Dysgu Blwyddyn 7-8<br>Cydlynydd y Ganolfan Dysgu Cymunedol (ddim yn addysgu) |
| **Ysgol C** | 1 | Pennaeth Cynorthwyol |
| **Ysgol Ch** | 4 | Cydlynydd rhyngwladol (athro)<br>Athrawon ysgol lefel uwch x 2<br>Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu (CCD) |
| **Ysgol D** | 1 | Pennaeth |
| **Ysgol Dd** | 3 | Pennaeth<br>Athro Cyfnod Sylfaen<br>Athro CA2 |
| **Ysgol E** | 1 | Pennaeth |
| **Ysgol F** | 1 | Pennaeth |

*Ffynhonnell: Gwaith ymchwil SCYA/CEWC-Cymru 2010.*

Roedd pob aelod o'r tîm ymchwil wedi bod yn destun gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a chynhaliwyd cyfweliadau yn unol â chod ymarfer SCYA (ar gael yn: http://www.nfer.ac.uk/nfer/about-nfer/code-of-practice/nfercop.pdf). Yn yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd cafodd y tîm ymchwil gyfle i holi grwpiau o ddysgwyr heb fod staff yno. Roedd aelod o staff yn bresennol yn ystod cyfweliadau â dysgwyr yn yr ysgol arbennig.

Mae Tabl 5.2 yn dangos sawl dysgwr a gafodd gyfweliad ymhob ysgol a'u grwpiau blwyddyn.

**Tabl 5.2** Nifer y dysgwyr a gafodd gyfweliad a'u grwpiau blwyddyn

| Ysgol | Nifer y dysgwyr a gafodd gyfweliad | Grwpiau Blwyddyn |
|---|---|---|
| **Ysgol A** | 12 | Blwyddyn 10 - 7<br>Blwyddyn 12 - 2<br>Blwyddyn 13 - 3 |
| **Ysgol B** | 8 | Blwyddyn 7 - 2<br>Blwyddyn 8 - 2<br>Blwyddyn 9 - 2<br>Blwyddyn 10 - 2 |
| **Ysgol C** | 9 | Blwyddyn 8 - 2<br>Blwyddyn 9 - 1<br>Blwyddyn 10 - 6 |
| **Ysgol Ch** | 12 | Dysgwyr; yr ysgol uwch |
| **Ysgol D** | 6 | Blwyddyn 4 |
| **Ysgol Dd** | 17 | Blwyddyn 1 – 2<br>Blwyddyn 2 - 2<br>Blwyddyn 3 - 4<br>Blwyddyn 4 - 4<br>Blwyddyn 6 - 5 |
| **Ysgol E** | 8 | Blwyddyn 5 – 4<br>Blwyddyn 6 - 4 |
| **Ysgol F** | 6 | Blwyddyn 9 – 2<br>Blwyddyn 10 - 4 |

*Ffynhonnell: Gwaith ymchwil SCYA/CEWC-Cymru 2010.*

Yn dilyn yr ymweliadau paratowyd astudiaeth achos fanwl gan y tîm ymchwil ar bob un o'r wyth ysgol yn y sampl. Cyflwynir yr astudiaethau achos hyn yn Atodiad 5.3 o'r adroddiad hwn a cheir crynodeb o'r prif ganfyddiadau ynghyd â chasgliadau ac argymhellion ym Mhennod 6 o'r adroddiad hwn.

## 5.3 Yr wyth astudiaeth achos

### Astudiaeth Achos – Ysgol A

- ysgol ddwyieithog ddynodedig gymysg 11-18 oed mewn ardal wledig
- 681 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 127 yn y chweched dosbarth (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn, ym mis Ionawr 2010)
- mae gan lai na 6 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

#### *Datblygu'r DRhA*

Roedd gan yr ysgol gysylltiadau rhyngwladol hirsefydledig a oedd wedi'u datblygu'n dda ag amrywiaeth o wledydd a bu'n weithgar o ran cynnwys y gymuned a busnesau mewn gwaith DRhA. Dros y blynyddoedd roedd bron 50 o staff wedi ymwneud â gweithgareddau DRhA ar ryw lefel. Ers 1992 bu dysgwyr Blwyddyn 12 ac athrawon yn ymweld â dwy ysgol yn America yn rheolaidd. Atgyfnerthwyd y cysylltiadau hyn ymhellach gan gefnogaeth a diddordeb pobl fusnes leol, drwy'r siambr fasnach a chyfeillio'r dref a sefydlwyd partneriaethau effeithiol iawn. Roedd yr ysgol yn ystyried cydweithio ag ysgol uwchradd gyfagos er mwyn datblygu'r cysylltiadau ymhellach.

Roedd gan yr ysgol gysylltiadau hirsefydledig â nifer o wledydd yn Ewrop hefyd gan gynnwys Sbaen, Ffrainc a'r Almaen. Roedd dysgwyr yn mynd ar deithiau addysgol yn aml fel rhan o'u cyrsiau ieithoedd tramor modern a'r elfen iaith o gwrs Bagloriaeth Cymru. Roedd gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cerddorol a chwaraeon ag ysgol yn Awstralia ac roedd wedi meithrin cysylltiadau â sawl gwlad Geltaidd ac Ewropeaidd arall dros y blynyddoedd. Roedd yr adran hanes wedi trefnu cyfres o deithiau i Ffrainc i ymweld â meysydd y gad adeg y Rhyfel Byd Cyntaf ac roedd rhai dysgwyr wedi ymweld â safleoedd yr holocost fel rhan o'u hastudiaethau.

Roedd gan yr ysgol ysgrifennydd cyfathrebu a oedd â chyfrifoldeb arbennig am ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau DRhA yn yr ysgol a hefyd am ddatblygu gwefan yr ysgol i fod yn *'wirioneddol fyd-eang'*. Cynhaliwyd nifer o brosiectau penodol, gan gynnwys prosiect dŵr diweddar ag ysgol yn yr Eidal ac roedd myfyrwyr o'r Eidal a oedd yn astudio'r ardal leol wedi cael eu cartrefu gan yr ysgol. Yn ystod eu hymweliad roedd y myfyrwyr o'r Eidal wedi cynhyrchu ffilm ddogfen ac roedd cynlluniau ar y gweill i gynnal ymweliad cyfatebol â'r Eidal, gydag 20 o ddysgwyr o Flwyddyn 8 i 13 yn ymwneud â'r gwaith o baratoi prosiectau a chyflwyniadau unigol i'w rhannu â disgyblion o'r Eidal yn ystod eu hymweliadau. Roedd staff o'r ddwy

ysgol mewn cysylltiad rheolaidd drwy e-bost ac roedd rhai dysgwyr wedi dechrau dysgu Eidaleg. Roedd yr ysgol wedi gwneud cais diweddar am arian Comenius yr UE drwy'r British Council i ehangu'r prosiect dŵr i gynnwys Sweden a Gwlad Groeg.

Roedd yr ysgrifennydd cyfathrebu a dau aelod arall o staff hefyd wedi ymweld â Cholombia fel rhan o brosiect amgylcheddol ac roedd yn fwriad cynnal taith arall yno yn cynnwys dysgwyr hŷn y flwyddyn ganlynol. O ganlyniad i'r prosiect hwn, trefnwyd dosbarthiadau Sbaeneg ar ôl ysgol, ar gais y dysgwyr, mewn ymgais i hwyluso'r cyfathrebu â chyfeillion gohebu yng Ngholombia.

Ymhlith y gweithgareddau DRhA eraill roedd nifer o fentrau Masnach Deg, er enghraifft sioe ffasiwn, a drefnwyd gan ddysgwyr a oedd ar gynllun Dug Caeredin ac a gyd-gysylltwyd gan reolwr llyfrgell yr ysgol. Darparwyd y dillad gan siopau elusennol lleol, cyfrannodd sawl adran yn yr ysgol at y sioe a gwahoddwyd y gymuned leol, gan gynnwys ysgolion cynradd sy'n bwydo. Hefyd trefnodd rheolwr y llyfrgell raglen reolaidd o siaradwyr gwadd proffil uchel sef 'Yng Nghwmni', a oedd yn targedu dysgwyr abl a thalentog yn benodol, ond a fu'n boblogaidd iawn yn yr ysgol gyfan. Roedd gan lawer o'r siaradwyr gysylltiadau rhyngwladol ac Ewropeaidd a chafodd dysgwyr gyfleoedd i'w holi ac i ddysgu mwy am faterion byd-eang.

### *Llais y dysgwr*

Roedd yr ysgol wedi defnyddio pecynnau cymorth ymgynghoriad Gwrando ar Ddysgwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac wedi trefnu amrywiaeth o gyfleoedd hunanwerthuso i ddwyn ynghyd adborth dysgwyr o Flynyddoedd 9, 12 a 13. Llenwodd y dysgwyr holiaduron ar amrywiaeth o agweddau ar ddarpariaeth CA 3, 4 a 5 a chafodd y data o'r rhain ei ddadansoddi gan yr ysgrifennydd cyfathrebu a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu DRhA yn y dyfodol.

Roedd cyngor yr ysgol yn weithgar iawn ac yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ADCDF. At hynny, roedd dysgwyr hefyd wedi sefydlu Cyngor Ysgolion y Byd, a oedd yn cwrdd bob wythnos, â'i wefan ei hun, a gynlluniwyd gan ddysgwr o Flwyddyn 12 ac a oedd yn hyrwyddo deialog rhyngwladol. Roedd y wefan wedi dwyn sylw ysgolion a grwpiau o bob cwr o'r byd ac roedd dysgwyr o Ysgol A mewn cysylltiad rheolaidd drwy e-bost a chyswllt fideo â dysgwyr mewn amrywiaeth o wledydd gan gynnwys Nepal, Madagascar, yr Eidal a Cholombia. Roedd y Cyngor hwn yn cwrdd bob wythnos ac yn trafod ac yn cynllunio gweithgareddau DRhA a digwyddiadau codi arian ac yn ymateb i geisiadau am gyfeillion gohebu gan bartïon â diddordeb nad oeddent yn aelodau. Er mai dysgwyr oedd yn ei redeg yn gyfan gwbl,

cyfetholwyd staff i'r cyngor fel y bo angen. Bu'r Cyngor yn gwerthu toesenni Masnach Deg i godi arian i gyfrannu at rent ysgol ym Madagascar, ond roedd aelodau yn ymwybodol iawn o berthynas gyfartal, fel y mae'r sylw hwn yn ei ddangos:

> *Nid dim ond helpu pobl eraill o amgylch y byd yw'r bwriad, oherwydd rydym wedi dysgu cymaint hefyd am ddiwylliant, strwythurau cymdeithasol a daearyddiaeth gwledydd eraill.*

Pwysleisiodd aelod arall, a oedd wedi dylunio'r wefan, y ffaith bod sgiliau TG newydd yn cael eu meithrin. Soniodd aelodau eraill am fwy o hyder, gwell sgiliau cyfathrebu a chyfleoedd i ddysgu ieithoedd newydd er mwyn cyfathrebu â chyfeillion gohebu wrth gyfeirio at fanteision DRhA. Ym marn dysgwyr bu mwy o ddiddordeb mewn astudio daearyddiaeth Safon Uwch o ganlyniad i waith Cyngor Ysgolion y Byd.

Roedd dysgwyr a fu ynghlwm wrth ymweliadau cyfnewid â gwledydd Ewropeaidd yr un mor gadarnhaol am y Deilliannau. Dywedodd un dysgwr o Flwyddyn 10: *'Mae wedi gwneud i mi fwynhau Ffrangeg yn fwy'* ac roedd dysgwr o Flwyddyn 13 yn credu ei fod *'Yn herio'r stereoteipiau amlwg, oherwydd roeddem yn gallu eu cymharu â realiti'r sefyllfa yn y wlad'*. Disgrifiodd un dysgwr a oedd wedi ymweld ag Auschwitz a'r Somme sut y gwnaeth yr ymweliadau feithrin ei dealltwriaeth o hanes gan ddweud: *'Mae gweld y lle drosoch chi'ch hun yn brofiad hollol wahanol i ddarllen amdano mewn gwerslyfr'*. Cyfeiriodd hefyd at yr hyder a fagwyd drwy roi adborth i ddysgwyr a staff mewn gwasanaeth arbennig a'r diddordeb yr oedd ei theithiau wedi'i greu ymhlith pobl leol. Mae bellach wedi ennill ysgoloriaeth i astudio hanes yn y brifysgol ac roedd yn bwriadu astudio i fod yn athrawes hanes, gyda'r uchelgais o fynd â grŵp o ddysgwyr i'r digwyddiad i gofio 100 mlynedd ers brwydr y Somme yn 2016.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Y pennaeth cynorthwyol a'r ysgrifennydd cyfathrebu a fu'n bennaf cyfrifol am gwblhau'r hunanasesiad at ddiben y peilot, am fod ganddynt drosolwg strategol o holl waith DRhA yr ysgol.

Roedd yr ysgrifennydd cyfathrebu o'r farn bod y DRhA wedi helpu i wella cymwyseddau dysgwyr a magu eu hyder mewn amryw o ffyrdd:

*Mae'r disgyblion nad ydynt fel arfer yn cyfrannu at brosiectau ysgol wedi cyflawni tasgau a chyfrifoldebau enfawr ac wedi awgrymu sawl ffordd o ddatblygu prosiectau. Mae wedi bod yn gyfle gwych i greu prosiectau cyffrous ac ystyrlon sy'n dod â Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fyw.*

Roedd hefyd o'r farn bod y DRhA yn gyfrwng ardderchog i ddysgwyr hŷn gyflawni prosiect ystyrlon ar gyfer cwrs Bagloriaeth Cymru a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a oedd yn cynnwys elfen gref o ddinasyddiaeth.

Credwyd y gallai'r hunanasesiad wneud cyfraniad defnyddiol at gynllun datblygu'r ysgol, fel offeryn cynllunio, a hefyd fel ffordd o gasglu tystiolaeth ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Roedd yr ysgol wedi defnyddio lefelau cyrhaeddiad fel dangosyddion ar gyfer effaith y DRhA wrth ddarparu tystiolaeth ar gyfer arolygiadau blaenorol Estyn, ond roedd o'r farn y byddai defnyddio sgiliau hanfodol fel ffactor sbarduno yn gwneud y broses yn haws yn y dyfodol, fel y mae'r sylw hwn yn ei ddangos:

*Gallwch fesur o'r meincnod sy'n dangos lle mae dysgwyr mewn grŵp blwyddyn penodol ac yna cynnwys yr hyn maent yn ei wneud fel rhan o'r DRhA a mesur y gwelliant mewn sgiliau penodol e.e. cyfathrebu neu gydweithio.*

Roedd yr ysgol yn awyddus i ddatblygu ymhellach y DRhA yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 a'i gysylltu â sgiliau hanfodol a sgiliau allweddol ehangach, e.e. gweithio gydag eraill a gwella eich dysgu eich hunain, er mwyn darparu Deilliannau mesuradwy, yn debyg i'r rhai sydd eisoes ar gael drwy Fagloriaeth Cymru. Yng ngeiriau'r pennaeth cynorthwyol,

*Nid ymwneud â mynd i Ffrainc ar ymweliad diwylliannol mohono mwyach nac hyd yn oed dim ond dysgu'r iaith. Y cwestiwn gwirioneddol yw, sut mae'n gysylltiedig â meithrin sgiliau ehangach?*

Ym marn yr ysgol roedd cael achrediad ar gyfer gwaith DRhA yn hynod bwysig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ôl-16, *'fel maes llafur y tu allan i'r ysgol ac er mwyn dwyn ynghyd yr holl ddeilliannau nad ydynt yn academaidd'*. Roedd y cysylltiadau ag America wedi darparu cyfleoedd unigryw i athrawon a dysgwyr ar gwrs Bagloriaeth Cymru i gael profiad gwaith mewn cyd-destun rhyngwladol a gellid mesur y rhain o ran cymwysterau dysgwyr.

Yn ôl Ysgol A roedd 'Wedi datblygu' yn Adrannau A ac C gan ei bod wedi canolbwyntio ei hymdrechion, o ran y DRhA, ar ddeilliannau i ddysgwyr a gafodd

effaith ar y deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol. Credai'r ysgol ei bod 'yn datblygu' o ran deilliannau i athrawon ac y gellid gwneud mwy yn y dyfodol i gynnwys mwy o adrannau ac athrawon unigol. Fel rhan o rwydweithiau datblygol o arfer proffesiynol roedd yr ysgol am ystyried defnyddio'r DRhA i wella datblygiad proffesiynol staff a dysgu o arfer da ysgolion mewn gwledydd eraill. Yn y gorffennol roedd wedi gwneud hyn gyda'r cysylltiadau ag America ac Awstralia ac yn ystod ymweliad diweddar, roedd staff o'r Eidal wedi edrych ar strwythurau rheoli'r ysgol. Y gobaith oedd cynnal ymarfer tebyg yn ystod yr ymweliad cyfatebol yn y dyfodol. Fodd bynnag, ym marn yr ysgol roedd y DRhA wedi'i 'wreiddio' o ran y gymuned ehangach oherwydd yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni. Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn mewn arolygiad diweddar gan Estyn a nododd fod partneriaethau â sefydliadau lleol a rhyngwladol yn rhagorol.

## Astudiaeth Achos – Ysgol B

- ysgol gymunedol gymysg 11-19 oed a leolir mewn dinas, lle mae rhannau o'r dalgylch dan anfantais economaidd
- 841 o ddisgyblion ar y gofrestr a 95 o staff (ar adeg yr astudiaeth achos hon)
- roedd gan chwarter y disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn yn 2005).

### *Datblygu'r DRhA*

Dros gyfnod o ddwy flynedd roedd y DRhA wedi cael ei ddatblygu mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd ac roedd yn cael ei gyflwyno mewn nifer o bynciau gan gynnwys celf a dylunio, daearyddiaeth, Cymraeg ac ITM. Ymhlith y gweithgareddau roedd gwaith ymchwil unigol gan ddysgwyr Blwyddyn 7 ar agweddau ar fywyd yn Tsieina mewn daearyddiaeth a diwrnod cerddoriaeth y byd a theithiau addysgol i Ffrainc, Sbaen a Gwlad Belg. Ym Mlwyddyn 8 canolbwyntiodd yr adran Daearyddiaeth ar Frasil ac roedd wedi defnyddio astudiaethau achos i ymchwilio i ranbarthau gwahanol a dysgu am fforestydd glaw ac effaith datgoedwigo ar y byd. O ganlyniad i elfennau penodol ym Magloriaeth Cymru bu modd i'r ysgol ddatblygu'r DRhA gyda Blwyddyn 12 a 13 ac roedd dysgwyr wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddewis, trefnu a chynnal digwyddiadau codi arian i amrywiaeth o elusennau dramor, gan gynnwys Operation Christmas Child Shoebox ac apeliadau daeargryn Haiti.

Dan arweiniad y pennaeth cynorthwyol roedd yr ysgol wedi newid y ffordd y cyflwynwyd y rhaglen ABCh, gan symud o sesiynau awr o hyd rheolaidd i gyfres o

chwe diwrnod ABCh ac iddynt thema. Cafodd y rhaglen ABCh ei threfnu a'i chyflwyno gan bum arweinydd dysgu. O ganlyniad i'r newid yn y ffordd y'i cyflwynwyd bu modd cynnig ystod eang o weithgareddau dysgu a oedd yn cynnwys ADCDF, dinasyddiaeth a dimensiwn rhyngwladol penodol fel rhan o'r rhaglen ABCh lawn. Yn ystod y diwrnodau ABCh, rhoddwyd y gorau i'r amserlen arferol a chafodd dysgwyr gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, gan fod cysylltiad rhwng yr ysgol ac ysgol bartner yn Tsieina, cymerodd dysgwyr Blwyddyn 7 ran mewn diwrnod 'Byddin Teracota' Tsieina, gan ddysgu am hanes Tsieina a'i diwylliant drwy gyfrwng celf a dylunio.

Hefyd, roedd yr ysgol yn canolbwyntio'n gryf ar y gymuned ac yn cyflogi cydlynydd canolfan ddysgu i ddatblygu a chynnal nifer o brosiectau a oedd yn anelu at hyrwyddo'r dimensiwn rhyngwladol. Er enghraifft, er mwyn adeiladu ar y cysylltiadau â Tsieina, roedd yr ysgol, ar y cyd â Dragons in Europe a Sefydliad Confucius ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi cynnal rhaglen o weithgareddau DRhA allgyrsiol a oedd yn cynnwys gwersi Mandarin a sesiynau Tai chi. Roedd y prosiectau hyn yn gyffredinol wedi targedu dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8 ac roedd ysgolion cynradd sy'n bwydo hefyd wedi cael eu cynnwys. Roedd y prosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol a gefnogir gan y British Council hefyd wedi darparu cyfleoedd i ddefnyddio TGCh i gysylltu â nifer o ysgolion ym Malaysia a Fietnam. Yn ogystal â'r datblygiadau hyn roedd cysylltiad hirsefydledig rhwng yr ysgol ac ysgol yn Siapan hefyd ac roedd staff a dysgwyr wedi bod ar ymweliad cyfatebol. Roedd yr ysgol hefyd wedi meithrin cysylltiadau diweddar â De Affrica drwy brosiect British Council o'r enw Dreams and Teams, i ddatblygu sgiliau arwain pobl ifanc drwy chwaraeon, gan dargedu Blwyddyn 10 ac 11.

Ymhlith y rhwystrau allanol i ddatblygu'r DRhA roedd diffyg technoleg mewn ysgolion partner a phroblemau o ran cyfyngiadau llywodraethol ar ysgolion yn Tsieina. Yn yr ysgol un o'r prif rwystredigaethau fu prinder staff gwirfoddol i gefnogi prosiectau a'u llywio yn enwedig ar y prosiect Dreams and Teams. Roedd arian hefyd yn brin. Roedd y mentrau cwricwlaidd ac ABCh, gan gynnwys y cysylltiadau â'r ysgol yn Tsieina, wedi'u hariannu drwy gyllideb yr ysgol a chafwyd arian sgiliau allweddol ar gyfer y prosiectau cymunedol ac roedd rhai wedi'u hariannu drwy'r gyllideb ffocws cymunedol, fel y mae'r sylw hwn yn ei ddangos: *‘Rydym wedi gorfod bod yn eithaf creadigol o ran cael gafael ar arian'*. Roedd yr ysgol wedi cael cymorth gan y cynghorydd AALl a oedd yn gyfrifol am DRhA, yn enwedig o ran datblygu ITM y tu allan i'r ystafell ddosbarth a meithrin cysylltiadau â De Affrica.

### *Llais y dysgwr*

Roedd cyngor yr ysgol wedi arfer â rhaeadru syniadau a datblygu prosiectau a gweithgareddau. Roedd cyfres o weithdai hefyd yn cael ei hystyried fel ffordd arall o glywed llais y dysgwr yn y dyfodol. Rhoddodd y dysgwyr eu hunain enghreifftiau o waith ym maes Daearyddiaeth a oedd wedi eu helpu i ddysgu mwy am wledydd eraill a ffyrdd o fyw pobl ynghyd â materion byd-eang yn gyffredinol. Er enghraifft, nododd un cyfwelai: *'Mae'n dda oherwydd byddwn ni'n dysgu parchu pobl o wledydd eraill'* a rhoddwyd enghreifftiau penodol i ategu'r farn hon e.e. tynnu eich sgidiau cyn mynd i mewn i dŷ yn Siapan. Roeddent yn ymwybodol o waith y clybiau ar ôl ysgol ac roedd un aelod yn aelod gweithgar o'r clwb Amgylcheddol, ond ni allai gyfeirio at unrhyw waith DRhA a wnaed gan y clwb hyd yn hyn. Cyfeiriodd dysgwyr hefyd at y cysylltiadau â Siapan lle'r oedd pobl ifanc o Siapan wedi ymweld â'r ysgol ac aros gyda theuluoedd lleol. Er enghraifft, nododd un cyfwelai: *'Rydym yn addysgu Saesneg iddynt a phethau eraill am ein gwlad ac maent hwy yn ein haddysgu ni am eu gwlad a chymharwn y gwahaniaethau'*. Nid oedd yr un o aelodau cyngor yr ysgol a gafodd gyfweliad wedi ymweld â Siapan, ond roedd rhai o'u ffrindiau wedi gwneud hynny.

Soniodd pawb a gafodd gyfweliad am bwysigrwydd dysgu ieithoedd, yn enwedig Sbaeneg a Tsieinëeg *'oherwydd dyma ddwy o'r ieithoedd pwysicaf yn y byd ar wahân i Saesneg a byddai'n rhoi cyfle da i ni fod yn ddwyieithog pan fyddwn ni'n hŷn'*. Roeddent o'r farn y byddai dysgu ieithoedd yn cynnig gwell cyfleoedd o ran cael gwaith iddynt. Credwyd bod eu hysgol am gynnig profiadau i ddysgwyr na fyddent fel arall yn eu cael a'r cyfle i ddysgu sut i ymdopi mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd dramor. Mynegodd rhai dysgwyr ddiddordeb mewn cysylltu â phobl ifanc o wledydd eraill yn uniongyrchol drwy fod yn gyfeillion gohebu, yr oedd rhai ohonynt wedi cael profiad ohono yn yr ysgol gynradd. Mynegodd llawer o ddysgwyr ddiddordeb mewn cyfleoedd pellach i ymweld â gwledydd eraill, fel y nodwyd gan y cyflogai hwn: *'Yn hytrach na chael rhywun yn dweud wrthych sut wlad ydyw gallwch weld hynny drosoch chi'ch hun'*. Crybwyllwyd digwyddiad i godi arian ar gyfer apêl Haiti, a sbardunwyd ac a drefnwyd gan ddisgybl, ac fe'i hystyriwyd yn *'achos da oherwydd gallent gael moddion a thriniaeth mewn ysbyty'*. Roedd un dysgwr ym Mlwyddyn 7 yn hoffi'r syniad o Fagloriaeth Cymru a'r cyfle i greu prosiect unigol yn cymharu Cymru â gwlad arall, *'Hoffwn feddwl y tu allan i'r bocs a dewisais wlad nad oedd braidd neb wedi clywed amdani er mwyn gweld pa mor wahanol oedd hi'*.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Roedd yr ysgol o'r farn bod dysgwyr wedi meithrin gwell ymwybyddiaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant eu hunain yn ogystal â pharch tuag at ddiwylliannau eraill a dealltwriaeth ohonynt. Credwyd hefyd fod y rhaglen ABCh ddiwygiedig wedi cynnig gwell profiad dysgu i ddysgwyr, o ran ymweliadau a phrofiad 'uniongyrchol'. Roedd y gweithgareddau a ganolbwyntiai ar y gymuned wedi darparu cyfleoedd pellach i ddysgwyr feithrin sgiliau newydd, er enghraifft gwersi Mandarin a gwaith y Clwb Amgylcheddol o greu brithwaith yn cynnwys draig a'r glôb a ddyluniwyd gan ddysgwyr gyda chymorth artist preswyl. Roedd gweithgareddau DRhA hefyd wedi atgyfnerthu cysylltiadau ag ysgolion cynradd sy'n bwydo gan eu bod wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn rhai o'r prosiectau cymunedol.

Roedd rhai aelodau o staff wedi gwirfoddoli i helpu gyda gweithdai dydd Sadwrn ac roedd y rheini a oedd yn ymwneud â'r rhaglen ABCh wedi cael profiad o weithio mewn ffordd wahanol gyda dysgwyr e.e. rhannodd pob dysgwr ym Mlwyddyn 7 fan dysgu yn ystod diwrnod y Fyddin Deracota. Yn ôl y pennaeth cynorthwyol gellid mesur y rhan a chwaraeodd staff yn y diwrnod penodol hwn yn rhannol drwy nifer y staff y tu allan i'r adran gelf a oedd am helpu gyda'r gweithgareddau.

Defnyddiodd yr ysgol holiaduron staff a dysgwyr i fesur boddhad â'r diwrnodau ABCh a'r rhan a chwaraewyd ynddynt a chafodd Deilliannau'r arolygon eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol. Mabwysiadwyd proses debyg gan yr adran Ddaearyddiaeth, gan ddefnyddio adborth dysgwyr i fireinio cynlluniau gwaith. Dywedodd y Pennaeth Daearyddiaeth:

> *Rydym wedi newid y ffordd y darparwn rai o'r unedau gwaith i gynnwys mwy o wahaniaethu ac wedi aralleirio rhai o'r cwestiynau i'w gwneud yn haws eu deall i bob dysgwr.*

Cafwyd mwy o dystiolaeth feintiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion dirprwyol. Cafodd lefelau presenoldeb eu monitro drwy gydol y diwrnodau ABCh a chafwyd eu bod yn uwch nag arfer. Dangosydd arall oedd lleihad sylweddol yn nifer y dysgwyr a anfonwyd i'r ystafell encilio ers cyflwyno'r diwrnodau ABCh penodol, fel y mae'r sylw isod yn ei ddangos:

> *Mae rhai problemau o hyd ond nid ar yr un raddfa â phan gyflwynwyd DRhA mewn slotiau ABCh traddodiadol o awr bob pythefnos. Bryd hynny roedd yr ystafell encilio yn llawn - yr awr honno oedd yr awr brysuraf. Nawr does dim angen i ni staffio'r ystafell braidd o gwbl ar ddiwrnodau ABCh.*

Teimlwyd y gellid hefyd gymharu presenoldeb ar ddiwrnodau gweithgareddau DRhA â phresenoldeb ar ddiwrnodau eraill heb unrhyw gysylltiad â DRhA er mwyn dangos tystiolaeth o'u heffaith.

Yn ystod y cyfnod peilot roedd y pennaeth cynorthwyol wedi defnyddio cynlluniau gwaith i ddwyn ynghyd wybodaeth am y ffordd y cyflwynwyd DRhA ar y pryd, ond petai amser wedi caniatáu, byddai'r ysgol wedi gofyn i benaethiaid adrannau lenwi Adrannau A a B. Roedd arweinwyr dysgu a oedd yn gyfrifol am gyfnodau allweddol amrywiol wedi cyfrannu a gofynnwyd hefyd i gydlynydd y ganolfan ddysgu gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer Adrannau C ac Ch. Ar y cyfan, nododd yr ysgol ei bod 'yn datblygu' yn y pedair adran, oherwydd teimlwyd y gellid gwneud llawer mwy i wella ac ehangu ei gwaith DRhA presennol a'i ymgorffori i raddau mwy ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Er na lwyddodd yr ysgol i rannu'r hunanasesiad â llywodraethwyr yn ystod y peilot credwyd y byddai'n ddefnyddiol gwneud hynny yn y dyfodol er mwyn cael eu barn a chodi ymwybyddiaeth o'r DRhA. Gan fod yr ysgol wrthi'n datblygu'r DRhA, bu'r offeryn yn ddefnyddiol i hunanasesu, fel adnodd blaengynllunio a byddai hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos fel ffordd o gasglu tystiolaeth cyn arolygiad Estyn.

## Astudiaeth Achos – Ysgol C

- ysgol gymunedol gydaddysgol 11-16 oed a leolir yng nghanol tref yn Ne Cymru
- 523 o ddisgyblion ar y gofrestr a 33 o staff (ar adeg yr astudiaeth achos hon)
- cynrychiolir amrywiaeth llawn o alluoedd yn yr ysgol a daw disgyblion o amryw o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol
- roedd gan 17 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn yn 2005).

### *Datblygu'r DRhA*

Am ryw 18 mis, cyn yr astudiaeth achos hon, roedd yr ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol gyda Phacistan. Cynlluniwyd y prosiect i gwmpasu tair blynedd o astudio'r ysgol yn y flwyddyn gyntaf, y dref yn yr ail a'r wlad yn y drydedd. Roedd y pennaeth wedi bod ar ymweliad ac roedd dysgwyr ym Mlwyddyn 7 wedi paratoi gwybodaeth bersonol i gyflwyno eu hunain i ddysgwyr ym Mhacistan. Pan ddaeth yr ymwelwyr o Bacistan i Ysgol C cymerodd y dysgwyr y llyw o ran eu cyflwyno i'r gwahanol agweddau ar yr ysgol. Cynhyrchodd dosbarth Cymraeg o Flwyddyn 7 DVD o wasanaeth carolau'r

ysgol a gwnaed cardiau Cymraeg i'w hanfon i Bacistan. Roedd yr adran Gelf hefyd wedi rhannu gwaith disgyblion. Roedd pynciau eraill, megis Dylunio a Thechnoleg, Gwyddor Bwyd a gwyddoniaeth hefyd wedi cysylltu ac wedi anfon gwybodaeth i Bacistan. Defnyddiai'r dysgwyr Skype yn rheolaidd i gysylltu ag ystafelloedd dosbarth ym Mhacistan ac felly cafwyd deialog dysgu â'r dysgwyr yno.

Ymhlith y cyfleoedd eraill i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella a gwella'r cwricwlwm a oedd yn gysylltiedig â'r DRhA roedd aelodau o'r pwyllgor Amgylcheddol yn mynd i 'Edrych Ymlaen at Gopenhagen', sef cynhadledd ar yr amgylchedd lle cafwyd cyfle iddynt holi'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ar y pryd sef y Gwir Anrhydeddus Ed Milliband. Roedd cydberthnasau â'r AS ac AC lleol hefyd yn gryf a hwylusodd y rhain drafodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a threfnwyd ymweliadau â'r Senedd. Roedd dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwasanaeth i gofio am yr holocost a gynhaliwyd yn lleol bob blwyddyn ac roedd rhai wedi mynd i berfformiad arbennig o ddrama ar yr hil-laddiad yn Rwanda. Roedd yr ysgol hefyd wedi meithrin cysylltiad â Kenya drwy ddyn busnes lleol. Cafwyd ymweliad gan Frwydrwyr Masaii ac roedd wedi codi arian i gynorthwyo ysgolion yn rhanbarth Samburu Masaii yn dilyn yr ymweliad hwnnw. Ymhlith y gweithgareddau eraill i godi arian i rannau eraill o'r byd roedd Water-Aid, apêl daeargryn Haiti a gwaith gyda siopau elusennol lleol.

### *Llais y dysgwr*

Ymhlith gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol roedd samplu llais y dysgwr drwy gyfweliadau (cafodd 10 y cant o'r garfan ei samplu'n gyffredinol wrth adolygu adrannau). Gofynnwyd i ddysgwyr ystyried gwelliannau i'r rhaglen ABCh ac awgrymu materion i'w cyflwyno ar y cwrs bob blwyddyn. Roedd dysgwyr yn helpu i ddylunio a chynnal gwefan yr ysgol a, thrwy Glwb y Porwyr Penwyn, bu dysgwyr yn rhoi help llaw i bensiynwyr er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â thechnoleg newydd a oedd, yn ddiweddar, wedi cynnwys defnyddio cyswllt Skype i gysylltu â Llundain, Estonia a Mecsico. Ystyriwyd bod adborth dysgwyr ar bob agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys y DRhA, yn hanfodol ac yn llawer pwysicach na *'mesur rhywbeth er ei fwyn ei hun. Dylech fesur llwyddiant yr hyn rydych wedi'i wneud yn ôl barn y disgyblion'*. Roedd cyngor yr ysgol a'r Pwyllgor Amgylcheddol yn weithgar iawn ac edrychwyd hefyd ar gofnodion y cyfarfodydd a'u defnyddio i lywio lles dysgwyr a'r amodau dysgu.

Cyfeiriodd yr aelodau o'r Pwyllgor Amgylcheddol a gafodd gyfweliad at ddiben yr astudiaeth achos hon at faterion byd-eang megis gwerthu cacennau Masnach Deg ar

gyfer Water Aid a diwrnod dim gwisg ysgol ar gyfer apêl daeargryn Haiti. Disgrifiodd dysgwyr eu prosiect daearyddiaeth ar Kenya ym Mlwyddyn 9 a oedd wedi cynnwys dysgu am y wlad a'i diwylliant. Roeddent wedi mwynhau'n arbennig yr ymweliad gan y brwydrwyr Masaii a gwneud cardiau Nadolig Cymraeg i'w hanfon dramor. Soniwyd am wylio fideo o ysgolion ym Mhacistan a wnaeth argraff arnynt o ran anghydraddoldeb y ddarpariaeth addysgol yno. Nodwyd:

> *Mae'n wahanol i fan hyn lle mae ysgolion yn eithaf cyfartal. Roedd rhai ysgolion yno yn cynnig cyfleusterau da ond mewn eraill roeddent yn eistedd ar y llawr.*

Cafodd y cyfle i holi pobl a oedd wedi goroesi'r hil-laddiad yn Rwanda ar ôl perfformiad drama effaith bellgyrhaeddol ar y dysgwyr fel y dangosir gan y cyfwelai hwn: *'Roedd yn ofnadwy clywed am eu profiad a'r effaith a gafodd arnynt, fel colli aelodau o'r teulu a bu'n rhaid i un ferch fach guddio yng nghanol y cyrff marw'*. Bu'n gyfle i ddysgu am iaith arall *'dywedwyd wrthym beth oedd ystyr eu henwau yn Saesneg a sut i'w hynganu yn eu hiaith eu hunain, a oedd yn dipyn o gamp!'*. Yn eu barn hwy roedd y cyfle i sgwrsio â phobl o wledydd eraill wedi helpu i wneud mater byd-eang yn fwy real, fel y nodwyd gan y cyflogai hwn: *'Os oes rhywun o Affrica yn dod i mewn i siarad â chi mae'n dod â'r holl beth yn fyw, yn well na chael athro yn dweud wrthych'*. Drwy ddysgu am wledydd eraill bu'n gymorth i bobl ifanc ailasesu eu bywydau eu hunain, *'Mae'n gwneud i ni sylweddoli pa mor ffodus ydym, mae gennym athrawon i'n helpu ac nid oes rhaid cerdded milltiroedd i gael bwyd neu ddŵr'*. Credwyd hefyd y gallai eu helpu gyda theithiau dramor yn y dyfodol ynghyd â sut *'i barchu pobl o wledydd eraill a pheidio â pheri tramgwydd'*. Dywedwyd y byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael cyfeillion gohebu o wledydd eraill neu gallu defnyddio Facebook i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc dramor.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Roedd y pennaeth cynorthwyol, a fu'n rhan annatod o'r broses o hyrwyddo'r DRhA yn yr ysgol, wedi defnyddio cynlluniau gwaith a gwefan yr ysgol i gasglu gwybodaeth am gyfraniad adrannau amrywiol er mwyn cwblhau'r hunanasesiad. Roedd yr athro Dylunio a Thechnoleg, a fu'n cydgysylltu'r sesiynau Skype ar brosiect Pacistan, hefyd wedi cael mewnbwn, fel y pennaeth. Ym marn yr ysgol bu'r broses o gwblhau archwiliad o DRhA yn llafurus, ond roedd yn ymarfer defnyddiol fel rhan o'r gwaith o baratoi am arolygiad Estyn, fel y dangosir gan y sylw hwn:

*Rydym bellach wedi dwyn ynghyd dystiolaeth o waith yr ysgol ar y DRhA mewn un man. Gellid cyflwyno'r ddogfen hon i'r tîm arolygu edrych arni. Gallai hynny fod yn sail i drafodaeth hyddysg ag aelod perthnasol o'r tîm yn ystod yr arolygiad. Fel y cyfryw mae'n werth y buddsoddiad mewn amser.*

Defnyddiwyd adolygiadau adrannol i gasglu tystiolaeth o'r graddau y bu'n bosibl i themâu rhyngwladol, cenedlaethol a lleol feithrin gwybodaeth bwnc athrawon a dysgwyr ymhob cyfnod allweddol a hefyd well dealltwriaeth o'r ffactorau diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar fywydau pobl. Roedd Celf, ABCh, Daearyddiaeth, Hanes a Saesneg oll wedi darparu enghreifftiau penodol lle yr anogwyd dysgwyr ac athrawon i feithrin gwell dealltwriaeth o faterion byd-eang. Darparodd y cysylltiadau diweddar â Phacistan a Samburu yn Kenya gyfleoedd gwirioneddol i addysgu gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn.

Ym marn y pennaeth cynorthwyol yr adeg orau i ddefnyddio'r hunanasesiad fyddai yn ystod tymor yr haf pan gynhaliwyd yr adolygiadau adrannol hyn a gellid tynnu sylw at themâu trawsbynciol fel ADCDF a'r DRhA yn ystod y broses. Fodd bynnag, nid oedd adrannau unigol wedi cael gweld yr hunanasesiad yn ystod y peilot oherwydd ystyriwyd ei bod yn bwysig i aelod o'r uwch dîm rheoli, â throsolwg strategol o DRhA, gynnal deialog proffesiynol â staff er mwyn i'r broses adolygu fod yn fwy ystyrlon.

Ym marn yr ysgol roedd y DRhA yn estyniad pwysig a gwerthfawr o'i ffocws fel ysgol gymunedol. Cyfeiriodd y pennaeth cynorthwyol at y ffaith bod cyswllt wythnosol â Phacistan wedi helpu dysgwyr i ymwneud â diwylliant arall:

*Mae cysylltu ag ysgolion eraill wedi agor llygaid disgyblion i fywydau pobl ifanc ym Mhacistan a pha mor debyg ydynt o ran eu hoff bethau a'u cas bethau.*

Drwy'r cysylltiad â Kenya, roedd dysgwyr hefyd wedi meithrin gwell dealltwriaeth o natur fregus rhai diwylliannau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Achubwyd ar bob cyfle posibl i gysylltu â diwylliannau a grwpiau eraill er mwyn ehangu gorwelion disgyblion. Cyflwynwyd tystiolaeth ar ffurf arddangosfeydd yn yr ysgol, cynlluniau gwaith, gwaith dysgwyr a gwefan yr ysgol.

Cafodd y broses o ddatblygu athrawon ei gwella drwy'r prosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol, gan ei gwneud yn bosibl cynnal deialog proffesiynol drwy gyswllt Skype rhwng ysgolion cynradd yng nghlwstwr yr AALl a chydweithwyr ym Mhacistan. Roedd hyn hefyd wedi arwain at feithrin gwell sgiliau TGCh ymhlith

athrawon ynghyd ag ennyn eu hyder o ganlyniad i'r defnydd rheolaidd o Skype, ond bu'r broses yn un llafurus ac roedd angen cael llinellau cyfathrebu da a gwneud gwaith blaengynllunio, a fu'n heriol ar adegau. Roedd yr ysgol wedi trefnu diwrnod Masnach Deg, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth staff a chynnig nwyddau i'w gwerthu yn yr ystafell staff.

Wrth gwblhau'r hunanasesiad nid oedd yr ysgol wedi defnyddio lefelau presenoldeb fel dangosydd ar gyfer ei gwaith DRhA ac roedd o'r farn y byddai'n anodd arwahanu cyfraniad y DRhA at wella presenoldeb, gan fod cyfranogiad dysgwyr yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ac nid un elfen yn unig. Fodd bynnag, cafodd menter chwaraeon benodol effaith gadarnhaol ar bresenoldeb rhai dysgwyr ac, yn sgîl y profiad hwnnw, cydnabuwyd y gallai fod yn bosibl ystyried effaith menter DRhA benodol ar bresenoldeb yn y dyfodol. Roedd y pennaeth cynorthwyol hefyd yn gallu cyfeirio at enghreifftiau penodol o ddysgwyr unigol a oedd wedi cael eu cymell i gymryd rhan yn fwy rheolaidd drwy gyfrannu at weithgareddau i godi arian, gyda rhai yn uniongyrchol gysylltiedig â'r DRhA.

Er gwaethaf cryn ddatblygiad mewn rhai pynciau nododd Ysgol C ei bod 'Yn datblygu' ym mhedair adran yr hunanasesiad. Er mwyn gwneud cynnydd ac ymgorffori'r DRhA roedd yr ysgol yn awyddus i gynnwys nifer fwy o staff. Roedd hefyd yn bwriadu ymestyn ymgynghoriadau presennol â dysgwyr i gynnwys adborth ar elfennau penodol o'r DRhA er mwyn gwella ei gynnwys a'r modd y'i cyflwynwyd.

## Astudiaeth Achos – Ysgol Ch

- ysgol arbennig gydaddysgol ar gyrion deheuol tref ddiwydiannol
- 147 o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, rhwng tair a 19 oed.

### *Datblygu'r DRhA*

Roedd Ysgol Ch wedi bod yn datblygu'r DRhA gyda dysgwyr yn yr ysgol hŷn ers 1996. Datblygwyd y cyswllt cyntaf drwy gyswllt personol ag ysgol ym Motswana ac yn 1998 ymwelodd dau athro a phedwar dysgwr â'r wlad. Roedd aelodau eraill o staff addysgu a staff cynnal wedi ymweld â Botswana ers hynny ac roedd grwpiau o ddisgyblion a phennaeth yr ysgol ym Motswana wedi ymweld ag Ysgol Ch hefyd. Gyda chefnogaeth y pennaeth daeth un o athrawon yr ysgol hŷn, a oedd â diddordeb mewn cysylltiadau rhyngwladol, yn gydlynydd rhyngwladol a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf gwahoddwyd pob aelod o staff drwy lythyr i wirfoddoli ar gyfer

teithiau dramor neu i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian. Amcangyfrifodd yr ysgol fod tua hanner y staff wedi ymwneud â'r digwyddiadau rhyngwladol a theithiau dramor dros y blynyddoedd. Roedd athrawon hefyd wedi ymweld ag ysgolion yng Ngwlad Pwyl, yr Iseldiroedd a De Affrica ac wedi helpu ysgol alwedigaethol ar gyfer plant y stryd yn Fietnam gyda TGCh, Saesneg a Thechnoleg. Yn 2002 cyflwynodd yr ysgol ddrama arbennig i ddathlu creu murlun yn dynodi ei gweithgareddau rhyngwladol. Gweithiodd uwch ddysgwyr gydag artistiaid preswyl i greu'r murlun.

Yn 2007 cafodd yr ysgol arian gan gronfa Comenius yr UE ar gyfer prosiect dwy flynedd o'r enw 'We are Communicating Culture' a oedd yn cynnwys cysylltiadau â Lithwania, y Weriniaeth Tsiec, Sweden, Ffrainc a Gwlad Groeg. Nod y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth o agweddau diwylliannol e.e. bwyd, traddodiadau a hanes. Yn ystod 2008 ymwelodd staff a dysgwyr ag ysgolion partner yn Ffrainc, Lithwania a Gwlad Groeg. Roedd ymwelwyr o'r gwledydd hynny hefyd wedi ymweld ag Ysgol Ch ac fe'u cartrefwyd gan deuluoedd lleol. Yn ystod eu harhosiad trefnodd yr ysgol daith i Gaerdydd, gan gynnwys ymweliad ag arddangosfa ar darddiad yn yr amgueddfa a oedd wedi dwyn ynghyd arteffactau o drefi a oedd yn gysylltiedig â'r ymwelwyr. Ceisiodd yr ysgol gynnwys y gymuned ehangach wrth groesawu'r ymwelwyr gyda dysgwyr o'r ysgol uwchradd leol yn gwneud bocsys ar gyfer doliau Cymreig a roddwyd fel rhoddion, gyda'r maer ac aelodau o'r gymuned leol yn mynychu digwyddiadau.

Er mwyn hyrwyddo prosiectau DRhA a digwyddiadau codi arian amrywiol cyflwynwyd masgot arbennig - Shadwell y Ddraig Deithiol. Roedd Shadwell wedi mynd gyda grwpiau ar eu hymweliadau a thynnwyd ei llun mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y byd. Cafodd y gymuned ehangach ei chynnwys hefyd, e.e. cododd gofalwr yr ysgol arian i elusen drwy ddringo i gopa sawl mynydd ledled y byd gyda Shadwell yn cadw cwmni iddo.

Roedd yr ysgol hefyd yn trefnu diwrnodau codi arian yn rheolaidd ac yn cymryd rhan yn Niwrnod ar gyfer Newid Unicef bob blwyddyn. Trefnwyd cyfres reolaidd o ddiwrnodau rhyngwladol i ddathlu ei diwylliant ei hun a diwylliannau eraill hefyd e.e. Y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Diwali, Diwrnod Santes Dwynwen ac Eisteddfod yr ysgol. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau Masnach Deg ac roedd cysylltiad cryf rhwng yr ysgol a siop leol y Co-operative a oedd yn darparu cynnyrch ar gyfer ei digwyddiadau codi arian. Roedd dysgwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ADCDF a gynhaliwyd gan CEWC-Cymru, gan gynnwys dysgu am

faterion byd-eang megis rôl y Cenhedloedd Unedig, gweithdai Masnach Deg a gwasanaeth i'r ysgol gyfan ar effaith y daeargryn yn Haiti, gan gymharu bywyd yn y wlad honno â bywyd yng Nghymru.

### *Llais y dysgwr*

Pwysleisiodd y cydlynydd rhyngwladol pa mor bwysig ydoedd i ddysgwyr deimlo perchenogaeth o'r prosiectau. Fe'u cynhwyswyd ar bob cam o'r gweithgareddau DRhA fel yr ardystiodd yr athro hwn:

> *Nhw a wnaeth y penderfyniadau am bob agwedd ar bob prosiect. Nhw oedd wrthi'n difyrru'r ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a chyngor yr ysgol a wnaeth eu tywys o amgylch yr ysgol.*

Cadwodd dysgwyr hefyd ddyddiaduron o'u teithiau a chymerwyd rhan mewn sesiynau adborth ar ôl pob ymweliad neu ddigwyddiad rhyngwladol. Nododd y dysgwyr hynny a fu dramor eu bod wedi mwynhau '*gwneud ffrindiau newydd'*, *'dysgu sut mae pobl yn byw'* a *'cynrychioli ein hysgol.'* Roeddent wedi mwynhau cymdeithasu â'r bobl a wnaeth eu croesawu, chwarae pêl-droed a chymryd lluniau o'u teithiau i gofio'r achlysur.

Yn achos gweithgareddau codi arian y dysgwyr a lywiodd y gwaith o gynllunio'r digwyddiadau a dewiswyd gwahanol themâu llawn hwyl ar gyfer pob un e.e. 'Sialens Goginio' a diwrnod 'Steil Gwallt Gwahanol'. Cyfarfu cyngor yr ysgol unwaith y mis a nododd y cynrychiolwyr eu bod *'yn trafod pethau ac yna'n mynd yn ôl i'w dosbarthiadau i sôn am yr hyn yr oeddem am ei wneud'*. Roedd dysgwyr yn llawn brwdfrydedd ynghylch y gweithgareddau roeddent wedi'u cynllunio ac yn ymwybodol iawn o ddigwyddiadau a thrychinebau byd-eang megis y daeargryn yn Haiti. Roeddent yn gallu egluro sut y gallai eu gweithgareddau codi arian wneud gwahaniaeth i fywydau eraill, gan grybwyll dŵr glân, *'rhwydi mosgito i'w diogelu'* a chyfarpar newydd mewn ysgolion. Dywedodd un o'r dysgwyr a fu i ysgol yng Ngwlad Groeg mai *'dim ond hen fws mini oedd ganddynt'*. Eglurodd dysgwr arall a fu i Lithwania eu bod yn siarad Rwsieg a bod eu hysgol *'yn gartref i blant amddifad a'u bod yn cysgu mewn gwelyau yno'*. Gallai dysgwyr eraill gofio rhai geiriau Rwsieg a Lithwaneg a ddysgwyd ganddynt. Soniodd dysgwyr hefyd am y ffordd roeddent wedi dangos diwylliant Cymru i'w hymwelwyr drwy'r Eisteddfod a chyflwyno hanes y drefn drwy berfformio drama. Dywedodd un dysgwr, a oedd wedi ymweld â gwlad arall, *'rydym yn gwybod mwy am beth i'w wneud nawr os byddwn yn mynd dramor'*. Wrth fyfyrio ar yr amrywiaeth o gyfleoedd DRhA a gynigiwyd gan eu hysgol, roedd myfyrwyr eraill o'r farn bod cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn wedi eu helpu i

feithrin sgiliau bywyd newydd, megis sut i godi arian, dysgu iaith, actio ac *'annerch pobl*'.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Roedd y cydlynydd rhyngwladol wedi codi ymwybyddiaeth staff o ddiben yr hunanasesiad yn eu cyfarfod staff wythnosol. Yna anfonwyd ffurflen syml at bob aelod o staff yn gofyn iddo nodi'r rhan a chwaraewyd ganddo mewn gweithgareddau DRhA, ei dystiolaeth o ganlyniadau ac unrhyw syniadau arloesol newydd. Roedd wedi defnyddio'r wybodaeth honno a'i gwybodaeth eang o ddatblygiad DRhA yn yr ysgol i gwblhau'r hunanasesiad. Hefyd trafododd y ffurflenni a'r hunanasesiad gyda chydweithwyr yn unigol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn.

Ym marn yr ysgol roedd gwaith DRhA wedi cyfoethogi profiadau dysgwyr ac wedi cynnig cyfleoedd na fyddent fel arall wedi bod ar gael i lawer ohonynt fel y sylweddolodd y cyfwelai hwn: *‘Ein nod yw meithrin agweddau cadarnhaol a gwerthoedd yn eu bywydau eu hunain ac adlewyrchir hyn mewn mwy o hunan-barch a'u ffordd o drin eraill'.* Nododd staff fod dysgwyr wedi dod yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau eraill ac, er gwaethaf rhwystrau ieithyddol, llwyddwyd i gyfathrebu â dysgwyr o'u hysgolion partner: *‘Daethant ymlaen heb eiriau ac roedd ganddynt bethau'n gyffredin, fel pêl-droed'.*

Er bod yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig, roedd dysgwyr a'u teuluoedd wedi croesawu'r cysyniad o godi arian at achosion rhyngwladol ac roedd hyn wedi galluogi dysgwyr i wneud gwahaniaeth i fywydau eraill ac ehangu eu gorwelion ar yr un pryd. Yn sgîl yr ymweliadau rhyngwladol, cafodd dysgwyr gyfle i feithrin sgiliau bywyd pwysig, rhoi cynnig ar brofiadau newydd ac addasu i amgylchiadau anghyfarwydd. Nododd yr ysgol fod dysgwyr wedi ennyn hyder ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu gwell, a welwyd mewn cyflwyniadau a wnaed yn ystod eu hymweliadau rhyngwladol a'r adborth ar eu profiadau i rieni a'r gymuned ehangach. Roedd hyn nid yn unig wedi ehangu gorwelion dysgwyr unigol, ond hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol gyfan fel y nododd yr athro hwn: *‘Mae eu hadborth i ddosbarthiadau eraill a'r gweithgareddau codi arian a drefnir ganddynt yn cynnwys yr ysgol gyfan'.*

Roedd y DRhA hefyd wedi gwella'r cwricwlwm drwy helpu i wneud materion byd-eang yn fwy ystyrlon i'r dysgwyr:

> *Maent yn dod i ddeall bod y byd yn lle mawr ac yn gwerthfawrogi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt hwy ac eraill. Maent yn gweld nad dim ond ni sydd yma, mae byd o bobl eraill yno hefyd.*

Yn ôl yr athrawon llwyddwyd i gyflwyno materion byd-eang ymhob rhan o'r cwricwlwm, e.e. roedd rhai dysgwyr wedi defnyddio gwaith DRhA fel sail i'w harholiadau drama.

Bu'r deilliannau i staff yr ysgol yr un mor gadarnhaol a chroesawyd y cyfle a gafwyd i fynd ar deithiau rhyngwladol a'u harwain, gyda llawer o staff yn gwirfoddoli ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol. Yng ngeiriau'r cydlynydd rhyngwladol: *‘Mae'r teithiau yn rhoi gwefr iddynt'*. Dywedodd un aelod o staff cynnal a aeth gyda phlant ar ymweliad â Ffrainc y byddai'n hoffi dysgu Ffrangeg nawr a dywedodd bod ei thaith *'yn ardderchog ac wedi agor fy llygaid i leoedd newydd a gwneud i mi feddwl yr hoffem ymweld â rhannau eraill o'r byd, nid dim ond treulio fy ngwyliau ar y traeth'*. Ni soniodd unrhyw aelodau o staff am unrhyw broblemau na phryderon o ran mynd â disgyblion AAA dramor. Yn hytrach fe'i hystyriwyd yn elfen ychwanegol o waith roeddent eisoes yn ei wneud i helpu dysgwyr i ennill profiad o fywyd yn eu cymunedau eu hunain, yr unig wahaniaeth wrth gwrs oedd *'ein bod yn mynd â hwy ychydig ymhellach.'* Fodd bynnag, cafwyd rhai problemau mewn perthynas â diffyg cyfraniad neu gapasiti rhai o'r ysgolion partner ac ni chynhaliwyd y cysylltiadau hynny o'r herwydd.

Roedd cynlluniau cyfnewid staff wedi bod yn gyfle i rannu arfer da â chydweithwyr dramor a chreu cymunedau dysgu rhyngwladol. Cafodd deilliannau'r DRhA eu cofnodi'n helaeth mewn ffeiliau a llyfrynnau a gadwyd ar bob prosiect yn ogystal â DVDs ac arddangosfeydd ar waliau. Cafwyd llythyrau gan rieni a thystiolaeth arall o gyfranogiad y gymuned ehangach hefyd. Roedd Estyn hefyd yn cydnabod bod gweithgareddau DRhA yn yr ysgol wedi cael *'effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion'*.

Roedd yr ysgol wedi treialu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac o'r farn bod yr hunanasesiad DRhA yn cyd-fynd yn dda â'i strwythurau cynllunio a gwerthuso presennol. Roedd y cydlynydd rhyngwladol yn ymddeol a chredai fod yr hunanasesiad wedi bod yn hynod ddefnyddiol i grynhoi'r gwaith DRhA a wnaed tra roedd yn cyflawni'r rôl: *‘Roedd yn gyfle da i gael adolygiad a gweld ble'r oeddem yn union'*. Roedd y cydlynydd wedi gwneud defnydd helaeth o'r colofnau deilliannau i'r dyfodol i gofnodi syniadau staff am gyfeiriadau posibl i waith DRhA yr ysgol o dan ei chydlynydd newydd. Nid oedd wedi gwneud unrhyw ddefnydd o'r adran ar effeithiolrwydd yr ysgol, ond credai y byddai'r cydlynydd nesaf yn cael cyfle i weithio ar hynny ar y cyd ag uwch reolwyr.

Ar y cyfan, roedd yr ysgol wedi nodi ei fod 'wedi gwreiddio' ym mhedair adran yr hunanasesiad. Adlewyrchwyd y farn hon gan y graddau yr oedd staff a dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau DRhA a'r ffordd y cafodd materion byd-eang a hawliau dynol eu cynnwys mewn cynlluniau gwaith, cynllunio'r cwricwlwm a dysgu.

## Astudiaeth Achos – Ysgol D

- ysgol gynradd wedi'i lleoli yng nghanol dinas
- mae cefndiroedd cymdeithasol ac economaidd disgyblion yn gymharol ddifreintiedig, gyda thu 55 y cant o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim
- nodwyd bod gan tua 26 y cant o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae gan lai nag 1 y cant o ddisgyblion ddatganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA)
- mae tua 89 y cant o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

### *Datblygu'r DRhA*

Yn hanesyddol, roedd gwaith cwricwlaidd ym maes daearyddiaeth wedi cynnwys astudio rhanbarthau arbennig mewn gwledydd eraill, megis Chembakolli yn yr India a Gwlad Somali. Gan fod gan yr ysgol nifer fawr o ddisgyblion o Somalia, roedd wedi ceisio meithrin cysylltiadau ag ysgol yno yn flaenorol, drwy un o lywodraethwyr yr ysgol, ond oherwydd y sefyllfa wleidyddol yno ar y pryd bu hyn yn amhosibl. Ar adeg yr astudiaeth achos hon nid oedd DRhA yn rhan o gynllun datblygu'r ysgol, ond wrth gynllunio ar gyfer Cwricwlwm 2008 roedd yr ysgol wedi dechrau ystyried ffyrdd arloesol o ddatblygu agweddau ar y DRhA. Yn ddiweddar fe'i derbyniwyd i fod yn rhan o brosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol a oedd yn cynnwys grŵp o bedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd a oedd yn gysylltiedig ag ysgolion ym Mrasil o ddau AALl cyfagos. Roedd tri dosbarth tebyg ym Mlwyddyn 5/6 yn cymryd rhan a chafodd y gwaith ei gynllunio i gynnwys saith thema ryng-gysylltiedig sef ADCDF a'r dyniaethau, cerdd, celf, TGCh ac AG fel y bo'n briodol. Roedd yr ysgol wedi cael cefnogaeth ac anogaeth gan yr AALl wrth baratoi'r cais. Roedd y pennaeth hefyd wedi bod ar ymweliad rhagarweiniol â Bogotá i gwrdd â staff o ysgolion ym Mrasil a llunio cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer y prosiect. Cafwyd rhai problemau cychwynnol ym Mrasil, ond oherwydd gwaith cynllunio manwl a brwdfrydedd yr ysgolion o Gymru, roedd pob ymdrech yn cael ei gwneud i hwyluso cysylltiadau addas ym Mrasil. Cynlluniwyd cyfarfodydd dilynol drwy fideo-gynadledda.

Roedd yr ysgol hefyd wedi meithrin cysylltiad â Gambia yn ddiweddar. Digwyddodd hyn drwy gydweithiwr y gwnaeth y pennaeth gwrdd ag ef ym Mogotá a oedd â chysylltiadau ag ysgol yn Gambia drwy ei eglwys:

> *O ganlyniad i gysylltiad a wnaed yn ystod y prosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol llwyddwyd i achub ar gyfle arall i gysylltu â rhan hollol wahanol o'r byd a gwella ein cwricwlwm ymhellach.*

Roedd y cyswllt â Gambia yn cael ei astudio ar y cyd â ddau ddosbarth tebyg ym Mlwyddyn 4. Ysgrifennwyd llythyrau gan y dysgwyr ac anfonwyd cyflwyniad i Ysgol D i Gambia. Yn dilyn hynny cafodd yr ysgol hithau lythyrau a CD o ddelweddau o'r ysgol yn Gambia. Rhannwyd y rhain â dysgwyr a rhieni mewn gwasanaeth arbennig, fel y nododd yr athro hwn: *'Roeddem am i rieni ddod i wybod beth roeddem yn ei wneud a'u cynnwys yn nysgu eu plant'.*

Wrth gynllunio'r gwaith DRhA ar Frasil a Gambia roedd athrawon wedi defnyddio'r un broses a meysydd astudio â'r hyn a fabwysiadwyd yn flaenorol wrth gynllunio'r gwaith o gynnwys ADCDF ymhob agwedd ar y cwricwlwm. O'r herwydd nid oedd staff wedi teimlo bod y broses o gynnwys y DRhA yn ormod iddynt nac yn faich ac roedd y cynlluniau amlinellol a nodai'r saith prif faes o astudiaeth yn rhoi trosolwg o'r prosiect i lywodraethwyr ac eraill. Bu cyfranogiad ac ymrwymiad staff mewn perthynas â phenderfyniad yr ysgol i ymwneud â'r DRhA, er nad oedd yn rhan o gynllun datblygu presennol yr ysgol, yn hanfodol fel y nodir gan y sylw hwn:

> *Roedd yn bosibl i mi ryddhau staff a defnyddio amser CPA i gynllunio ar gyfer y DRhA ac, oherwydd diddordeb a brwdfrydedd athrawon, rydym wedi gallu ei ddatblygu.*

### *Llais y dysgwr*

Roedd yr ysgol yn gweithio tuag at raglen Gwrando ar Ddysgwyr wedi'i datblygu'n llawn ar hyn o bryd. Ar ôl pob pwnc byddai athrawon yn llunio ffurflen hunanwerthuso ac yn eu llenwi ar lafar gyda rhai unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, tra y gofynnwyd i'r rheini â sgiliau ysgrifennu gwell i gwblhau'r ffurflen â llaw. Defnyddiwyd y data o'r trafodaethau hyn i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod cynlluniau gwaith yn fwy perthnasol a hygyrch i ddysgwyr. Dywedodd un cyfwelai:

> *Mae'r adborth gan ddysgwyr yn cyfrannu at werthusiad o'r hyn a wnaeth lwyddo a'r hyn nad oedd cystal, sy'n bwysig iawn pan fyddwch yn gwneud rhywbeth am y tro cyntaf.*

Roedd y dysgwyr o Flwyddyn 4 a gafodd gyfweliad at ddiben yr astudiaeth achos hon yn frwdfrydig iawn o ran y gwaith a wnaed ganddynt ar Gambia dros y pum wythnos flaenorol. Roeddent yn wybodus iawn am ddaearyddiaeth a hinsawdd y wlad: *‘Mae'n bwrw glaw yn amlach yng Nghymru, ond pan mae'n bwrw yn Gambia mae'n drwm iawn'*, yn ogystal â'i diwylliant a'i ffordd o fyw:

> *Pan fydd baban yn cael ei eni byddant yn rhoi cerflun y tu allan i'r tŷ, brown ar gyfer bachgen a du ar gyfer merch, fel bod pobl yn gwybod am y baban pan fyddant yn mynd heibio.*

Eglurwyd sut y dechreuwyd arni drwy edrych ar fapiau a'r glôb i ddod o hyd i Affrica cyn dysgu am Gambia ac yna'r ysgol benodol roedd yr ysgol wedi cysylltu â hi *'Rydym yn dechrau ar raddfa fach ac yn mynd fesul cam i'n helpu i'w ddeall'*. Roeddent wedi mwynhau anfon a derbyn llythyrau ac roeddent yn awyddus i wybod mwy am rai o'r pethau a welwyd yn y ffotograffau, a nodwyd gan y cyfwelai hwn: *‘Credwn mai ysgol eglwysig ydyw, oherwydd gwelwyd beibl a chroes, ond nid ydym yn gwybod eto, felly rydym yn mynd i holi'*. Roeddent hefyd am wybod mwy am y bwyd a'r dillad a'r hyn roedd plant Gambia yn hoffi ei wneud. Roeddent yn llawn brwdfrydedd am ymweliad gan gerfiwr coed Affricanaidd traddodiadol a gweithgaredd gwneud masgiau. Datgelodd y cyfwelai hwn y canlynol:

> *Mae ganddynt wahanol fathau o fasgiau ar gyfer gwahanol bethau - roedd gliter a lliwiau hyfryd ar y masgiau dawnsio, ond roedd y masgiau arswydus ar gyfer hela.*

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Cafodd yr hunanasesiad ei groesawu gan y pennaeth a oedd o'r farn y byddai'n ffordd effeithiol a defnyddiol o asesu'r DRhA ac y gellid ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer datblygiadau DRhA yn y dyfodol. Roedd yr ysgol hefyd yn awyddus i weld a allai'r hunanasesiad gael ei addasu i werthuso meysydd eraill o'r cwricwlwm neu byncIau eraill. Gan mai dim ond ar lefel uwch reoli roedd sail dystiolaeth y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, roedd y pennaeth o'r farn y byddai'r hunanasesiad yn gyfrwng ardderchog i godi ymwybyddiaeth o derminoleg a strwythur y Fframwaith hwnnw. Byddai'r ysgol yn gofyn i staff perthnasol ym Mlynyddoedd 4 a 5 i gyfrannu at y gwaith o gwblhau'r hunanasesiad a byddai'n cael ei drafod gan y pennaeth a'r dirprwy a fyddai'n dwyn ynghyd ddata ohono. Rhagwelwyd mai ar ffurf electronig y byddai'r hunanasesiad yn cael ei gwblhau gan ei gadw ar y gweinydd fel bod modd cynnwys hyperddolenni i ffynonellau perthnasol o dystiolaeth, a fyddai'n dileu unrhyw ddyblygu. Byddai'r fformat hwn hefyd yn galluogi'r ysgol i ddiweddaru ac

ychwanegu gwybodaeth i'r hunanasesiad wrth i DRhA yr ysgol ddatblygu a thyfu, gan mai megis dechrau ydoedd.

Pwysleisiodd yr ysgol fod gwaith cynllunio o ansawdd da, a oedd yn gysylltiedig â meini prawf llwyddiant cytûn, wedi'i rannu â dysgwyr, yn sylfaen gadarn i fesur deilliannau o ran tystiolaeth gadarn ar ffurf gwaith ysgrifennu, darlunio a gwaith llafar dysgwyr. Roedd gan yr ysgol system olrhain disgyblion hefyd fel rhan o'r pynciau craidd a rhagwelwyd y gellid mesur cyfraniad gwaith DRhA (ar ôl ei ddatblygu'n llawn yn yr ysgol) at feysydd megis cyfathrebu gan ddefnyddio'r system hon. Roedd deilliannau ysgafnach a gwaith mewn pynciau eraill nad oeddent yn rhai craidd hefyd yn cael eu gwerthuso ond, gan fod yr ysgol o'r farn bod y DRhA ac ADCDF yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac nid yn *'elfennau ychwanegol'*, credai'r pennaeth y gallai fod yn broblematig profi cysylltiad uniongyrchol rhwng DRhA a deilliannau penodol, ac na fyddai o unrhyw gymorth ychwaith. Yn flaenorol, cyflwynwyd astudiaethau o wledydd eraill drwy feysydd cwricwlwm unigol ond bellach roedd yr ysgol wedi cynnwys y broses hon ymhob agwedd ar ddysgu ac o'r farn ei bod yn fwy perthnasol o ganlyniad, fel y gwelir gan y sylw hwn:

> *Mae gennym bellach yr elfen ddynol wirioneddol honno o allu cyfathrebu â phobl go iawn o'r wlad honno ac mae dysgu pethau am yr amgylchedd a'r diwylliant yn ymddangos yn fwy real.*

Fodd bynnag, roedd yr ysgol yn gobeithio y byddai datblygu'r DRhA yn esgor ar lawer o fanteision eraill ar wahân i gwricwlwm gwell a deilliannau i ddysgwyr. Roedd yn anelu at gael Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol mewn pryd, er mwyn codi proffil DRhA ymhlith rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, fel y nodir gan y sylw hwn: *'Byddai'n gydnabyddiaeth o'r holl waith rydym wedi'i wneud ac yn ffordd o wella pob agwedd ar fywyd yr ysgol'.* Ystyriwyd bod cyfleoedd i staff deithio i wlad yn America Ladin a phrofi bywyd yno yn ddeilliannau dymunol a fyddai'n cyfrannu at DPP a gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc. Roedd y clwstwr o ysgolion a oedd yn cymryd rhan ym mhrosiect y British Council yn cynnwys rhai â phrofiad rhyngwladol helaeth ac eraill a oedd megis dechrau o ran datblygu'r DRhA ac roedd y pennaeth o'r farn bod ei hysgol wedi cael budd enfawr o ymwneud ag ysgolion mwy datblygedig ar lefel broffesiynol.

Ar y cyfan, dywedodd yr ysgol ei bod 'yn datblygu' o ran y tair adran gyntaf a rhoddodd radd 'sylfaenol' i'w hun ar gyfer 'Deilliannau i'r gymuned ehangach'. Y rheswm dros hyn oedd bod y gwaith o ddatblygu'r DRhA ar gam eithaf cynnar a hyd yn hyn canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r DRhA drwy brofiadau addysgu a dysgu.

Roedd y pennaeth yn credu unwaith y byddai'r agweddau ar y cwricwlwm wedi'u datblygu'n well, byddai'r ysgol yn gallu ehangu'r DRhA i gwmpasu'r gymuned ehangach.

## Astudiaeth Achos – Ysgol Dd

- ysgol gynradd wedi'i lleol mewn pentref bach gwledig yn Ne-orllewin Cymru
- 64 o ddisgyblion ar y gofrestr, tri athro llawn amser ac un athro rhan-amser (ar adeg yr astudiaeth achos hon)
- daw dysgwyr o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol ac mae'r ardal naill ai'n llewyrchus neu dan anfantais yn economaidd.
- roedd gan 1.6 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim ac roedd gan 26 y cant anghenion addysgol ychwanegol o ryw fath (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn yn 2010).

### *Datblygu'r DRhA*

Roedd Ysgol Dd wedi bod yn datblygu'r DRhA mewn amryw o ffyrdd dros gyfnod o bum mlynedd. Roedd yr ysgol wedi meithrin cysylltiad cryf ag ysgol gynradd Malubalube yn Lesotho. Roedd y tri athro llawn amser wedi ymweld â Lesotho sawl gwaith ac roedd staff o'r ysgol bartner hefyd wedi ymweld â Chymru. Roedd Ysgol Dd wedi creu Sekolo (y gair Sesotho am ysgol) mewn hafdy ar dir yr ysgol. Cafodd yr ardal ei defnyddio fel man tawel i ddysgu, man cyfarfod i rieni a man i arddangos ffotograffau ac arteffactau o Lesotho a gyflwynwyd gan staff oddi yno ar eu hymweliadau. Roedd ysgol Malubalube wedi creu man tebyg ac wedi rhoi enw Cymraeg iddo. Yn 2008, i gyd-fynd ag ymweliad ag Ysgol Dd gan frenin Lesotho, creodd yr ysgol ardd twll clo, gan ddilyn cynllun traddodiadol a ddefnyddiwyd yn Lesotho, er mwyn helpu dysgwyr i ddeall materion ynghylch byw'n gynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a diogelwch dŵr.

Ymhlith y cysylltiadau eraill ag ysgolion rhyngwladol roedd Nepal a De Affrica, ac roedd gwaith DRhA wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgol yn y Times Educational Supplement (TES) a dyfarniadau addysg foesegol Impetus yn 2008 a arweiniodd at gael Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol. Roedd DRhA yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy'r cwricwlwm, er enghraifft, ymchwilio i hanes masnachu mewn caethweision, effaith fyd-eang llafur plant, milwyr plant a môr-ladron modern a hefyd faterion ynghylch newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o ddŵr. Roedd yr ysgol yn gwneud defnydd rheolaidd o faterion cyfoes a digwyddiadau megis Cwpan y Byd neu

drychinebau naturiol i drafod gwledydd eraill a chodi ymwybyddiaeth dysgwyr ohonynt.

### *Llais y dysgwr*

Roedd athrawon yn trafod materion byd-eang gyda dysgwyr o bob oed yn rheolaidd a dangosodd dysgwyr fod ganddynt wybodaeth helaeth o fywyd yn Lesotho a'r gwledydd eraill a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol. Disgrifiodd dysgwyr Blwyddyn 2 a 3 y ffordd roedd pobl yn pobi eu bara eu hunain, yn golchi eu dillad eu hunain yn yr afon ac yn cario pethau ar eu pennau. Disgrifiwyd y dillad roedd yr athrawon yn eu gwisgo, yr anrhegion roeddent wedi'u cyfnewid â'u hysgol bartner a sut roeddent wedi dysgu dawnsio a chyfrif yn Sesotho a Ffrangeg. Defnyddiwyd doli o'r enw Tabo i atgyfnerthu ymhellach y cysylltiad â'r dysgwyr iau hyn. Rhoddwyd cyfle iddynt fynd â'r ddoli adref, tynnu lluniau ohoni yn gwneud gweithgareddau gyda hwy a hefyd i gyfrannu at ddyddiadur o fywyd Tabo yng Nghymru a fyddai'n cael ei anfon yn ôl i Lesotho yn y pen draw. Soniodd llawer o ddysgwyr am ymweliad brenin Lesotho fel digwyddiad pwysig iawn a disgrifiwyd yr ymweliad yn fanwl, drwy gyfeirio at arddangosfa o luniau a dynnwyd ar y diwrnod. Dywedodd un disgybl: *'Roeddwn yn falch iawn bod y brenin wedi dod i'm hysgol'* ac eglurodd un arall pam bod baner Lesotho wedi cael ei hailddylunio: *'Roedd tarian a gwaywffon ar yr hen faner a oedd yn cyfleu brwydro, felly roeddent am ddewis un newydd â lliwiau llachar arni'.*

Roedd dysgwyr hŷn o'r farn bod cysylltu ag ysgolion dramor wedi eu helpu i ddysgu am ddiwylliannau eraill a gwerthfawrogi eu bywydau eu hunain yn fwy. Roeddent o'r farn bod ganddynt well dealltwriaeth o faterion byd-eang a'r ffordd roedd pobl eraill yn byw, fel y nododd y cyfwelai hwn:

> *Mae'n rhaid iddynt gerdded gryn bellter i'r ysgol ac weithiau nid oes ganddynt fawr ddim bwyd. Maent yn gorfod gweithio'n llawer mwy caled na ni - casglu dŵr ac ati. Mae'n gwneud i mi sylweddoli ein bod yn ffodus am fod gennym gynifer o bethau yma.*

Roeddent wedi mwynhau ysgrifennu llythyrau ac e-byst, ond roeddent am ddefnyddio gwe-gamera i gysylltu ag ysgolion eraill, fel y gwelwyd gan y sylw hwn: *'Mae ein hathrawon wedi bod yno ac wedi sôn llawer am fywyd yno, ond byddai'n dda o beth ei weld ein hunain'*. Roedd dysgwyr yn ymwybodol o'r prinder dŵr yno drwy brosiect o'r enw 'Twll yn y bwced', ond soniwyd hefyd am densiynau am fod pentrefwyr yn gorfod gadael eu cartrefi er mwyn gwneud lle i gronfa ddŵr yn Lesotho. Roedd dysgwyr hefyd yn falch iawn o'r Secolo a'r arteffactau a gafwyd yno, gan ddisgrifio ei harwyddocâd fel a ganlyn: *'Mae gennym ni ran ohonynt hwy ac mae ganddynt hwy*

*ran ohonom ni'*. Roedd dysgwyr Blwyddyn 6 o'r farn y byddai'r gwaith roeddent wedi ei wneud ar wledydd eraill yn eu helpu i astudio daearyddiaeth yn yr ysgol uwchradd.

Roedd dysgwyr yn chwarae rhan yn y gwaith o drefnu gwaith DRhA yr ysgol a chyfrannu ato drwy gyfarfodydd cyngor yr ysgol, a gynhaliwyd yn y Secolo, gan gynnwys cymryd cofnodion ar ffurflen arbennig a phenderfynwyd ar flaenoriaethau ar gyfer mentrau Eco-Ysgolion a phrosiectau codi arian yn cynnwys y DRhA.

### *Deilliannau'r DRhA*

Cafodd yr hunanasesiad ei gwblhau gan y pennaeth gyda mewnbwn gan ddau athro llawn amser arall. Croesgyfeiriwyd tystiolaeth o effaith â'r portffolios helaeth o waith dysgwyr, ffotograffau a ffeiliau tystiolaeth a luniwyd ar gyfer yr amryw ddyfarniadau yr oedd yr ysgol wedi gwneud cais amdanynt ac wedi eu derbyn.

Yn ôl yr ysgol roedd y gwaith DRhA a'r gweithgareddau yn rhan annatod o lwyddiant yr ysgol mewn perthynas â gwella lles dysgwyr ac roedd y cysylltiadau rhyngwladol wedi gwella'r cwricwlwm ac wedi cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i ddatblygu'r staff a'r dysgwyr. Soniodd yr athrawon am fudd yr ymweliadau cyfatebol iddynt hwythau ac i staff yr ysgol bartner yn Lesotho, gan gynnwys gwella amgylchedd yr ysgol a newidiadau i'r cwricwlwm. Roedd yr athro hwn wedi sylwi ar y canlynol:

> *Roedd yr ysgol yn Malubalube yn wag iawn ac nid oedd gan y plant iard chwarae, ond yn dilyn ymweliadau â'n* [hysgol] *maent wedi newid y ddarpariaeth yno, e.e. peintio draig goch ar wal yr ystafell ddosbarth a hefyd greu man chwarae. Felly credwn ein bod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w harfer proffesiynol.*

Yn yr un modd, roedd y gwaith o greu'r ardd twll clo a'r Secolo yn Ysgol Dd wedi bod yn gyfle unigryw i'r dysgwyr brofi diwylliant arall a ffyrdd newydd o ddysgu. Cymerodd dysgwyr o bob oed ran mewn gweithgareddau diwylliannol a oedd yn cynnwys dysgu a pherfformio dawnsiau a chaneuon traddodiadol gan eu hysgol bartner ac o ganlyniad roeddent wedi dysgu geiriau ac ymadroddion mewn sawl iaith wahanol ac roeddent yn gallu trafod gwahaniaethau diwylliannol rhwng eu priod wledydd. Cyfeiriodd adroddiad diweddar gan Estyn at yr amrywiaeth anhygoel o gysylltiadau a gweithgareddau a gynigiwyd gan Ysgol Dd ac roedd o'r farn bod llwyddiant yr ysgol o ran dathlu amrywiaeth diwylliannol yn nodwedd heb ei hail.

Roedd y gymuned leol yn helpu i groesawu ymwelwyr o Lesotho ac roedd cyfraniad y gymuned ehangach hefyd yn amlwg yn y gwaith o greu arddangosfa wal i ddathlu hanner can mlwyddiant yr ysgol. Roedd artist lleol wedi helpu dysgwyr i ddylunio a

chreu cyfres o deils ceramig a oedd yn amlygu agweddau ar waith DRhA yr ysgolion. Roedd yr ysgol hefyd wedi cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach mewn digwyddiadau codi arian rheolaidd i wledydd eraill.

Hyd yn hyn nid oedd yr ysgol wedi defnyddio presenoldeb na chyrhaeddiad i fesur effaith y DRhA, ond credwyd bod hyn wedi dylanwadu ar lwyddiant yr ysgol dros sawl blwyddyn. Gan fod yr ysgol wedi ymwneud â datblygu'r DRhA dros gyfnod hir o amser, roedd y pennaeth yn hyderus bod llawer o agweddau ar y DRhA wedi'u 'gwreiddio' ac roedd wedi disgrifio ei hun felly o ran deilliannau i ddysgwyr, cymuned yr ysgol yn gyffredinol a'r gymuned ehangach, tra nodwyd bod y 'deilliannau i athrawon 'yn datblygu' ar y cyfan. Y gobaith oedd y gellid datblygu'r rhain ymhellach drwy gysylltiadau a phrosiectau newydd yn y dyfodol.

## Astudiaeth Achos – Ysgol E

- ysgol gynradd a leolir yng Ngogledd-orllewin Cymru sydd hefyd yn denu disgyblion o gefnwlad wledig fawr
- 114 o ddisgyblion ar y gofrestr, chwe athro (un rhan-amser) a thri chynorthwyydd addysgu (ar adeg yr astudiaeth achos hon)
- roedd gan 10 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim a nodwyd bod gan 13 y cant ADY (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn o'r ysgol).

### *Datblygu'r DRhA*

Roedd gan Ysgol E gysylltiadau ag ysgol yn Lesotho drwy Dolen Cymru. Bu'r cysylltiadau hyn ar waith ers tua saith mlynedd. Cymerwyd y camau cyntaf pan ymwelodd athro o Ysgol E â Lesotho a threulio wythnos yn dod yn gyfarwydd â'r ysgol yr oedd yn gweithio gyda hi. Credwyd bod hyn wedi sbarduno'r rhaglen oherwydd, fel y dywedodd y pennaeth: *'daeth yr holl beth yn fyw ar ôl hynny'*. Roedd pennaeth yr ysgol yn Lesotho hefyd wedi ymweld ag Ysgol E a dywedwyd iddo gael argraff ddofn ar y plant. Roedd wedi canu a dawnsio yn ôl traddodiad Lesotho ac wedi siarad â hwy am fywyd yn y wlad. Cafodd lluniau o'r ysgol a'r plant yn Lesotho eu harddangos mewn mannau amlwg yn yr ysgol ac roedd y ddwy ysgol wedi cyfnewid gwaith dysgwyr. Roedd cymuned ehangach yr ysgol wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn; er enghraifft, trefnwyd digwyddiadau codi arian yn cynnwys y capel lleol a sefydliadau cymunedol a chynhaliwyd te parti mefus yr haf i gefnogi'r cysylltiad.

Roedd yr ysgol hefyd wedi meithrin cysylltiadau â Tsieina. Roedd y pennaeth wedi ymweld â Tsieina ddwywaith ac roedd uwch aelod o staff o'r ysgol yn Tsieina wedi ymweld ag Ysgol E. Roedd dau athro arall o Ysgol E hefyd wedi ymweld â Tsieina. Noddwyd yr ymweliadau hyn gan y British Council. Roedd y cysylltiadau hyn wedi arwain at arddangos draig Dsieineaidd yn Ysgol E a dathlu digwyddiadau Tsieineaidd pwysig. Yn yr un modd, roedd yr ysgol yn Tsieina bellach yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan ddefnyddio llawlyfr a gafodd ei greu gan yr ysgol yng Nghymru. Cafodd draig Dsieineaidd ei rhoi yn yr ysgol.

Roedd plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol gyfan a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith yn Lesotho a Tsieina drwy waith mewn grwpiau blwyddyn unigol a diwrnodau'n cynnwys yr ysgol gyfan gyda'i gilydd. Er enghraifft, neilltuwyd diwrnod cyfan i Lesotho gyda'r plant yn cael eu hannog i wisgo dillad yn cynnwys lliwiau Lesotho. Cafwyd hefyd weithgareddau fel dawnsiau Lesotho traddodiadol. Yn ogystal, anogwyd y plant i gerdded i'r ysgol y diwrnod hwnnw er mwyn atseinio'r hyn a wnaed gan eu cyd-ddisgyblion yn Lesotho. Yn yr un modd, trefnodd yr ysgol ddigwyddiad i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a oedd yn cynnwys gwisgo mewn lliwiau Tsieineaidd, bwyta pryd Tsieineaidd, dysgu cân werin Dsieineaidd a chynnal sesiynau Tai Chi. Strwythurwyd y gwaith cwricwlwm yn ddau grŵp blwyddyn penodol. Astudiodd plant ym Mlynyddoedd 3 a 4 Lesotho ac astudiodd y rheini ym Mlynyddoedd 5 a 6 Tsieina.

Y brif her a wynebwyd fu'r anhawster i gyfathrebu â'r ysgolion roeddent yn gweithio gyda hwy oherwydd problemau technegol (system e-bost a phroblemau eraill). Bu problemau hefyd mewn perthynas â chyfathrebu â rhai aelodau o staff am nad oedd pob un yn siarad Saesneg.

### *Llais y dysgwr*

Roedd y plant yn frwdfrydig iawn ynghylch DRhA ac yn credu y dylai pawb gael y math o gyfle yr oeddent hwythau wedi ei fwynhau. Credwyd bod y DRhA yn eu helpu i ddeall diwylliannau a phrofiadau gwahanol yn llawer gwell na phetaent yn dilyn llyfr neu wefan yn unig.

Roedd y dysgwyr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang iawn o weithgareddau DRhA yn deillio o'u cysylltiadau â Lesotho a Tsieina. Cofiwyd bod athrawon o'r gwledydd hynny wedi ymweld â'u hysgol ac wedi siarad am fywyd yno a'r ffordd roedd plant yno yn byw ac yn dysgu. Roedd rhai hefyd wedi llythyru â phlant yn y gwledydd hynny. Roedd yr ysgol yn cynnal diwrnodau a oedd yn ymwneud yn benodol â Lesotho a Tsieina. Ymhlith y rhain roedd cyfleoedd i fwyta bwyd

Tsieineaidd, caligraffi yn seiliedig ar ysgrifen Tsieinëeg a dysgu am y flwyddyn Dsieineaidd a sut y cafodd ei threfnu. Roedd cyfle i wneud Tai Chi hefyd, a oedd yn brofiad ymlaciol iawn, a byddai'r plant yn ei argymell i eraill.

Cafodd y rhan fwyaf o weithgareddau eu trefnu gan athrawon yr ysgol ac roeddent wedi hysbysu'r dysgwyr am yr hyn fyddai'n digwydd. Ni allent gofio trafod y mater yng nghyngor yr ysgol. Credwyd iddynt ddysgu'r rhan fwyaf drwy'r ysgol ac nid oeddent yn gwybod rhyw lawer am y gwledydd eraill cyn eu hastudio.

Y manteision a nodwyd gan y plant oedd eu bod yn gwerthfawrogi diwylliannau gwahanol ac yn fwy ymwybodol o faterion byd-eang a ffyrdd gwahanol o fyw. Er enghraifft, roeddent wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o'r pellter roedd yn rhaid i rai plant deithio er mwyn mynd i'r ysgol, y tlodi a fodolai mewn rhai rhannau o'r byd a disgwyliadau gwahanol o ran pethau fel arddulliau dysgu ac ymddygiad. Cyfeiriwyd hefyd at y ffordd roedd plant eraill yn dysgu am Gymru. Er enghraifft, anfonwyd llyfrau a deunyddiau fel Sali Mali i Tsieina er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Cafodd y DRhA ei gynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol. Mesurwyd Deilliannau drwy brosesau hunanasesu'r ysgol a byddai'r pennaeth yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn y maes hwn yn ei adroddiadau blynyddol i'r llywodraethwyr. Ym marn yr ysgol byddai'r asesiad DRhA yn ei galluogi i fesur Deilliannau mewn ffordd fwy ffurfiol yn y dyfodol. Cafodd yr asesiad ei gwblhau gan y pennaeth a'i ddirprwy. Roeddent wedi cynnwys cydweithwyr drwy gyfarfod staff. Amcangyfrifwyd ei bod wedi cymryd chwe awr i gwblhau'r asesiad. Yn ôl y pennaeth roedd rhywfaint o ailadrodd ond roedd yn ffordd ddefnyddiol o bennu llinell sylfaen a phennu'r blaenoriaethau o ran ei ddatblygu yn y dyfodol.

Nododd y pennaeth fod yr asesiad yn rhywbeth a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel rhan o raglen dreigl o hunanwerthuso, o bosibl bob tair blynedd, yn hytrach na phob blwyddyn. *'Roedd yn bendant yn werth neilltuo amser iddo'* oedd ymateb y pennaeth oherwydd roedd wedi eu galluogi i ganolbwyntio ar ddeilliannau penodol. Roedd y pennaeth yn fodlon ar gynllun yr hunanasesiad a'r drefn yr aethpwyd i'r afael â materion ynddi ac roedd y canllawiau wedi bod yn ddefnyddiol. Credwyd bod yr hunanasesiad yn gweddu'n dda i offerynnau gwerthuso eraill yr oedd angen eu defnyddio megis fframwaith Estyn a'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Fodd bynnag, ym marn y pennaeth byddai'n ddefnyddiol cael deunyddiau enghreifftiol o'r

DRhA mewn ysgolion ac yn arbennig lunio canllawiau ar sut i fesur effaith y DRhA mewn modd meintiol.

Credai'r ysgol fod gweithgareddau DRhA yn helpu plant i ddod yn ddinasyddion hyddysg a chyfrifol. Teimlwyd eu bod yn dysgu parchu gwahaniaethau diwylliannol. Roeddent hefyd yn ehangu eu gorwelion. Ar yr un pryd, credwyd bod ymdeimlad y plant eu hunain o hunaniaeth Gymreig yn cael ei atgyfnerthu drwy ddysgu am ddiwylliannau gwahanol a ffyrdd o fyw gwahanol. Gwelwyd bod y deilliannau gwerthfawr hyn yn cyfrannu'n anuniongyrchol at gyrhaeddiad y plant drwy eu cynnwys, eu cymell, a meithrin eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Roedd staff yr ysgol wedi cael budd drwy fod yn rhan o'r gweithgareddau a oedd wedi cynnwys pob un ohonynt. Yn benodol, roedd y staff a oedd yn gweithio ar brosiect mentora ym Mhrifysgol Bangor ar y dimensiwn rhyngwladol wedi cael budd mawr ohono.

Credwyd hefyd i'r gymuned ehangach gael budd. Roedd rhieni wedi chwarae rhan amlwg yn y broses o gefnogi gwaith rhyngwladol yr ysgol (gan gynnwys y gweithgareddau i godi arian) a thrwy gynnwys y capel lleol a sefydliadau cymunedol atgyfnerthwyd cysylltiadau'r ysgol â'r sefydliadau hynny. Fodd bynnag, ym marn yr ysgol roedd yn anodd iawn priodoli deilliannau caled a mesuradwy i'r DRhA yn uniongyrchol. Am fod lefelau presenoldeb yn sefydlog yn yr ysgol byddai'n anodd dod i gasgliadau dibynadwy drwy fesur unrhyw wahaniaethau yn y diwrnodau pan gynhaliwyd gweithgareddau DRhA a chredwyd y byddai'r un mor anodd nodi effaith benodol y DRhA ar gyrhaeddiad cyffredinol.

Yn gyffredinol roedd yr ysgol wedi rhoi'r graddau canlynol iddi ei hun: ‘Deilliannau i ddysgwyr’ – 'wedi datblygu', ‘Deilliannau i athrawon’ – ‘yn datblygu’. Nid oedd y pennaeth wedi rhoi gradd gyffredinol ar gyfer Adrannau C ac Ch am fod y graddau unigol ar gyfer deilliannau yn yr adrannau hynny mor amrywiol.

## Astudiaeth Achos – Ysgol F

- ysgol i blant 11-16 oed yn gwasanaethu tref ôl-ddiwydiannol a'i hardal gyfagos yng Ngogledd-orllewin Cymru
- 422 o ddisgyblion ar y gofrestr
- roedd 10 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA a nodwyd bod gan 99 arall ryw fath o anghenion ychwanegol. Roedd gan 13 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim (ar adeg arolygiad diwethaf Estyn yn 2008).

### *Datblygu'r DRhA*

Cafwyd y prif ysgogiad o ran y DRhA yn yr ysgol o du Adran y Dyniaethau, gan gynnwys hanes a daearyddiaeth, gyda'r rhai a oedd yn gyfrifol am addysg foesol yn chwarae rhan bwysig iawn. Roedd pob dysgwr yn dilyn y cwrs addysg foesol hyd at lefel TGAU a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd gwerthoedd, credoau a pharchu gwahaniaethau.

Roedd y DRhA hefyd yn amlwg iawn mewn gwasanaethau lle tynnwyd sylw at faterion cyfoes ledled y byd. Byddai'r ysgol yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn CA4 o fis Medi 2010 ac roedd yn datblygu ffyrdd o fodloni gofynion Dinasyddiaeth Fyd-eang, Cymru, Ewrop a'r Byd drwy raglen strwythuredig.

Nid oedd gan yr ysgol unrhyw gysylltiadau uniongyrchol ag ysgolion eraill ar hyn o bryd. Rhoddwyd y gorau i gytundeb hirsefydledig ag ysgol yn Ffrainc rai blynyddoedd yn ôl oherwydd materion iechyd a diogelwch a materion amddiffyn plant posibl nad oedd modd eu goresgyn ar ymweliadau cyfnewid. Fodd bynnag, roedd dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i gysylltu â phobl ifanc mewn gwledydd eraill drwy negeseuon e-bost ac roedd rhai cysylltiadau yn cael eu meithrin drwy fideo-gynadledda. Yn ogystal, trefnwyd ymweliadau tramor. Er enghraifft, roedd grŵp wedi bod i'r Unol Daleithiau yn ddiweddar ac wedi ymweld ag Efrog Newydd a Washington DC ar daith a oedd wedi canolbwyntio ar yr Holocost, Auschwitz, a materion cysylltiedig. Roedd yr ymweliad hwn wedi canolbwyntio'n fwy ar yr elfen addysg foesol nag ar hanes. Teuluoedd y dysgwyr a dalodd am y gweithgareddau hyn ond bu modd iddynt gael cymorth ariannol drwy ymddiriedolaeth elusennol. Roedd yr ysgol hefyd yn gweithio'n agos ag Eisteddfod Gydwladol Llangollen ac roedd myfyrwyr o Ysgol F wedi ennill ei chystadleuaeth i greu neges ewyllys da ryngwladol.

Nid oedd gan yr ysgol aelod penodol o staff a oedd yn arwain y DRhA ond roedd tua chwe aelod o staff yn ymwneud â'r agwedd hon ar y gwaith. Lleolwyd y rhain yn bennaf yng nghyfadran y dyniaethau ac roedd y rhan roeddent yn ei chwarae yn deillio'n bennaf o ddiddordeb personol. Cafodd yr ysgol ei chynorthwyo gan gynghorwyr dyniaethau ac ieithoedd modern yr AALl a oedd wedi bod wrth law i ddarparu cymorth a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â DRhA. Y prif heriau a oedd wedi wynebu'r ysgol oedd cost a hefyd y pwysau ar amser staff ac, yn fwy sylfaenol, ar gwricwlwm yr ysgol uwchradd.

### *Llais y dysgwr*

Roedd cyngor yr ysgol yn trafod amrywiaeth o faterion ac roedd ymweliadau ysgol, yn yr ystyr gyffredinol, wedi bod yn eu plith. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid oedd wedi ystyried mater penodol DRhA. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn cynnal eu cysylltiadau eu hunain â pherthnasau tramor, ond nid oedd unrhyw beth ar waith yn yr ysgol.

Credwyd bod y DRhA yn eu helpu i ddeall diwylliannau a phrofiadau gwahanol yn llawer gwell na phetaent yn dilyn llyfr neu wefan yn unig gartref. Dywedodd y dysgwyr iddynt ymwneud â DRhA yn bennaf drwy addysg foesol a phynciau megis daearyddiaeth, hanes, ac ieithoedd modern, er yn yr olaf roedd y sylw a roddwyd i ddysgu am fywydau pobl yn y gwledydd hynny yn llawer mwy cyfyngedig. Credwyd bod y DRhA wedi meithrin a gwella eu gwybodaeth o faterion a digwyddiadau byd-eang. Er enghraifft, dywedodd un ferch ei fod wedi cynyddu ei *'dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol, credoau pobl eraill, a sut mae hynny'n effeithio ar eu safbwyntiau'* tra nododd bachgen ei fod wedi *'ehangu ei orwelion ac wedi ei alluogi i gymharu bywydau pobl'*. Roedd ymweliad diweddar y bobl ifanc ag Efrog Newydd a oedd wedi canolbwyntio ar yr agweddau crefyddol a hanesyddol wedi creu argraff fawr arnynt. Er enghraifft, nodwyd sut roeddent wedi dysgu

> *Sut mae pobl yn ymddwyn, eu hagweddau, eu cenedligrwydd, eu hagweddau tuag at leiafrifoedd ethnig a'r tlodi a fodolai mewn rhai mannau.*

Credwyd, drwy'r profiad hwn o DRhA, eu bod mewn sefyllfa well i farnu drostynt eu hunain a dod i gasgliadau hyddysg am ddiwylliant a chymdeithas Americanaidd. Dywedwyd eu bod yn ymddiddori llawer mwy yn y newyddion a'u bod yn teimlo'n llawer mwy hyddysg.

Roeddent wedi dysgu am gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol pobl wahanol a'r ffordd roedd yn effeithio ar eu canfyddiadau o wledydd eraill. Yn eu barn hwy byddai hyn yn eu helpu mewn meysydd pwnc megis eu hastudiaethau o'r Ail Ryfel Byd a'r Rhyfel Oer, mewn hanes.

Nid oedd y bobl ifanc wedi helpu i gynllunio'r gweithgareddau ac roedd y trefniadau wedi cael eu rhoi yn nwylo cwmni allanol. Hyd yn hyn nid oedd y DRhA wedi cael ei drafod gan gyngor yr ysgol.

### *Deilliannau'r broses hunanasesu*

Ym marn yr ysgol roedd y broses hunanasesu yn briodol ac roedd yn croesawu'r ffocws ar ddeilliannau. Credwyd ei fod wedi cael ei lunio gan gadw ysgol mewn cof

ac roedd y ffordd y'i strwythurwyd yn dangos bod y dylunwyr wedi ystyried anghenion ysgolion. Er enghraifft, roedd yr holl ofynion yn glir ac yn gryno. Credwyd ei fod yn debyg i fframweithiau eraill ac y byddai ysgolion yn gyfarwydd â gofynion llenwi'r math hwn o ddogfen. Roedd yn darparu strwythur i'w galluogi i fesur ac asesu'r hyn roeddent yn ei wneud, rhywbeth a fyddai'n werthfawr i'w gwaith yn gyffredinol, a hefyd wrth iddynt ymdrin â gofynion cyflwyno Bagloriaeth Cymru.

Yn ôl yr ysgol roedd y DRhA yn fodd gwerthfawr iawn i ehangu gorwelion dysgwyr ac roedd yn eu helpu i ddatblygu eu gwerthoedd a'u hegwyddorion eu hunain drwy agor eu meddyliau i brofiadau pobl eraill. Roedd hyn yn eu galluogi i ddeall pethau tebyg a gwahanol, dysgu am safonau byw a ffyrdd gwahanol o fyw, ac effaith cefndiroedd pobl ar eu hagweddau a'u credoau. Fodd bynnag, ym marn yr ysgol roedd yn anodd iawn mesur y cysylltiad rhwng DRhA a chyrhaeddiad a deilliannau disgyblion yn uniongyrchol.

Credwyd bod staff wedi cael budd o DRhA. *'Mae'n gwneud byd o les iddynt'* dywedodd un. Credwyd eu bod ar eu hennill oherwydd y cyfleoedd i feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau DRhA a'u harwain. Ar yr un pryd, nodwyd bod athrawon a staff cymorth yn aml yn gweld dysgwyr mewn goleuni gwahanol (ac i'r gwrthwyneb) o ganlyniad i arwain gweithgareddau mwy anffurfiol megis y rhai sy'n gysylltiedig â DRhA.

Roedd yr effaith ar y gymuned ehangach yn llawer anos i'w phennu. Fodd bynnag, drwy adborth rhieni, roedd yr ysgol yn ymwybodol bod trafod DRhA yn yr ysgol wedi gwneud i'w plant godi materion gartref a oedd wedi arwain at ofyn cwestiynau ac ystyried eu gwerthoedd a'u credoau mewn ffordd newydd.

Ar yr un pryd roedd yr ysgol o'r farn bod y cynllun gweithredu ar ddiwedd y ddogfen yn bwysig iawn, am ei fod yn darparu ffocws iddynt ystyried y ffordd roeddent am ddatblygu pethau yn y dyfodol. Teimlwyd y byddai enghreifftiau o astudiaethau achos yn helpu'r ysgol i feddwl am syniadau ar gyfer y dyfodol. Byddai hefyd yn croesawu cyfeiriadau at adnoddau a allai gael eu defnyddio i ddatblygu DRhA.

Dywedodd yr ysgol ei bod 'yn datblygu' o ran 'Deilliannau i ddysgwyr', 'Deilliannau i athrawon' a 'Deilliannau i'r gymuned ehangach'. Barnwyd ei bod 'wedi datblygu' o ran 'Deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol'.

# 6. Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau â'r ysgolion peilot. Mae'n canolbwyntio ar y ffordd y mae'r ysgolion hynny wedi datblygu DRhA, eu barn ar ddeilliannau gwneud hynny, mae'n amlinellu safbwyntiau dysgwyr ynghylch y DRhA, ac yn cyflwyno canfyddiadau'r ysgolion hynny o'r hunanasesiad DRhA.

Gellir defnyddio'r adrannau ar ddatblygiad cyffredinol y DRhA a llais y dysgwr mewn sawl ffordd wahanol. Yn gyntaf, maent yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am raddau'r DRhA yn yr ysgolion peilot. Yn ail, maent yn dynodi pa ddata y gellir ei ddwyn ynghyd drwy ddefnyddio'r asesiad DRhA mewn nifer o ysgolion gwahanol; felly, er y gellid defnyddio'r asesiad mewn ysgolion unigol (fel y dangosir yn yr astudiaethau achos), gellid hefyd ei ddefnyddio'n ehangach i helpu awdurdodau lleol, consortia neu randdeiliaid eraill ystyried natur, effeithiolrwydd ac effaith y DRhA.

Mae'r adran ar ddeilliannau yn canolbwyntio ar yr amrywiaeth o gasgliadau y daethpwyd iddynt gan ysgolion a ddefnyddiodd yr asesiad i fesur effaith y DRhA. Yn olaf, mae'r adran ar y diwedd yn amlinellu safbwyntiau'r ysgolion peilot ynghylch yr asesiad ei hun, gan ddarparu'r dystiolaeth o'u profiadau o'i ddefnyddio.

## 6.1 Y DRhA yn yr ysgolion peilot

Fel y nodwyd yn yr astudiaethau achos, roedd yr ysgolion peilot yn cymryd rhan mewn ystod eang iawn o weithgareddau DRhA. Ymhlith y rhain roedd cysylltiadau ag ysgolion yn Asia, Gogledd America, Affrica, ac Ewrop, yr oedd llawer ohonynt yn hirsefydledig. Ceir teipoleg o gysylltiadau rhyngwladol isod.

### 6.1.1 Teipoleg cysylltiadau rhyngwladol

Datblygwyd rhai o'r cysylltiadau drwy fentrau penodol, megis:

- Prosiect Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol y British Council.
- Rhaglen Comenius y Comisiwn Ewropeaidd.

- Partneriaethau Ysgolion Byd-eang, wedi'u hariannu gan UK Aid yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.
- Gwaith sefydliadau sy'n meithrin partneriaethau rhwng gwledydd penodol megis Dolen Cymru.

Roedd y math o weithgareddau'n amrywio. Yn y rhan fwyaf o ysgolion (ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig) roedd un neu fwy o'r athrawon wedi ymweld â'r gwledydd roedd yr ysgol yn gweithio gyda hwy ac roedd staff o'r ysgolion yn y gwledydd hynny wedi ymweld â Chymru. Roedd yr ysgolion dan sylw yn gweithio gydag ysgol benodol neu grŵp o ysgolion. Fel rheol athrawon neu benaethiaid a oedd wedi ymwneud â chysylltiadau wyneb yn wyneb ac, mewn nifer fach o achosion, staff cymorth ysgol. Fodd bynnag, roedd ysgolion hefyd wedi gallu rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymweld â gwledydd tramor. Dyma'r achos fel arfer lle y cafodd cysylltiadau eu meithrin ag ysgolion yn Ewrop a Gogledd America ac roedd yn nodwedd mewn ysgolion uwchradd a'r ysgol arbennig. Lle na fu modd i'r dysgwyr ymweld â'r ysgolion partner eu hunain, fe'u hanogwyd i wella'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn digwydd yno drwy:

- Creu cysylltiadau e-bost a/neu fideo.
- Anfon a derbyn llythyrau.
- Gwneud gwaith ymchwil unigol ar fywyd yn y gwledydd hynny.
- Cyfnewid DVDs a chardiau post â'r ysgolion partner.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau ar gyfer yr ysgol gyfan, megis diwrnodau ac iddynt thema neu ymweliadau gan staff neu bobl eraill o'r gwledydd yr oedd yr ysgol wedi meithrin partneriaeth â hwy.
- Gwaith prosiect megis canolbwyntio ar gynaliadwyedd byd-eang, newid yn yr hinsawdd, cyflenwadau dŵr, masnach deg neu weithgareddau megis Tai Chi.
- Prosiectau codi arian i gefnogi:
  - ysgol bartner mewn gwlad arall
  - prosiectau datblygu mewn gwledydd a gafodd eu hastudio fel rhan o un o bynciau'r cwricwlwm
  - apeliadau elusennol yn dilyn trychineb neu argyfwng a gafodd sylw yn y cyfryngau (wedi'u sbarduno gan y dysgwr yn aml).

### 6.1.2 Trefniadau ar gyfer cynnwys y DRhA ar y cwricwlwm

Cafodd y DRhA ei gynnwys fel thema mewn sawl ffordd. Ymhlith y rhain canolbwyntiwyd ar faterion megis:

- Cofio'r Holocost.
- Astudio rhyfel a gwrthdaro fel rhan o hanes, AG neu bynciau eraill.
- Cynnwys diwylliant rhyngwladol mewn celf a dylunio.
- Astudio effaith ymddygiad pobl ar newid yn yr hinsawdd, ecosystemau ac ati.
- Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau a ffyrdd o fyw rhyngwladol wedi'u meithrin drwy gyrsiau ieithoedd modern.
- Cysylltiadau â digwyddiadau wedi'u trefnu megis Eisteddfod Gydwladol Llangollen neu Neges Ewyllys Da Ryngwladol yr Urdd.
- Canolbwyntio'n benodol ar faterion byd-eang a gynhwysir yn ABCh.
- Elfennau o gwrs Bagloriaeth Cymru yr oedd yr holl ysgolion uwchradd naill ai'n ei gyflwyno neu'n bwriadu ei gyflwyno o fis Medi 2010.

Roedd hyn ochr yn ochr â ffocws penodol ar faterion Ewropeaidd a rhyngwladol ym meysydd hanes a daearyddiaeth, er enghraifft, lle'r oedd DRhA yn elfen draddodiadol.

Roedd y gweithgareddau hyn fel arfer yn ychwanegol at ffyrdd eraill o ddatblygu'r DRhA. Er enghraifft, y defnydd o wasanaethau ysgol i godi ymwybyddiaeth o faterion rhyngwladol a meithrin ymdeimlad o ddinasyddiaeth fyd-eang. Yn yr un modd, amlygodd ysgolion gysylltiadau chwaraeon a'r rhai a ddatblygwyd drwy gerddoriaeth a drama fel enghreifftiau o greu cysylltiadau rhyngwladol.

Roedd yr ysgol arbennig a gafodd ei chynnwys yn y sampl (gweler astudiaeth achos Ysgol Ch) wedi gweithio'n galed i feithrin cysylltiadau a wnaeth ei galluogi i drefnu ymweliadau ag Ewrop ac Affrica a oedd yn cynnwys y dysgwyr. Cafodd y rhain eu trefnu gan Gydlynydd Rhyngwladol yr ysgol ac roeddent hefyd yn gysylltiedig ag ymdrechion i godi arian o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi cynnwys y gymuned wrth godi arian ar gyfer mentrau DRhA ac weithiau i helpu cymunedau dramor yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Roedd y math hwn o weithgaredd yn aml yn gysylltiedig â chefnogi sefydliadau ac elusennau megis Dolen Cymru, UNICEF ac Action Aid.

### 6.1.3 Barn dysgwyr ar y DRhA

Roedd yr ysgolion peilot yn mynd ati i gasglu barn dysgwyr ar effeithiolrwydd y DRhA mewn sawl ffordd. Fel rheol roeddent yn gysylltiedig ag arolygon ffurfiol o ddysgwyr a'r gweithgareddau monitro a gynhaliwyd i fesur hyder, sgiliau TG a sgiliau iaith. Cafodd rhai o'r rhain eu cynnal yn ystod gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â DRhA (er yn bur anaml at ddiben penodol mesur y gweithgareddau hynny eu

hunain). Dywedodd tair ysgol uwchradd fod y DRhA yn fater a oedd yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd cyngor yr ysgol, ond nid oedd mor amlwg yn y fath drafodaethau mewn ysgolion cynradd. Ymhlith y fforymau ffurfiol eraill roedd Eco-bwyllgorau a strwythurau eraill a sefydlwyd i ddysgwyr drafod cynaliadwyedd neu rôl y gymuned ehangach. Cafodd rhai o'r rhain eu sefydlu gan y dysgwyr eu hunain ac roedd pob un wedi chwarae rhan bwysig ynddynt.

Soniodd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc a gafodd gyfweliad am ddeilliannau'r DRhA am y manteision i wledydd eraill i ddechrau mewn perthynas â'r DRhA, er enghraifft sut roedd prosiectau codi arian neu weithgareddau y gwnaethant gymryd rhan ynddynt wedi helpu i ddwyn manteision perthnasol megis dŵr glân a lloches i bobl mewn gwledydd eraill. Nododd plant a phobl ifanc o bob oed hefyd ystod eang iawn o fanteision o ran meithrin gwell dealltwriaeth fyd-eang a hyrwyddo cytgord rhwng gwledydd. Yn eu plith roedd:

- Dilysrwydd a dwyster cyflwyniadau gan bobl o wledydd eraill a allai siarad o brofiad am ddiwylliannau eraill, achosion o wrthdaro a heriau.
- Y ffordd roedd DRhA yn meithrin gwell dealltwriaeth o negeseuon ynghylch anghydraddoldeb byd-eang ac amddifadedd.
- Rôl y DRhA o ran gwella eu dealltwriaeth ddiwylliannol.
- Y ffordd roedd y DRhA yn aml yn gwneud yn y broses o astudio ieithoedd modern yn fwy perthnasol ac uniongyrchol.
- Rôl y DRhA yn y gwaith o feithrin eu dealltwriaeth o faterion, gwrthdaro a hanes ledled y byd.

Fodd bynnag, er bod dysgwyr yn gwbl gadarnhaol ynghylch y DRhA ac yn gallu gweld ei bwysigrwydd o ran helpu eraill, nid oeddent yn aml wedi ystyried i ba raddau y gallai'r DRhA eu helpu hwy. Roedd dysgwyr ymhob ysgol yn llai tebygol o sôn am ffactorau megis y ffordd roedd y DRhA wedi bod o fantais uniongyrchol iddynt fel unigolion neu sut y gallai eu helpu mewn cyd-destunau eraill. Fodd bynnag, gydag ychydig o help, nodwyd meithrin sgiliau cyfathrebu (drwy arwain neu ryngweithio â phobl o amgylchedd gwahanol), a meysydd megis TGCh, sgiliau cynllunio, datrys problemau a gwell gwybodaeth o bwnc er enghraifft daearyddiaeth, hanes ac ieithoedd modern.

## 6.2 Deilliannau DRhA

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr ysgolion peilot eu hunain o'u gweithgareddau DRhA ac ni chynhaliwyd unrhyw waith dilysu

annibynnol. Roedd y derminoleg a ddefnyddiwyd (h.y. sylfaenol, yn datblygu, wedi datblygu, ac wedi gwreiddio) yn gyfarwydd i ysgolion gan ei bod yn ymddangos mewn hunanasesiadau eraill. At hynny, roedd y data a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau ansoddol yn ei gwneud yn bosibl i'r casgliadau a gyflwynwyd yn yr hunanasesiadau a gwblhawyd gael eu trafod yn fanylach.

### 6.2.1 Deilliannau i ddysgwyr

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod eu gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at effeithiolrwydd eu hysgolion, drwy hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. Gwelwyd hyn yn y chwe maes a nodwyd: lles dysgwyr, asesu ar gyfer dysgu/cyfranogiad dysgwyr, datblygu agweddau a gwerthoedd, sgiliau (meddwl, cyfathrebu, TGCh, a rhifedd), gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun byd-eang, a chyrhaeddiad.

**Tabl 6.1** Nifer yr ysgolion a ddewisodd pob disgrifydd yn adran 'Deilliannau i Ddysgwyr' yr hunanasesiad

| | Sylfaenol | Yn datblygu | Wedi datblygu | Wedi gwreiddio | Dd/G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lles dysgwyr** | | 2 | 4 | 2 | |
| **Asesu ar gyfer dysgu/cyfranogiad dysgwyr** | | 4 | 1 | 2 | 1 |
| **Datblygu agweddau a gwerthoedd** | | 3 | | 5 | |
| **Sgiliau (meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif)** | | 4 | 2 | 2 | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun byd-eang** | | 3 | 2 | 3 | |
| **Lefelau cyrhaeddiad** | 1 | 5 | | 2 | |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad SCYA/CEWC-Cymru (2010).*

Fel y nodwyd yn Nhabl 6.1, roedd gwahaniaethau o ran y graddau yr aseswyd eu sefyllfa mewn perthynas â'r DRhA. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod manteision y DRhA naill ai 'yn datblygu' neu 'wedi datblygu'. Fodd bynnag, roedd un ysgol o'r farn bod rhai o fanteision y DRhA yn 'sylfaenol' o ran yr effaith fesuradwy ar

ddysgwyr (asesu ar gyfer dysgu a chyrhaeddiad) ond yn ôl yr ysgol honno roedd y manteision eraill naill ai 'yn datblygu' neu 'wedi datblygu'. Roedd llai o ysgolion o'r farn bod manteision y DRhA wedi'u 'gwreiddio' ynddynt. Er i fwy na hanner (pum ysgol) gredu bod manteision y DRhA wedi'u 'gwreiddio' o ran agweddau a gwerthoedd dysgwyr, dim ond dwy ysgol oedd yn credu mai dyna'r achos mewn perthynas â lles, asesu ar gyfer dysgu, sgiliau, a chyrhaeddiad tra roedd tair o'r farn bod y manteision wedi'u 'gwreiddio' o ran gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o faterion byd-eang.

Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddaeth i law yn hunanasesiad ffurfiol yr ysgolion, nodwyd amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol gan yr ysgolion peilot yn adrannau ansoddol yr offeryn hunanasesu a'r cyfweliadau astudiaethau achos. Cydnabuwyd bod llawer o'r dyfarniadau hyn yn ansoddol iawn eu natur.

Er enghraifft, roedd tair ysgol yn credu bod y gweithgareddau 'yn agor llygaid disgyblion', roedd pedair o'r farn bod DRhA yn eu helpu i ddeall materion yn well a chyfeiriodd eraill at rôl DRhA yn y gwaith o feithrin dinasyddion hyddysg a'i fod wedi meithrin eu sgiliau yn enwedig cyfathrebu, TGCh, a'u hyder a hunan-barch.

### 6.2.2 Deilliannau i athrawon

Mae Tabl 6.2 yn cyflwyno canfyddiadau ysgolion o ran ymreolaeth athrawon.

**Tabl 6.2** Nifer yr ysgolion a ddewisodd pob disgrifydd yn adran 'Deilliannau i Athrawon' yr hunanasesiad

| | Sylfaenol | Yn datblygu | Wedi datblygu | Wedi gwreiddio | Dd/G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lles athrawon** | 2 | 3 | 1 | 2 | |
| **Gwella cynnwys pwnc** | | 6 | | 2 | |
| **Perfformiad, cymhwysedd a hyder addysgu** | | 6 | | 2 | |
| **Dealltwriaeth/agwedd athrawon tuag at faterion byd-eang** | | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun byd-eang** | 1 | 5 | | 1 | 1 |
| **Cymunedau Dysgu Proffesiynol** | | 5 | | 1 | 2 |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad SCYA/CEWC-Cymru (2010).*

Nododd dwy ysgol fod y manteision i athrawon wedi'u 'gwreiddio' o ran eu lles, gwella cynnwys pwnc, a pherfformiad addysgu, cymhwysedd a hyder. Credai un ysgol ei fod hefyd wedi'i 'wreiddio' o ran eu dealltwriaeth/agwedd tuag at faterion byd-eang a datblygiad Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod y manteision i athrawon 'yn datblygu'.

Awgrymodd y dystiolaeth ansoddol fod ysgolion o'r farn bod athrawon yn fwy ymwybodol o faterion byd-eang a'u bod wedi meithrin gwell dealltwriaeth o'r arddulliau addysgeg gwahanol a disgwyliadau gwledydd mewn rhannau eraill o'r byd. Ymhlith y manteision eraill roedd y profiad a gawsai staff o ddefnyddio TGCh i gysylltu â gwledydd tramor a'r sgiliau cynllunio ac arwain a oedd yn cael eu meithrin drwy gymryd rhan yn y DRhA. Ar yr un pryd, mesur ysgafnach oedd bod staff yn cael eu gweld mewn goleuni gwahanol a'u bod hefyd yn gweld dysgwyr mewn ffordd wahanol, oherwydd yr amser a dreuliwyd gyda hwy yn gwneud gweithgareddau mwy anffurfiol a oedd yn gysylltiedig â'r DRhA.

### 6.2.3 Deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol

Mae Tabl 6.3 yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran barn ysgolion ar y deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol.

**Tabl 6.3** Nifer yr ysgolion a ddewisodd pob disgrifydd yn adran 'Deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol' yr hunanasesiad

| | Sylfaenol | Yn datblygu | Wedi datblygu | Wedi gwreiddio | Dd/G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effaith ar ymddygiad a chydlyniad cymdeithasol** | 1 | 4 | | 2 | 1 |
| **Effaith ar ethos yr ysgol** | | 2 | 3 | 3 | |
| **Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol** | 1 | 2 | 2 | 3 | |
| **Effaith ar lefelau presenoldeb disgyblion** | 3 | 2 | | 2 | 1 |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad SCYA/CEWC-Cymru (2010).*

Gwelwyd patrwm tebyg o ran barn ysgolion ar effaith y DRhA ar gymuned yr ysgol yn gyffredinol. Roedd tair ysgol o'r farn bod agweddau ar y canlyniad hwn wedi'u 'gwreiddio' mewn dau faes (yr effaith ar ethos a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol), ac roedd dwy hefyd yn credu bod rôl DRhA wedi'i 'gwreiddio' o ran yr effaith ar ymddygiad a chydlyniant cymdeithasol a lefelau presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, roedd yn fwy cyffredin i ysgolion farnu bod yr agweddau hyn 'wedi datblygu' neu eu bod 'yn datblygu' ac roedd tair ysgol o'r farn bod effaith y DRhA ar bresenoldeb yn 'sylfaenol'.

### 6.2.4 Deilliannau i'r gymuned ehangach

Mae Tabl 6.4 yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran asesiad ysgolion o'r deilliannau i'r gymuned ehangach.

**Tabl 6.4** Nifer yr ysgolion a ddewisodd pob disgrifydd yn adran 'Deilliannau i'r gymuned ehangach' yr hunanasesiad

| | Sylfaenol | Yn datblygu | Wedi datblygu | Wedi gwreiddio | Dd/G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Boddhad rhieni** | 2 | 2 | 2 | 2 | |
| **Cysylltiadau ag ysgolion eraill neu gymunedau** | 1 | 3 | | 3 | 1 |
| **Cydlyniad cymunedol** | 1 | 4 | | 2 | 1 |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad SCYA/CEWC-Cymru (2010).*

Yn yr un modd, er bod dwy ysgol o'r farn bod effaith y DRhA wedi'i 'gwreiddio' ymhob agwedd ar y deilliannau i'r gymuned ehangach (a nododd ysgol arall ei bod wedi'i 'gwreiddio' o ran cysylltiadau ag ysgolion eraill neu gymunedau), roedd nifer gyfartal neu ychydig yn fwy o'r farn bod hon yn elfen a oedd 'yn datblygu'. Credai un ysgol ei bod ar y cam 'sylfaenol' a chredai ysgol arall ei bod ar y cam 'sylfaenol' o ran boddhad rhieni. Cydnabuwyd y gallai'r DRhA gyfrannu at y gwaith o feithrin cysylltiadau â'r cymunedau a wasanaethir gan ysgol drwy godi ymwybyddiaeth o'r hyn roedd y plant a phobl ifanc wedi'i gyflawni drwy weithgareddau codi arian i ategu gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r DRhA.

## 6.3 Materion yn ymwneud â mesuriadau a thystiolaeth

### 6.3.1 Defnyddioldeb yr offeryn hunanasesu

Roedd yr wyth ysgol dan sylw yn gadarnhaol ynghylch yr hunanasesiad DRhA ac yn credu y gallai roi data gwerthfawr iddynt at ddibenion atebolrwydd a chynllunio, er y nodwyd nad oedd modd ei ddefnyddio'n gyflym. *'Llafurus ond yn ddefnyddiol'*, oedd sylw un pennaeth, tra nododd un arall ei fod wedi treulio chwe awr yn gweithio arno, ond roedd o'r farn ei bod yn werth gwneud hynny ar yr amod nad oedd yn rhywbeth y byddai angen ei wneud bob blwyddyn. Nododd un ysgol lle mai uwch reolwr a oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad yn ystod y cyfnod peilot ei bod yn bwriadu defnyddio'r hunanasesiad dros gyfnod hanner tymor yn y dyfodol. Byddai hyn yn ei galluogi i gynnwys pob adran yn y broses a hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gasglu data ystyrlon ar lais y dysgwr. Yn ôl ysgolion byddai'r hunanasesiad o'r fantais fwyaf petai'n cael ei ddefnyddio fel y sail i adolygiad parhaus yn hytrach nag asesiad untro o'r DRhA. Byddai hyn yn unol â dull Estyn o gynnal hunanwerthusiad fel yr amlinellir yn y

Fframwaith Arolygu Cyffredin. Roedd rhai ysgolion o blaid fersiynau taenlen o'r hunanasesiad er mwyn hwyluso proses hunanasesu barhaus.

Roedd un ysgol o blaid dogfen statudol ar gyfer asesu'r DRhA a fyddai'n dal dŵr - rhyw fath o nod barcud DRhA yn debyg i ddyfarniad Ysgolion Rhyngwladol. Ni soniodd unrhyw ysgol arall am hyn.

Roedd ysgolion yn falch ei fod wedi cael ei gynllunio mewn ffordd a oedd yn atseinio Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Golygai hyn y byddai ysgolion yn gyfarwydd ag ef ac y gellid ei ddefnyddio mewn ffordd a oedd yn gysylltiedig â hunanwerthusiadau'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ac Estyn. Credai ysgolion eraill y gallai eu helpu i gynllunio'r cwricwlwm; er enghraifft, byddai un ysgol yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn CA4 o fis Medi 2010 a chredai fod yr hunanasesiad hwn yn ffordd ddefnyddiol o baratoi ar gyfer rhai o'i gofynion. Roedd ysgol gynradd arall am addasu'r hunanasesiad i'w ddefnyddio mewn meysydd cwricwlwm ac o ran cynllunio agweddau ar yr ysgol yn gyffredinol.

Nododd pob ysgol fod y canllawiau'n glir ac yn gryno a'i bod wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi digon o wybodaeth iddynt i'w galluogi i gwblhau'r dasg ac osgoi mynd i ormod o fanylder. Dywedodd pum ysgol, gan gynnwys y rhai a nododd eu bod 'yn datblygu', y byddent yn croesawu astudiaethau achos a rhestr o wefannau defnyddiol i gyd-fynd â'r hunanasesiad.

Ar yr un pryd, credai ysgolion fod y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad yn werthfawr tu hwnt. Credwyd y gellid ei ddefnyddio i bennu targedau a oedd yn cael eu llywio gan yr asesiad o'u gwaith presennol ac y gellid defnyddio hyn i fesur eu heffeithiolrwydd yn ddiweddarach.

### 6.3.2 Materion yn ymwneud â mesuriadau

Roedd ysgolion yn poeni ynghylch y graddau y gellid defnyddio'r asesiadau a gynhaliwyd yn sgîl defnyddio'r offeryn i ddwyn ynghyd dystiolaeth galed a meintiol o effeithiolrwydd y DRhA ac roedd llawer yn ansicr ynghylch a fyddai'n bosibl dwyn ynghyd ddata caled ar y DRhA yn unig am na ddylai fod yn elfen gysylltiedig. Nid oeddent wedi dwyn ynghyd ddata meintiol yn y gorffennol am nad oedd yn ofynnol gwneud hyn.

Er eu bod yn credu bod yr offeryn yn ffordd o wneud hyn (cafwyd awgrymiadau ynghylch y dangosyddion dirprwyol i'w dewis) a'u bod yn cytuno mai'r dangosyddion

dirprwyol a ddewiswyd oedd y rhai mwyaf priodol, roeddent yn dal i fod yn betrusgar. Er enghraifft, credwyd bod y niferoedd a oedd yn defnyddio'r ystafelloedd encilio, ffigurau presenoldeb, a dangosyddion eraill o ran ymddygiad yn ffactorau y gallai'r DRhA effeithio arnynt. Fodd bynnag, gallai ffactorau eraill ddylanwadu arnynt (megis mentrau ysgol gyfan eraill, gwaith asiantaethau allanol megis gwasanaethau cymorth ymddwyn a lles addysgol), ymhlith eraill. Roedd ysgolion o'r farn y gallai'r DRhA hefyd gael ei fesur o ran sgil allweddol 'gweithio gydag eraill' er bod angen i ddibynadwyedd hyn fel dangosydd dirprwyol gael ei ystyried ac roedd dwy o'r ysgolion uwchradd o'r farn 'y gallai elfen Cymru, Ewrop a'r Byd' o Fagloriaeth Cymru gynnig deilliant mesuradwy.

Roedd pob ysgol o'r farn bod y DRhA yn rhywbeth a allai gael ei fesur yn fwy effeithiol drwy'r asesiad ac y gallai gyfrannu at brosesau gwerthuso a chynllunio ysgol gyfan. Gellid defnyddio'r rhain at ddibenion cynllunio (er enghraifft i lywio Cynlluniau Datblygu Ysgolion a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion) a hefyd at ddibenion atebolrwydd (megis eu defnydd mewn ymateb i ofynion Estyn a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion). Mewn ysgolion uwchradd gallai canlyniadau asesiadau DRhA fwydo i mewn i adolygiadau adrannol wrth i bob pennaeth adran geisio gwerthuso cryfderau presennol ei dimau a'r meysydd i'w gwella.

Nododd lleiafswm o ysgolion peilot y byddai'n ddefnyddiol cael disgrifyddion ar gyfer y system raddio a gafwyd fel rhan o'r hunanasesiad. Roedd un neu ddwy ysgol wedi bod yn amharod i ddechrau i asesu eu hunain gan ddefnyddio'r disgrifyddion ac roedd yr ysgolion hynny nad oeddent mor glwm wrth y DRhA yn ansicr ynghylch a oedd eu hasesiad yn gywir ai peidio.

Cafodd rhai awgrymiadau o ran casglu tystiolaeth feintiol eu cynnwys yn y canllawiau (Atodiad 3) ac eir i'r afael â'r materion hyn ymhellach yn adran 6.6. sef Argymhellion.

## 6.4 Gweithredu'r DRhA yn effeithiol

Datgelodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy gyflawni'r hunanasesiad nifer o ffactorau a allai fod yn sail i weithredu DRhA yn effeithiol mewn ysgolion.

### 6.4.1 Arwain y DRhA mewn ysgolion

Roedd trefniadaeth ac arweinyddiaeth DRhA yn amrywio ond pwysleisiodd pob ysgol fod ymrwymiad a chyfraniad staff, yn yr ysgol ei hun a thramor, yn hollbwysig. Fel y nodwyd uchod, roedd gan yr ysgol arbennig Gydlynydd Rhyngwladol ac roedd dwy ysgol uwchradd â chysylltiadau da iawn dramor wedi rhoi'r cyfrifoldeb i aelod o staff cymorth yr ysgol. Gallai hyn o bosibl ychwanegu dimensiwn i rôl staff cymorth mewn ysgolion. Yn yr ysgolion uwchradd roedd y pennaeth fel arfer yn cymryd rhan (fel arweinydd cyffredinol yr ysgol) neu un o'r penaethiaid cynorthwyol. Yn yr ysgolion cynradd y pennaeth a oedd wrth y llyw yn aml, er bod y gwaith yn cynnwys aelodau eraill o staff hefyd (gan gynnwys rhai a oedd wedi ymweld â gwledydd drwy'r ysgol). Dangosodd y dystiolaeth ei bod yn bosibl dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu agweddau ar y DRhA i amryw o staff, ond ei bod yn bwysig iddo gael ei arwain gan aelod o staff â digon o awdurdod o fewn yr ysgol i alluogi pethau i ddigwydd.

### 6.4.2 Ymgorffori'r DRhA

Yn ogystal â'r angen am arweinyddiaeth effeithiol gan arweinwyr ysgol a phrosesau i weithredu'r DRhA o ddydd i ddydd, nododd ysgolion fod darbwyllo llywodraethwyr o'i bwysigrwydd yn aml yn ganolog i ymgorffori'r DRhA yn eu gweithgareddau. Ar yr un pryd, roedd yr ysgolion hynny a oedd o'r farn eu bod wedi 'gwreiddio'r' DRhA wedi annog staff i ystyried sut y gallai wella eu gwaith ar lefel adrannol (er enghraifft drwy ystyried sut y gallai gyfrannu at gynlluniau gwaith). Gallai trafodaeth ar lefel adrannol fwydo i mewn i drywydd ehangach yr ysgol gyfan gan ganolbwyntio ar y ffordd y gallai'r DRhA gael ei gynnwys yn ystyrlon ymhob rhan o'r cwricwlwm, ac fel gweithgaredd ABCh ac mewn gwasanaethau ysgol ac ati. Roedd y defnydd o dechnoleg (fideo-gynadledda, e-bost ac ati) i'w gwneud yn bosibl cysylltu â chymunedau dramor yn amlach hefyd yn agwedd yr ystyriwyd ei bod yn hyrwyddo DRhA wedi'i 'wreiddio'.

### 6.4.3 Cyfleoedd a rhwystrau

Nododd ysgolion amrywiaeth o gyfleoedd a oedd, yn eu barn hwy, yn fodd i wella eu heffeithiolrwydd drwy'r dimensiwn rhyngwladol. Y meysydd a nodwyd o ran y cwricwlwm ac addysgu oedd:

- Y cyfle i lunio fframwaith i sicrhau parhad o ran y DRhA a'i gysylltu ag agweddau eraill ar waith yr ysgolion.
- Y cysylltiadau posibl ag ADCDF (canolbwyntio'n benodol ar arolygiadau yn y dyfodol).

- Ei botensial i feithrin cydweithredu rhwng pynciau.

Nodwyd bod yr hunanasesiad ei hun yn ffactor a fyddai'n hyrwyddo'r broses o arwain y DRhA ochr yn ochr â ffactorau sbarduno posibl eraill megis rôl eco-gynghorau ysgolion a blaenoriaethau a nodwyd drwy weithredu ADCDF.

O ran ymyrryd a darparu cymorth, roedd ysgolion yn bwriadu cynnal cysylltiadau â sefydliadau allanol megis y British Council, CEWC-Cymru a sefydliadau Ewropeaidd a gweithio drwy brosiectau penodol megis Comenius, Partneriaethau Ysgolion Byd-eang a Cyswllt rhwng Dosbarthiadau Ysgol, i feithrin eu cydberthnasau ag ysgolion mewn gwledydd eraill.

Bwriadwyd iddo hefyd sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddatblygu rhwydweithiau o arfer proffesiynol a oedd yn ceisio datblygu rôl arwain mewn perthynas â'r DRhA. Ymhlith y gweithgareddau arfaethedig yn y maes hwn roedd cyfrannu at weithgareddau AALl a chysylltu ag ysgolion a rhwydweithiau eraill.

Y prif rwystrau a nodwyd gan ysgolion oedd y pwysau ar amser staff a hefyd bryderon ynghylch p'un a fyddai ganddynt yr adnoddau i'w neilltuo i'r DRhA yn y dyfodol. Nodwyd rhai enghreifftiau o'r modd y gellir goresgyn y rhwystrau hyn. Yn eu plith roedd: penodi cydlynydd DRhA, gan gynnwys rhoi'r DRhA ar agenda cyfarfodydd staff er mwyn codi ei broffil, sicrhau mwy o gyfranogiad gan rieni a llywodraethwyr wrth wneud cais am arian prosiect, gweithio'n agosach ag ysgolion cyfagos i ddatblygu'r DRhA.

## 6.5 Casgliadau

Roedd yr ysgolion a gafodd eu cynnwys yn y gwaith ymchwil hwn wedi ymwneud â'r DRhA i raddau amrywiol. Roedd pob un yn y sampl yn gweld ei gyfraniad posibl a'i rôl o ran gwella profiadau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion diwylliannol.

Yn ystod y gwaith ymchwil rhoddwyd cryn bwyslais ar ystyried sut y gellid mesur effaith y DRhA drwy ddangosyddion dirprwyol dibynadwy. Fel y nodir mewn rhannau eraill o'r adroddiad, mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn mynnu casglu data penodol er mwyn amlygu effaith gweithgareddau ar les a chyrhaeddiad dysgwyr a chynlluniwyd yr hunanasesiad i helpu yn hyn o beth o ran y DRhA. Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod

gan y DRhA y potensial i wneud cyfraniad helaeth at ddatblygiad personol a chymdeithasol ehangach plant a phobl ifanc (o ran agweddau a gwerthoedd) y mae'n anodd eu mesur. Mae hefyd yn amlwg y gallai rhai o fanteision y DRhA gymryd mwy o amser i ddod i'r amlwg. Mae gwell ymwybyddiaeth a gwybodaeth o wledydd gwahanol, bod yn gyfarwydd â gwahaniaethau diwylliannol a'u parchu, a'r hyder i ystyried byw a gweithio dramor am gyfnodau byr neu hwy yn nodweddion a all ddod yn fwyfwy pwysig mewn economi fwy byd-eang. O ystyried nad yw Cymru wedi mabwysiadu'r model ysgolion arbenigol (er enghraifft ysgolion sy'n arbenigo mewn ieithoedd modern ag ethos rhyngwladol), mae cyfle i bob dysgwr gael budd o'r DRhA. Byddai angen i'r dull hwn o weithredu gynnwys y DRhA fel rhan allweddol o'r Cwricwlwm Cymreig, ac mewn ymateb i fentrau eraill megis hawliau plant a phobl ifanc wedi'u hymgorffori yn yr agenda Ymestyn Hawliau. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod angen i ysgolion ddadansoddi eu gweithgareddau presennol a datblygu dull systematig o nodi cyfleoedd a sut y gellir achub arnynt, er mwyn gwneud hyn yn effeithiol.

## 6.6 Argymhellion

Caiff yr argymhellion canlynol eu llywio gan y dystiolaeth ymchwil a gasglwyd ac a ddadansoddwyd at ddiben y prosiect hwn.

- Dylai ysgolion ddefnyddio'r hunanasesiad a dod yn gyfarwydd â dogfennau cefndirol, megis y rhai a restrir yn Adran 3 ac Atodiad 4, er mwyn deall cyd-destun a rhesymeg yr asesiad o'r DRhA.
- Mae angen i ysgolion sicrhau bod pwy bynnag sy'n cwblhau'r hunanasesiad DRhA yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r DRhA a'r mathau amrywiol o weithgareddau a gaiff eu cynnwys yn y diffiniad, gan gynnwys fel cydran o themâu trawsbynciol megis ABCh ac ADCDF. Dylai'r broses o gwblhau'r hunanasesiad hefyd gael ei harwain gan aelod o staff sydd â throsolwg strategol a chael ei hystyried yn rhan annatod o hunanwerthusiad yr ysgol, gan ddefnyddio arbenigedd aelodau eraill o staff a gwrando ar eu barn fel y bo'n briodol.
- Dylai ysgolion gael eu hannog i weld yr hunanasesiad DRhA yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Dylai asesiadau o'r DRhA gael eu hystyried yn rhan o brosesau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'u gweld yn broses sy'n datblygu gwaith y dyfodol yn ogystal ag adolygu'r hyn a gyflawnwyd eisoes. Dylai'r defnydd o'r disgrifyddion (Sylfaenol, Yn datblygu, Wedi datblygu ac Wedi gwreiddio) helpu yn hyn o beth.
- Dylai holiaduron i ddysgwyr a thrafodaethau strwythuredig sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Gwrando ar Ddysgwyr gael eu defnyddio i sicrhau bod y lleisiau hynny yn rhan annatod o'r broses o adolygu a datblygu'r DRhA.

- Dylai ysgolion gael eu hannog i helpu dysgwyr a rhieni i weld sut y byddai'r DRhA o fudd iddynt yn uniongyrchol ac yn anuiongyrchol a sut y gall wella eu dysgu.
- Byddai angen cynnal rhaglen HMS neu godi ymwybyddiaeth i athrawon er mwyn eu hannog i gymryd rhan a defnyddio'r hunanasesiad.
- Dylai ysgolion gael eu hannog i gasglu tystiolaeth feintiol o effaith y DRhA, er mwyn sicrhau bod yr hunanasesiad mor werthfawr â phosibl. Gellid cael y fath dystiolaeth, er enghraifft, drwy gysylltu gweithgareddau DRhA â deilliant neu ddeilliannau dysgu penodol mewn un neu fwy o bynciau, ac fel deilliant i'w ystyried wrth fesur sgiliau hanfodol. Dylai'r rhain fod yn ddeilliannau dysgu arfaethedig sy'n gysylltiedig â thargedau ar lefel disgyblion, yn seiliedig ar feini prawf llwyddiant cytûn. Byddai angen cynnal prosiect ymchwil pellach i ddatblygu cyfres fanwl o weithgareddau casglu data wedi'u hargymell, er mwyn gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i ysgolion cyn iddynt gwblhau'r asesiad.
- Mae'r DRhA yn rhan annatod o'r cwricwlwm ysgol ac effeithiolrwydd ysgolion ond mae ei effaith, yn enwedig yn y byrdymor, yn anodd ei fesur yn aml. Dylid gochel rhag seilio casgliadau ar ystod gyfyngedig o ddata yn unig. Er y dylid annog defnyddio dangosyddion dirprwyol (megis presenoldeb ar ddiwrnodau sy'n canolbwyntio ar y DRhA ac ati), dylid ystyried terfynau'r fath data, yn arbennig oherwydd yr amrywiaeth o ffactorau eraill y mae'n rhaid eu rheoli. Dylid cydnabod gwerth tystiolaeth ansoddol, ynghyd â data meintiol, ac ni ddylid pennu llai o werth iddi na'i hystyried yn llai credadwy na dangosyddion eraill.

- Dylai'r dogfennau canlynol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn fod ar gael i ysgolion fel dogfennau y gellir eu lawrlwytho ar wahân drwy wefannau priodol, er enghraifft: Llywodraeth Cynulliad Cymru, British Council, GCaD Cymru, CEWC-Cymru, Cyfanfyd, ESD Cymru:

    - Beth yw'r DRhA? (Atodiad 1)
    - Yr Offeryn Hunanasesu (Atodiad 2) ar ffurf Excel, Word a PDF.
    - Y Canllaw (Atodiad 3)
    - Deunydd Darllen Pellach ar y DRhA (Atodiad 4)
    - Yr wyth astudiaeth achos (Adran 5.3)
    - Crynodeb gweithredol o'r adroddiad hwn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwaith ymchwil hwn a'r rhaglenni sy'n ategu'r broses o gyflawni DRhA yn: http://www.britishcouncil.org/wales.

## Atodiad 1 Beth yw'r DRhA?

# Beth yw'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA)?

**Y DRhA yw'r gydran o addysg a dysgu sy'n canolbwyntio ar faterion rhyngwladol. Fe'i hadwaenir hefyd fel y *dimensiwn byd-eang*.**

**Mewn ysgolion yng Nghymru, cwmpesir y DRhA yn benodol mewn nifer o feysydd, fel y dangosir yma. Mae'n bwysig cydnabod y gallai fod gorgyffwrdd rhwng y meysydd hyn, yn nhermau cynllunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu y tu allan i'r ysgol.**

## Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg

### CEB

**(Cymru, Ewrop a'r Byd)**

Mae CEB yn gydran y Craidd Dysgu 14-19. Ei bwriad yw helpu'r holl ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)**

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr CBC ymgymryd â 60 awr o ddysgu a arweinir ar faterion CEB.

### ABCh

(Addysg Bersonol a Chymdeithsol)

Mae ABCh ei hun yn ofyniad statudol. Mae'r Fframwaith ABCh anstatudol yn cynnwys nifer o elfennau DRhA yn benodol:

- **Dinasyddiaeth weithgar,** sy'n cynnwys dealltwriaeth o hawliau dynol a gwneud penderfyniadau rhyngwladol
- **Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang,** sy'n cynnwys dealltwriaeth o adnoddau naturiol a chyd-ddibyniaeth ryngwladol

### ADCDF

(Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang)

Mae ADCDF yn disgrifio'r gwaith y mae ysgolion yn ei wneud i hyrwyddo dinasyddiaeth gyfrifol a dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng materion lleol a byd-eang.

Nid yw'n gydran statudol o'r cwricwlwm nac yn bwnc ar wahân, ond disgwylir ei gyflwyno drwy gydol y cwricwlwm a thrwy reoli ac ethos yr ysgol gyfan.

### Manylebau pwnc

Mae manylebau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ogystal ag ar gyfer cymwysterau pynciol, hefyd yn cyfrannu at y DRhA.

Mae'r cyfraniad hwn yn benodol iawn mewn meysydd fel **Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth, Cymdeithaseg** a **Datblygiad Rhyngwladol**.

## Gweithgareddau allgyrsiol

**gallent helpu ysgolion gyflwyno unrhyw rai o'r meysydd uchod, yn ogystal â chyfrannu'n annibynnol at y DRhA**

# Atodiad 2 Yr offeryn hunanasesu

| Y DIMENSIWN RHYNGWLADOL MEWN ADDYSG (DRhA)<br><br>OFFERYN HUNANASESU YSGOL | |
|---|---|
| **Enw'r ysgol:** | |
| **Manylion y person fu'n gyfrifol am gwblhau'r offeryn** | |
| **Enw'r aelod o staff fu'n arwain ar gwblhau'r offeryn** | |
| **Teitl/swydd** | |
| **Manylion staff eraill a gyfranodd at gwblhau'r offeryn** | |
| **1** **Enw**<br>**Teitl/swydd**<br>**Pa adran(nau) o'r offeryn a gyfranwyd ati (atynt)?** | |
| **2** **Enw**<br>**Teitl/swydd**<br>**Pa adran(nau) o'r offeryn a gyfranwyd ati (atynt)?** | |
| **3** **Enw**<br>**Teitl/sw**<br>**Pa adran(nau) o'r offeryn a gyfranwyd ati (atynt)?** | |
| ***Defnyddiwch daflen arall os oes angen.*** | |

| Adran A:<br><br>Deilliannau i ddysgwyr | DEILLIANNAU PRESENNOL O'R DRhA<br><br>Gellir cyflawni'r rhain drwy Gymru, Ewrop a'r Byd, ADCDF, ABCh, meysydd pwnc, cysylltu rhyngwladol a gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Gweler 'Beth yw'r DRhA?' am fwy o wybodaeth. | | | DEILLIANNAU I'R DYFODOL<br><br>Pa weithgareddau newydd neu well a gynlluniwyd i fynd â chi i'r lefel nesaf? |
|---|---|---|---|---|
| | **Eich asesiad**<br>Ar hyn o bryd, faint mae gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at effeithiolrwydd eich ysgol yn y meysydd canlynol? | **Enghreifftiau o weithgareddau presennol**<br>Gallai'r rhain fod yn weithgareddau ysgol gyfan, prosiectau, clybiau, diwrnodau ymwybyddiaeth, pynciau a gwmpesir mewn gwersi ac ati. | **Tystiolaeth o'r effaith**<br>Rhestrwch unrhyw dystiolaeth y gallech ei darparu i gefnogi eich asesiad o effeithiolrwydd y gweithgareddau. | **Gweithgareddau neu ddulliau i'r dyfodol**<br>e.e. prosiectau newydd ar faterion rhyngwladol, dulliau cwricwlaidd newydd, sefydlu clwb |
| **Lles dysgwyr (ymgysylltiad, cymhelliad, boddhad, presenoldeb)** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) / cyfranogiad dysgwyr** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Datblygu agweddau a gwerthoedd** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Sgiliau: Meddwl, Cyfathrebu, TGCh, Rhif** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun rhyngwladol** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Lefelau cyrhaeddiad** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER ADRAN A** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |

| **Adran B:**<br><br>**Deilliannau i athrawon** | **DEILLIANNAU PRESENNOL O’R DRhA**<br><br>**Gellir cyflawni’r rhain drwy Gymru, Ewrop a’r Byd, ADCDF, ABCh, meysydd pwnc, cysylltu rhyngwladol a gweithgareddau allgyrsiol.**<br><br>Gweler ‘Beth yw’r DRhA?’ am fwy o wybodaeth. | | | **DEILLIANNAU I’R DYFODOL**<br><br>**Pa weithgareddau newydd neu well a gynlluniwyd i fynd â chi i’r lefel nesaf?** |
|---|---|---|---|---|
| | **Eich asesiad**<br>Ar hyn o bryd, faint mae gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at **effeithiolrwydd eich ysgol** yn y meysydd canlynol? | **Enghreifftiau o weithgareddau presennol**<br>Gallai’r rhain fod yn weithgareddau ysgol gyfan, prosiectau, clybiau, diwrnodau ymwybyddiaeth, pynciau a gwmpesir mewn gwersi ac ati. | **Tystiolaeth o’r effaith**<br>Rhestrwch unrhyw dystiolaeth y gallech ei darparu i gefnogi eich asesiad o effeithiolrwydd y gweithgareddau | **Gweithgareddau neu ymagweddau’r dyfodol**<br>e.e. partneriaethau proffesiynol o fewn/rhwng ysgolion, gwell gyfleoedd DPP, cyfnewid ag athrawon mewn gwledydd eraill |
| **Lles athrawon (ymgysylltiad, cymhelliad, boddhad, presenoldeb)** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Gwella cynnwys pwnc** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Perfformiad, cymhwysedd a hyder addysgu** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Dealltwriaeth/ agwedd athrawon tuag at faterion byd-eang** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Cymunedau Dysgu Proffesiynol (ymchwil weithredol, DPP ayyb)** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER ADRAN B** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |

| **Adran C:**<br><br>**Deilliannau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol** | **DEILLIANNAU PRESENNOL O'R DRhA**<br><br>**Gellir cyflawni'r rhain drwy Gymru, Ewrop a'r Byd, ADCDF, ABCh, meysydd pwnc, cysylltu rhyngwladol a gweithgareddau allgyrsiol.**<br><br>Gweler 'Beth yw'r DRhA?' am fwy o wybodaeth. | | | **DEILLIANNAU I'R DYFODOL**<br><br>**Pa weithgareddau newydd neu well a gynlluniwyd i fynd â chi i'r lefel nesaf?** |
|---|---|---|---|---|
| | **Eich asesiad**<br>Ar hyn o bryd, faint mae gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at **effeithiolrwydd eich ysgol** yn y meysydd canlynol? | **Enghreifftiau o weithgareddau presennol**<br>Gallai'r rhain fod yn weithgareddau ysgol gyfan, prosiectau, clybiau, diwrnodau ymwybyddiaeth, pynciau a gwmpesir mewn gwersi ac ati. | **Tystiolaeth o'r effaith**<br>Rhestrwch unrhyw dystiolaeth y gallech ei darparu i gefnogi eich asesiad o effeithiolrwydd y gweithgareddau | **Gweithgareddau neu ymagweddau'r dyfodol**<br>e.e. polisïau newydd, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, dulliau newydd i fonitro presenoldeb, cyfleoedd ar gyfer mewnbwn gan lywodraethwyr |
| **Effaith ar ymddygiad a chydlyniad cymdeithasol** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Effaith ar ethos yr ysgol** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Effaith ar lefelau presenoldeb disgyblion** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER ADRAN C** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |

| Adran Ch:<br><br>Deilliannau i’r gymuned ehangach | **DEILLIANNAU PRESENNOL O’R DRhA**<br><br>**Gellir cyflawni’r rhain drwy Gymru, Ewrop a’r Byd, ADCDF, ABCh, meysydd pwnc, cysylltu rhyngwladol a gweithgareddau allgyrsiol.**<br><br>Gweler ‘Beth yw’r DRhA?’ am fwy o wybodaeth. | | | **DEILLIANNAU I’R DYFODOL**<br><br>**Pa weithgareddau newydd neu well a gynlluniwyd i fynd â chi i’r lefel nesaf?** |
|---|---|---|---|---|
| | **Eich asesiad**<br>Ar hyn o bryd, faint mae gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at **effeithiolrwydd eich ysgol** yn y meysydd canlynol? | **Enghreifftiau o weithgareddau presennol**<br>Gallai’r rhain fod yn weithgareddau ysgol gyfan, prosiectau, clybiau, diwrnodau ymwybyddiaeth, pynciau a gwmpesir mewn gwersi ac ati. | **Tystiolaeth o’r effaith**<br>Rhestrwch unrhyw dystiolaeth y gallech ei darparu i gefnogi eich asesiad o effeithiolrwydd y gweithgareddau | **Gweithgareddau neu ymagweddau’r dyfodol**<br>e.e. cyfleoedd ar gyfer rhieni, prosiectau partneriaeth newydd gydag ysgolion eraill, syniadau ar gyfer datblygu perthynas â sefydliadau eraill/busnesau lleol |
| **Boddhad rhieni** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Cysylltiadau ag ysgolion eraill neu gymunedau** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **Cydlyniad cymunedol** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |
| **ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER ADRAN D** | ☐ Sylfaenol<br>☐ Yn datblygu<br>☐ Wedi datblygu<br>☐ Wedi gwreiddio | | | |

# GWELLA EFFEITHIOLRWYDD YSGOL DRWY'R DIMENSIWN RHYNGWLADOL

**Cynlluniwyd yr adran hon i'ch helpu i gynyddu i'r lefel nesaf o effeithiolrwydd (e.e. o Yn Datblygu i Wedi Datblygu), ac i'ch galluogi i gyflawni Deilliannau'r Dyfodol yr ydych wedi'u rhestru.**

**Defnyddiwch y blychau perthnasol yn yr adran hon i nodi ffactorau yn eich ysgol fydd yn effeithio ar eich cynnydd. Nid oes angen i chi lenwi pob blwch.**

| **Agweddau ar Effeithiolrwydd Ysgol**<br>*Daw'r penawdau isod o Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfeiriwch at y Fframwaith am fwy o fanylion.* | **✓ Cyfleoedd**<br>Ffactorau a all helpu eich ysgol i gyflawni gwell effeithiolrwydd drwy'r Dimensiwn Rhyngwladol | **X hwystrau**<br>Ffactorau a allai rwystro cynnydd | **Cam(au) angenrheidiol** | **Person/ pobl sy'n gyfrifol** | **Dyddiad cyflawni** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Cwricwlwm ac Addysgu**<br>e.e. yr amser sydd ei angen i gynllunio ar gyfer prosiect newydd; defnyddio pedagogau sy'n caniatáu archwilio themâu DRhA yn fanylach | | | | | |
| **Arweinyddiaeth**<br>e.e.agweddau tuag at brosiectau a gweithgareddau blaengar; polisïau ar gynaliadwyedd/cyfranogiad | | | | | |
| **Ymyrraeth a Chefnogaeth**<br>e.e. gwneud cais am arian prosiect; cefnogaeth i ddysgwyr o wahanol alluoedd; adnoddau/cyfleusterau sydd eu hangen | | | | | |
| **Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol**<br>e.e. rhannu syniadau ar draws adrannau/ysgolion; cyfrannu i gymunedau dysgu proffesiynol | | | | | |
| **Gweithio gydag Eraill**<br>e.e. ysgolion partner, grwpiau cymunedol, cyrff anllywodraethol, cwmnïau celfyddydau | | | | | |

# Atodiad 3 Y canllawiau

## Cwblhau Offeryn Asesu DRhA: Canllaw i athrawon

Mae **offeryn hunanasesu'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA)** wedi'i ddylunio i helpu athrawon asesu pan mor dda mae eu hysgol yn ei wneud wrth hyrwyddo'r DRhA. Gofynnir i chi ddarparu arfarniad o gyfraniad y DRhA i fywyd yr ysgol, ac i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol fydd yn galluogi'r ysgol i wreiddio'r DRhA ymhellach.

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar sut i gwblhau'r offeryn hunanasesu. Darperir gwybodaeth ar y DRhA ei hun yn daflen amgaeedig, **Beth yw'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg?** Efallai bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y dogfennau canlynol hefyd:

- **Darllen ychwanegol ar y DRhA**
- Crynodeb gweithredol **Asesu'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg mewn ysgolion yng Nghymru Cyfnod II** (SCYA/CEWC-Cymru 2010)
- **Astudiaethau achos** wyth ysgol (3 ysgol gynradd, 4 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig) a fu'n peilota'r offeryn hunan-asesu.

## Cyd-destun addysgol

Mae **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion** (FfEY) Llywodraeth Cynulliad Cymru a **Fframwaith Arolygu** newydd Estyn yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion yn ceisio gwella eu heffeithiolrwydd yn barhaus. Gall yr offeryn hunanasesu eich cynorthwyo i gwrdd â'r amcan hwn drwy eich helpu i ystyried i ba raddau y mae gweithgareddau'r DRhA yn cynorthwyo effeithiolrwydd cyffredinol yr ysgol, ac i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n adeiladu ar arferion effeithiol. Mae'r offeryn yn ailadrodd iaith a ddefnyddir yn y FfEY, gyda chyfeiriadau at Gymunedau Dysgu Proffesiynol yn Adran B ac at bum agwedd ar effeithiolrwydd ysgolion yn Adran D.

Mae'r offeryn yn adeiladu hefyd ar bwysigrwydd cynyddol ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhyngwladol mewn ysgolion, a enghreifftiwyd yng Nghymru gan ddatblygu **Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)** ac elfennau byd-eang ar **Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)**.

Yn ogystal â bod yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan drwy eich helpu i gyfoethogi eich gwaith, felly, gellir defnyddio'r offeryn i ddarparu tystiolaeth i Estyn am effeithiolrwydd gweithgareddau DRhA. Nid yw'r defnydd o'r offeryn, fodd bynnag, yn ofyniad gan Estyn na Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Strwythur yr offeryn

**Adrannau A-Ch**

Rhennir rhan gyntaf yr offeryn yn bedair taflen, gyda phob un yn cwmpasu maes gwahanol y gellir ei ategu gan y DRhA - deilliannau i ddysgwyr, i athrawon, i gymuned yn ysgol yn gyffredinol, a'r gymuned ehangach.

**Adran D Gwella Effeithiolrwydd Ysgolion drwy'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg**

Mae'r daflen olaf hon yn eich galluogi i gynllunio sut fydd yr ysgol yn gwreiddio'r DRhA yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

## Defnydd effeithiol o'r offeryn

I sicrhau bod yr offeryn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer asesu a gwella ysgolion, argymhellwn y canlynol:

**Cael mewnbwn gan ystod o athrawon, gan gynnwys staff uwch**

- Argymhellwn yn gryf fod cwblhau'r offeryn yn cael ei arwain gan athro profiadol gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ysgol.
- Dylai'r aelod o staff fydd yn arwain gasglu tystiolaeth o gynifer o wahanol adrannau a mentrau'r ysgol ag y bo'n bosib. Bydd hyn yn sicrhau y gallwch dynnu ar ystod eang o weithgareddau wrth gwblhau'r offeryn.
- Argymhellwn fod uwch reolwr yn cymryd rôl weithgar wrth gwblhau'r offeryn. Bydd ei safbwynt strategol yn arbennig o ddefnyddiol i gwblhau adrannau C, Ch a D.

**Cynnwys lleisiau dysgwyr**

- Argymhellwn eich bod yn cyfweld ag ystod gynrychioliadol o ddysgwyr i sicrhau bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu wrth gwblhau'r offeryn. Bydd hyn yn darparu ffynhonnell dystiolaeth feintiol bwysig ac yn helpu sicrhau bod gweithgareddau'r dyfodol yn cael eu cynllunio gan gadw safbwyntiau a buddiannau pobl ifanc mewn cof.

- Gallech ystyried defnyddio dulliau blaengar i gynnwys dysgwyr yn y broses adborth e.e. y defnydd o'r System Ymateb Cynulleidfa (SYC) os yw ar gael yn eich ysgol.
- Mae Safonau Cenedlaethol cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn darparu set bwysig o egwyddorion i alluogi dysgwyr i leisio eu barn a helpu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Gweler www.pupilvoicewales.org.uk am fwy o fanylion.

**Lleisiau eraill**

Gallai ddangosyddion defnyddiol ar gyfer adrannau C a D gynnwys:

- Barn rhieni a gesglir drwy drafodaethau ar nosweithiau rhieni, arolygon neu holiaduron ar y we, neu fonion ymateb mewn newyddlenni ysgolion.
- Barn llywodraethwyr ysgolion wedi'i chywain mewn cyfarfodydd llywodraethwyr
- Adborth gan aelodau'r gymuned ehangach (e.e. pobl busnes leol neu arweinwyr cymunedol) sydd wedi ymwneud â gweithgareddau'r DRhA yn eich ysgol.

## Cwblhau adrannau a-ch

Wrth gwblhau'r offeryn, mae croeso i chi adael rhai blychau yn wag os yn briodol. Mae'n fwy pwysig darparu asesiad realistig o weithgareddau'r ysgol nac i lenwi pob blwch.

1. Mae pob adran wedi'i rhannu'n nifer o resi, yn cynrychioli gwahanol ddeilliannau y gellir eu cyflawni drwy weithgareddau DRhA. Ar ôl i chi gasglu eich tystiolaeth, ticiwch y blwch sy'n disgrifio orau i ba raddau y mae gweithgareddau DRhA yn cyfrannu at bob deilliant. Dewiswch o'r lefelau effeithiolrwydd canlynol:

   **Sylfaenol** Mae gweithgareddau DRhA yn ychwanegu ychydig iawn yn unig.

   **Yn datblygu** Mae gweithgareddau DRhA yn dechrau cael effaith.

   **Wedi Datblygu** Mae gweithgareddau DRhA yn chwarae rôl sylweddol.

   **Wedi gwreiddio** Mae gweithgareddau DRhA yn rhan annatod o'r maes hwn.

   Sylwer: Mae'r termau Sylfaenol, Yn Datblygu, Wedi Datblygu ac Wedi Gwreiddio yn deillio o ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer ADCDF yng Nghymru.* Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau dangosol o'r termau hynny yng nghyd-destun ADCDF.

2. Nesaf, cwblhewch y **golofn werdd gyntaf** gydag enghreifftiau o weithgareddau presennol sy'n berthnasol i'ch asesiad.

Dylech gynnwys gwaith a gyflwynwyd o fewn y **Cwricwlwm Cenedlaethol a manylebau pwnc**, er enghraifft:

- Trafodaeth am newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb economaidd a materion eraill mewn Daearyddiaeth.
- Dadleuon am faterion rhyngwladol yn Saesneg neu Gymraeg.
- Effaith dyn ar yr amgylchedd byd-eang mewn Gwyddoniaeth.
- Gwersi ABCh sy'n ystyried effaith fyd-eang gweithrediadau lleol.
- Astudio pynciau nad ydynt yn rhai Prydeinig mewn Hanes.
- Ffurfiau ar symud sy'n amrywio yn ddiwylliannol mewn AG neu Ddrama.

Gellid cynnwys enghreifftiau o **weithgareddau'r DRhA eraill** megis:

- Mentrau ysgol gyfan, e.e. gwaith cysylltu rhyngwladol (fel Comenius/Connecting Classrooms), ymwneud â gwaith elusennol perthnasol.
- Prosiectau ar wledydd penodol, straeon newyddion rhyngwladol a materion byd-eang.
- Gwaith clybiau a grwpiau ysgol, e.e. Amnesty Rhyngwladol, clybiau dadlau, Pwyllgor Eco, cyngor ysgol.
- Teithiau addysgol dramor.
- Cymryd rhan mewn cynlluniau gwobrwyo, e.e. Ysgolion Rhyngwladol, Eco-Ysgolion, Ysgolion Masnach Deg, Ysgolion Parchu Hawliau.
- Diwrnodau thematig ar faterion rhyngwladol, e.e. tlodi, hunaniaeth ddiwylliannol, newid yn yr hinsawdd.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol gyda thema ryngwladol, e.e. diwrnodau dathlu iaith, gweithgareddau'r Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig.
- Gwasanaethau a chyflwyniadau.
- Cyflawniadau athrawon ac adrannau unigol, e.e. gwobrau Athrawon Byd-eang.

3. Yn yr **ail golofn werdd**, dangoswch sut y byddech yn dangos tystiolaeth o **effaith** eich enghreifftiau.

Dylid cynnwys ***tystiolaeth feintiol*** lle bynnag y bo'n bosib, gan y bydd hyn yn helpu'r ysgol i wneud asesiad cadarn o werth ei waith DRhA.

Er enghraifft, gallech gynnwys dadansoddiad o ddata ar lefelau presenoldeb, lle y mae'n bosib priodoli cynnydd mewn presenoldeb yn rhannol i weithgareddau DRhA. I brofi'r effaith, gallwch gymharu'r presenoldeb ar ddiwrnod â thema ryngwladol â phresenoldeb yn yr wythnos(au) dilynol, gyda phresenoldeb ar ddiwrnod tebyg heb thema.

Gallai ffynonellau tystiolaeth feintiol eraill gynnwys:

- Dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad mewn meysydd cwricwlaidd penodol lle y cafwyd mewnbwn DrhA.
- Data o'r holiaduron neu gyfweliadau gyda dysgwyr/staff.
- Tasgau ac adroddiadau asesu dysgwyr.
- Adroddiadau, cofnodion neu ddogfennau polisi sy'n profi cysylltiad rhwng gweithgareddau DRhA a gwerthoedd/ethos datblygu'r ysgol.

Gellid cynnwys ***tystiolaeth ansoddol*** hefyd, a dylai nodi'n glir effaith y gweithgareddau a gynhaliwyd (yn hytrach na darparu tystiolaeth eu bod wedi'u cynnal). Gallai ffynonellau gynnwys:

- Adborth dysgwyr sy'n adlewyrchu ansawdd y gwaith, e.e. fideo 'pennau'n siarad', dyddiaduron, cyfweliadau.
- Gwefannau, newyddlenni a chyfryngau eraill ysgolion, yn enwedig lle mae dysgwyr wedi cael rôl allweddol.
- Llythyrau neu ddeunyddiau eraill gan bartneriaid prosiect.
- Tystysgrifau neu argymhellion gan gynlluniau dyfarnu.

4. Yn y **golofn las**, nodwch unrhyw weithgareddau y mae'r ysgol yn bwriadu ymgymryd â hwy yn y dyfodol. Dylai'r rhain fod ar brosiectau neu ymagweddau penodol sy'n **gwella cyfraniad y DRhA i effeithiolrwydd yr ysgol** - gan eich galluogi i symud i'r lefel nesaf o effeithiolrwydd, e.e. o Yn Datblygu i Wedi Datblygu.

## Cwblhau adran d

Mae'r daflen hon yn gofyn i'r ysgol ystyried y DRhA yng ngoleuni pum agwedd ar effeithiolrwydd ysgolion o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Cwricwlwm ac Addysgu, Arweinyddiaeth, Ymyrraeth a Chefnogaeth, Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol, a Gweithio gydag Eraill.

Mae'r daflen yn eich galluogi i ystyried ffactorau yn yr ysgol a all eich helpu neu eich llesteirio o safbwynt cyflawni Deilliannau'r Dyfodol a restrwyd yn adrannau Ach. Mae felly'n hanfodol bod aelod o staff gyda chyfrifoldebau strategol (e.e. dirprwy bennaeth) yn helpu cwblhau Adran D.

1. Yn y **colofnau gwyn**, nodwch unrhyw Gyfleoedd neu Rwystrau sy’n bodoli o fewn pob agwedd ar effeithiolrwydd ysgolion. Gallai’r rhain fod yn ffactorau mewnol fel strwythur yr ysgol, polisïau neu ddeinamig staff; neu gallant fod yn ffactorau allanol fel cyllido, rhwydweithiau addysg leol neu bolisïau’r llywodraeth.

2. Yn y **colofnau melyn**, nodwch y camau y bydd yn ysgol yn eu cymryd i fanteisio ar y Cyfleoedd a noddwyd neu i oresgyn y Rhwystrau. Mae’n bwysig enwi’r bobl sy’n gyfrifol am ymgymryd â’r camau hyn, ac i nodi dyddiad realistig ar gyfer eu cyflawni.

# Atodiad 4 Deunydd darllen pellach ar y DRhA

## Llenyddiaeth ac offerynnau asesu o'r DU a thu hwnt

### 4.1 Asesu addysg dinasyddiaeth fyd-eang

**Sefydliad Addysg Caergrawnt, Impact Assessment Model**

Mae'r model hwn yn ystyried effaith gwaith rhyngwladol ysgolion o ran Deilliannau sy'n ymwneud â'r Boblogaeth (systemau, sefydliadau, ymarferwyr, dysgwyr a chymunedau), Amser ac Ansawdd. Er bod y tîm datblygu o'r farn nad oedd yn fodel hygyrch i'w ddefnyddio gan athrawon, roedd yn bosibl iddynt groesgyfeirio'r amrywiaeth enghreifftiol o ddeilliannau â'r deilliannau a restrwyd yn yr asesiad DRhA.

**Liz Allum, Barbara Lowe a Louise Robinson, *How Do We Know It's Working?***

Gallai'r llyfryn hwn sef "A toolkit for measuring attitudinal change in global citizenship from early years to KS5", helpu i gasglu tystiolaeth o effaith gweithgareddau DRhA, gan arwain at ddefnydd mwy effeithiol o'r hunanasesiad DRhA.

Allum, L., Lowe, B. a Robinson, L. (2008). *How Do We Know It's Working? A Toolkit for Measuring Attitudinal Change in Global Citizenship from Early Years to KS5*. Llundain: RISC.

RISC, 2008; ISBN: 978 1 874709 10 6

**David Kerr, Avril Keating ac Eleanor Ireland, *Pupil assessment in citizenship education: purposes, practices and possibilities* (SCYA/CIDREE)**

Adroddiad sy'n ystyried y cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o'r angen i lunio gwell fframweithiau asesu disgyblion, strategaethau ac adnoddau ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang mewn sawl gwlad Ewropeaidd.

Kerr, D., Keating, A. ac Ireland, E. (2009). *Pupil Assessment in Citizenship Education: Purposes, Practices and Possibilities. Report of a CIDREE Collaborative Project*. Slough: SCYA.

SCYA, 2009; ISBN: 978 1 906792 28 2

**John Lloyd a Chris Waller, *The School Self-Evaluation Tool for PSHE and Citizenship Education in Primary Schools***

Hunanasesiad a gafodd ei greu ar gyfer y cwricwlwm Dinasyddiaeth ac ABCI yn Lloegr. Nid yw'n canolbwyntio'n bennaf ar y dimensiwn rhyngwladol, ond rhydd ddisgrifyddion manwl ar gyfer y camau gwahanol ar ddatblygiad ysgolion a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion sy'n asesu eu gweithgarwch presennol.

Lloyd, J. a Waller, C. (2006). *The School Self-Evaluation Tool for PSHE and Citizenship Education in Primary Schools.* Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau [ar-lein]. Ar gael: http://www.teachingcitizenship.org.uk/dnloads/primaryselfevaluationtool0.pdf [15 Gorffennaf, 2010].

## 4.2 Partneriaethau ysgolion rhyngwladol

**Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, *Creu Partneriaethau Effeithiol***

Caiff y dogfennau canlynol eu llunio gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol fel rhan o'i chefnogaeth i Bartneriaethau Ysgolion Rhyngwladol, a all fod yn rhan bwysig o waith DRhA. Maent yn cynnwys amrywiaeth o fesurau effeithiol y gall ysgolion eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd partneriaethau o'r fath; canllawiau ar weithio gyda chymunedau lleol a chlystyrau o ysgolion; a gwerslyfrau i helpu ysgolion i feithrin eu partneriaethau.

- Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (2008). *Building Effective Partnerships: Participants' Workbook.* Llundain: Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. ISBN: 978 086355 6166
- Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (2008). *Creu Partneriaethau Effeithiol: Llawlyfr i Gyfranogwyr*. Llundain: Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.
- Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (2008). *Partners in Learning Guide.* Llundain: Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

  www.dfid.gov.uk/Getting-Involved/For-schools/global-school-partnerships/Publications/

**Dr. Karen Edge, Keren Frayman a James Lawrie, *The Influence of North South School Partnerships: Examining the evidence from schools in the UK, Africa & Asia***

Adroddiad ar asesiad academaidd pwysig gan Brifysgol Llundain, unwaith eto yn trafod maes penodol partneriaethau ysgolion rhyngwladol. Mae'n cynnwys nifer o argymhellion ymarferol i ysgolion sydd am feithrin partneriaethau effeithiol.

Edge, K., Frayman, K. a Lawrie, J. (2009). *The Influence of North South School Partnerships: Examining the Evidence from Schools in the UK, Africa & Asia.* Llundain: Prifysgol Llundain, Sefydliad Addysg, y Ganolfan Arwain Dysgu [ar-lein]. Ar gael: http://www.ioe.ac.uk/IOE_NSSP_IntSchoolPartnerships_FullReport.pdf

**Melissa de Villiers, "Partnerships can raise standards"**

Erthygl sy'n cyfeirio at "effaith drawiadol" partneriaethau ysgolion rhyngwladol ar safonau addysgol a gwerthoedd ac agweddau pobl ifanc.

De Villiers, M. (2010). 'Partnerships can raise standards', *British Council: Learning World*, **24**.

**Kerra Maddern, "How overseas links mean well, but…"**

Erthygl ar astudiaeth gan Brifysgol Caerwysg sy'n ystyried y problemau y gall prosiectau cysylltu rhyngwladol eu hwynebu ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddiant effeithiol a chydweithio â phartneriaid.

Maddern, K. (2010). 'How overseas links mean well, but....', *TES*, 5 Mawrth [ar-lein]. Ar gael: http://www.tes.co.uk/article.aspx?storycode=6038085 [15 Gorffennaf, 2010].

**Gwefan y Porth Byd-eang**

Gwefan y British Council sy'n helpu ysgolion i feithrin partneriaethau rhyngwladol. Mae'n cynnwys astudiaethau achos, canllawiau i athrawon, a gwybodaeth am hyfforddiant a ffynonellau ariannol.

www.globalgateway.org

## 4.3 Llenyddiaeth ddefnyddiol arall

**Liz Allum, Barbara Lowe a Louise Robinson, *Growing Up Global***

Llawlyfr gan y sefydliad anlywodraethol Reading International Solidarity Centre (RISC) a leolir yn Reading sy'n darparu arweiniad ar sut i ymgorffori themâu byd-eang yn effeithiol o gyfnodau cynharaf addysg.

Allum, L., Lowe, B. a Robinson, L. (2008). *Growing Up Global. Early Years Global Education Handbook*. RISC Publications.

RISC, 2008; ISBN: 978 1 874709 106

**Y Gymdeithas Addysg Datblygu (DEA), *The impact of global learning on public attitudes and behaviours towards international development and sustainability***

Adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau arolwg o'r cyhoedd, a gynhaliwyd gan Ipsos MORI ar ran y DEA. Rhydd dystiolaeth glir o fanteision addysgu pobl am faterion byd-eang, gyda chwestiynau enghreifftiol defnyddiol o bosibl ar gyfer casglu tystiolaeth o effeithiolrwydd gweithgareddau DRhA.

Hogg, M. a Shah, H. (2010). *The Impact of Global Learning on Public Attitudes and Behaviours Towards International Development and Sustainability*. Llundain: DEA [ar-lein]. Ar gael: http://www.dea.org.uk/resources/item.asp?d=2076 [15 Gorffennaf, 2010].

Y Gymdeithas Addysg Datblygu, 2010; ISBN: 978 1 900109 39 0

**Cyfanfyd, *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Ysgolion: Arfer Da yng Nghymru***

Mae'n cynnwys astudiaethau achos o wyth ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r themâu a'r cysyniadau allweddol sy'n deillio o ADCDF.

Thomas, E. (2008). *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Ysgolion: Arfer Da yng Nghymru.* Caerdydd: Cyfanfyd [ar-lein]. Ar gael: http://www.cyfanfyd.org.uk/resources/pdf/Schools-Guide-web-cym.pdf [15 Gorffennaf, 2010].

# Atodiad 5 Datblygu'r hunanasesiad drafft

Dechreuodd SCYA a CEWC-Cymru weithio ar fersiwn drafft cychwynnol o'r hunanasesiad DRhA ym mis Ionawr 2010, cyn cyfarfod cyntaf y pwyllgor llywio.

O'r dechrau'n deg, un o'r blaenoriaethau allweddol oedd sicrhau y byddai'r offeryn o wir ddefnydd i athrawon, o ran pa mor berthnasol ydoedd i'w gwaith a'i ddefnyddioldeb o ran datblygu ysgolion. Ym marn y tîm dim ond nifer fach o ysgolion a fyddai'n gyfarwydd â'r term DRhA, felly'r dasg gyntaf oedd llunio'r daflen 'Beth yw'r Dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg?' (gweler Atodiad 1). Amlygodd hon gwmpas eang y DRhA, gan ei gysylltu ag amrywiaeth o ofynion cwricwlaidd a meysydd eraill o waith ysgol.

Yna ystyriodd y tîm y ffordd orau o'i gwblhau. Edrychwyd ar ddau opsiwn: byddai angen i athrawon naill ai roi enghreifftiau o weithgareddau DRhA yn eu hysgol ac yna asesu cryfderau pob gweithgaredd yn ei dro; neu byddent yn cael amrywiaeth o ddeilliannau buddiol posibl gan ofyn iddynt roi enghreifftiau o weithgareddau ar eu cyfer. Er y teimlwyd y byddai'r opsiwn cyntaf yn cynnig 'ffordd i mewn' haws i athrawon o ran defnyddio'r offeryn, dewiswyd yr ail opsiwn, oherwydd byddai'n galluogi'r tîm i ddatblygu offeryn cyson â data yr oedd yn haws ei fesur.

Y man cychwyn ar gyfer y rhestr o ddeilliannau o'r DRhA oedd gwahoddiad gwreiddiol y British Council i dendro, a oedd yn rhestru ystod gynhwysfawr o fesuriadau. Ym marn tîm y prosiect roedd y rhestr hon yn rhy hir i'w defnyddio gan ysgolion yn ymarferol, ac aeth ati i grwpio mathau penodol o fesuriadau, gan lunio set o bedwar mewn pedwar categori yn y pen draw. Ar ôl gwneud mân addasiadau amrywiol a awgrymwyd gan ysgolion a grŵp llywio'r prosiect, cytunwyd ar y rhestr ganlynol:

### Deilliannau i ddysgwyr

- Lles dysgwyr (ymgysylltiad, cymhelliant, boddhad, presenoldeb).
- Asesu ar gyfer dysgu / cyfranogiad dysgwyr.
- Datblygu agweddau a gwerthoedd.
- Sgiliau:  Meddwl, Cyfathrebu, TGCh, Rhif.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion/cyd-destun byd-eang.
- Lefelau cyrhaeddiad.

### Deilliannau  i athrawon

- Lles athrawon (ymgysylltiad, cymhelliant, boddhad).
- Gwella cynnwys pwnc.
- Perfformiad, cymhwysedd a hyder addysgu.
- Dealltwriaeth / agwedd athrawon tuag at faterion byd-eang.
- Cymunedau Dysgu Proffesiynol (ymchwil weithredu, DPP ac ati).

### Canlyniadau i gymuned yr ysgol yn gyffredinol

- Effaith ar ymddygiad a chydlyniad cymdeithasol.
- Effaith ar ethos yr ysgol.
- Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Effaith ar lefelau presenoldeb disgyblion.

### Deilliannau i'r gymuned ehangach

- Boddhad rhieni.
- Cysylltiadau ag ysgolion eraill neu gymunedau.
- Cydlyniant cymunedol.

Yna ystyriodd tîm y prosiect sut y byddai athrawon yn graddio llwyddiant gweithgareddau DRhA yn y meysydd uchod. Roedd yn glir nad oedd ystadegau rhifyddol, er yn briodol i fesur rhai o'r deilliannau, yn ddigon cymwys i allu 'cyfrifiannu' effaith y DRhA yn gyffredinol. Felly, penderfynwyd mai'r dasg gyntaf i athrawon fyddai cynnal asesiad cyffredinol o gyfraniad y DRhA i effeithiolrwydd eu hysgol mewn perthynas â phob deilliant.

Fel y nodwyd yn Adran 3.2.2 uchod, penderfynodd y tîm ddefnyddio pedwar disgrifydd (Sylfaenol, Yn datblygu, Wedi datblygu ac Wedi gwreiddio) y gallai ysgolion fod yn gyfarwydd â hwy eisoes, gan eu bod yn cael eu defnyddio mewn

dogfen amlwg ar ADCDF a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnwyd i athrawon dicio un o'r pedwar disgrifydd hyn ar gyfer pob deilliant; rhoi enghreifftiau o weithgareddau DRhA presennol a oedd yn gysylltiedig â'r deilliant; a rhestru unrhyw ffynonellau o dystiolaeth a allai ategu eu hasesiad. Yn olaf, byddent yn cynnal asesiad cyffredinol ar gyfer pob categori o ddeilliannau (dysgwyr, athrawon, cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach).

Roedd y tîm o'r farn ei bod yn bwysig mynd y tu hwnt i'r asesiad sylfaenol hwn a rhoi'r cyfle i athrawon gynllunio ar gyfer datblygu'r DRhA ymhellach yn y dyfodol. Felly ychwanegwyd dwy adran ychwanegol ochr yn ochr â phob set o ddeilliannau, fel bod pob set bellach yn llenwi un ddalen lawn o bapur A3. Canolbwyntiodd yr adran ychwanegol gyntaf ar gyfleoedd i gyflawni effeithiolrwydd a rhwystrau i hynny a oedd yn gofyn i athrawon nodi ffactorau a fyddai'n effeithio ar eu cynnydd, o fewn y categorïau canlynol:

- Y Cwricwlwm ac Addysgu.
- Arweinyddiaeth, Ymyriadau a Chymorth.
- Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol.
- Gweithio gydag Eraill.

Yn yr adran olaf sef 'Deilliannau i'r Dyfodol' roedd lle i gynllunio gweithgareddau newydd a fyddai'n helpu ysgolion i gyrraedd y lefel nesaf o effeithiolrwydd (e.e. mynd o Yn datblygu i Wedi datblygu). Byddai, felly, ddatblygiad naturiol o ddeilliannau presennol i ddeilliannau'r dyfodol, drwy ystyried y ffactorau a allai helpu neu rwystro cynnydd.

Drwy restru'r 'cyfleoedd a rhwystrau' ar gyfer pob deilliant yn y pedwar categori, byddai gan athrawon 136 o flychau ar wahân i'w llenwi. Credai'r grŵp llywio fod hyn yn ormod o waith, ac nid oedd yn rhoi digon o le i athrawon roi enghreifftiau a thystiolaeth o weithgareddau DRhA yn eu hysgolion. O ganlyniad, cafodd taflen newydd (Adran D) ei chreu at ddibenion cynllunio, gan alluogi athrawon i edrych ar y cyfleoedd a'r rhwystrau a oedd yn effeithio ar waith DRhA yn yr ysgol yn gyffredinol. Yna anfonwyd y fersiwn hwn o'r asesiad (gweler Atodiad 2) i ysgolion peilot.

# Atodiad 6 Datblygu'r canllawiau drafft

Roedd drafft cyntaf y canllawiau yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ddiben yr asesiad a'i strwythur, cyfarwyddiadau ar lenwi pob adran, ac enghreifftiau o weithgareddau DRhA a oedd yn cynnwys y rhai a ddarparwyd gan y tair ysgol.

Yna cytunodd grŵp llywio'r prosiect ar nifer o ychwanegiadau a gwelliannau i'r ddogfen, gan arwain at ail fersiwn â'r strwythur canlynol:

- **Cyd-destun Addysgol:** cyflwyniad a oedd yn rhoi sylw i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin, yn ogystal â chrybwyll ADCDF ac ABCh. Fel y nodwyd yn Adran 2.3.1, mae'r rhain yn ddogfennau allweddol i ysgolion sy'n cynllunio eu datblygiad, ac roedd tîm y prosiect o'r farn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y ffordd roedd yr offeryn yn berthnasol i feysydd o'r fath ar gam cynnar.
- **Strwythur yr Offeryn:** Trosolwg.
- **Defnydd Effeithiol o'r Offeryn:** yn cynnwys canllawiau ar sut i ddwyn ynghyd amrywiaeth o safbwyntiau gan gymuned yr ysgol - yn eu plith athrawon, dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr - er mwyn gallu cwblhau'r asesiad yn fwy effeithiol. Er i rai aelodau o'r grŵp llywio fynegi pryder y gallai'r fath broses o gasglu gwybodaeth fod yn llafurus, cafwyd cytundeb cyffredinol y gallai wneud yr asesiad yn ymarfer llawer mwy defnyddiol.
- **Cwblhau Adrannau A-Ch:** rhoddwyd cyfarwyddiadau clir ar sut i gwblhau'r pedair prif ddalen, gan gynnwys esboniad o'r pedwar disgrifydd effeithiolrwydd (o Sylfaenol i Wedi gwreiddio) y gofynnir i athrawon eu defnyddio. Roedd yn cynnwys ystod ehangach o enghreifftiau o weithgareddau DRhA, a mwy o bwyslais ar bwysigrwydd gweld ysgolion yn darparu tystiolaeth feintiol o'u heffaith, gan danlinellu dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r British Council i gael tystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd.
- **Cwblhau Adran D:** eglurodd ddiben yr adran olaf ar gynllunio, gan bwysleisio'r angen - fel y gwelwyd yn ystod y broses dreialu gychwynnol - i aelod o staff â chyfrifoldebau strategol ymwneud â'r broses o gwblhau'r asesiad.

Ar ôl gwneud y newidiadau hyn, cyflwynwyd y canllawiau, ochr yn ochr â'r offeryn, i'r wyth ysgol astudiaeth achos a oedd yn cymryd rhan yn y peilot.

Credai tîm y prosiect ei bod yn bwysig darparu canllawiau clir, ymarferol a chryno. Y nod oedd apelio i athrawon a oedd yn ymwneud â'r DRhA yn ogystal â rheolwyr mewn ysgolion, gan weithredu fel canllaw cyflym yn hytrach na dogfen academaidd drylwyr. Fodd bynnag, byddai'r fersiwn terfynol yn cynnwys dolenni i rai o'r dogfennau a restrwyd ym Mhennod 3 ac Atodiad 4 o'r adroddiad hwn - yn ogystal â'r

wyth astudiaeth achos o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r peilot - gan felly roi'r cyfle i ymarferwyr gael gafael ar amrywiaeth o ddeunydd ddarllen ychwanegol perthnasol.

# Atodiad 7 Taflenni holi

## Asesu'r dimensiwn Rhyngwladol mewn Addysg (DRhA)

| | |
|---|---|
| SCYA – sefydliad ymchwil annibynnol<br><br>Bydd y cyfweliad yn parhau am 30/40 munud | |
| **Ysgol:** | |
| **Enwau:** | |
| **Oedran:** | |

**1. Rôl y dysgwr yn y DRhA**

1.1 Pa waith neu weithgareddau ydych chi wedi ei wneud/eu gwneud yn yr ysgol sy'n ymwneud â gwledydd eraill?

*Awgrymu: meysydd y cwricwlwm, prosiectau, cysylltau ag ysgolion*

1.2 Pam a sut roeddech chi wedi dod i wneud y gwaith/gweithgaredd hwn?

*Awgrymu: diddordeb personol, maes pwnc, gweithgaredd dosbarth, cais gan athrawon*

1.3 Pa gyfleoedd gawsoch i gynllunio ar gyfer y gwaith/gweithgareddau?

*Awgrymu: trafodaeth gydag athrawon, cyngor ysgol, ABCh*

1.4 Pa waith/gweithgareddau rhyngwladol arall/eraill sy'n digwydd yn eich ysgol?

1.5 Hoffech chi ymwneud â gweithgareddau eraill sy'n cael eu trefnu yn eich ysgol?

*Awgrymu: Pam?*

**2. Deiliannau'r DRhA**

2.1 Pam yn eich barn chi mae'r ysgol wedi trefnu'r gwaith/gweithgareddau rhyngwladol hyn?

*Awgrymu: helpu'r dysgu, cynnig mwy o gyfleoedd, teithio tramor*

2.2 Faint oeddech chi'n ei wybod am y gwledydd hyn a'r bobl sy'n byw yno cyn gwneud y gwaith hwn/y gweithgareddau hyn?

2.3 Beth rydych chi wedi'i fwynhau am gymryd rhan yn y gweithgareddau/gwaith?

*Awgrymu: cwrdd â phobl newydd, dysgu am wledydd eraill, dysgu am ddiwylliannau eraill, teithio, gweithio mewn ffordd wahanol, cynllunio gweithgareddau.*

2.4 Sut mae'r gweithgareddau/gwaith wedi'ch helpu chi os o gwbl?

*Awgrymu: gyda gwaith ysgol, i gymdeithasu, i ddysgu mwy am ddiwylliannau eraill/ ffordd o fyw wahanol, dysgu sgiliau newydd.*

2.5 Sut gallai'r gwaith hwn/y gweithgareddau hyn eich helpu yn y dyfodol?

*Awgrymu:, gwella'r CV, teithio, addysg bellach, penderfynu ar yrfa*

2.6 Sut mae'ch ysgol/cymuned wedi elwa o'r gweithgareddau?
*Awgrymu: mwy o gyswllt, gweithgareddau mwy amrywiol , cyfle i deithio?*

2.7 Sut gallai pobl mewn gwledydd eraill elwa o'r gwaith/gweithgareddau rydych chi wedi'u gwneud?

*Awgrymu: deall diwylliannau eraill, gwell safon byw, cyfleoedd i deithio.*

2.8 A fyddwch chi'n argymell gweithgareddau fel hyn i ddysgwyr eraill yn eich ysgol neu mewn ysgol arall?

*Awgrymu: Pam? Beth gallen nhw ei ddysgu?*

**3. Materion Eraill**

3.1 Oes unrhyw faterion eraill hoffech eu codi neu oes unrhyw sylwadau hoffech chi eu gwneud?

**DIOLCH AM EICH AMSER**

## Asesu'r dimensiwn rhyngwladol mewn Addysg (DRhA)

| SCYA – sefydliad ymchwil annibynnol<br><br>Bydd y cyfweliad yn parhau am 30/40 munud | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Swydd:** | |
| **Ysgol:** | |
| **Nifer o ddysgwyr:** | |
| **Nifer o staff:** | |

**1. Cefndir**

1.1 A wnewch chi amlinellu sut mae'ch ysgol yn datblygu'r DRhA.

*Awgrymu: meysydd cwricwlwm, prosiectau, cyswllt ag ysgolion eraill.*

1.2 Ers pryd mae'ch ysgol yn datblygu'r gweithgareddau hyn?

1.3 Sawl aelod o staff sydd wedi bod ynghlwm wrth y gweithgareddau ac i ba raddau?

*Awgrymu: swydd, cynllunio gweithgareddau, gofalu am blant, addysgu*

1.4 Sut a pham daeth y staff i gyswllt â'r gwaith hwn?

*Awgrymu: diddordeb personol, maes pwnc, rôl benodol*

1.5 Pa grwpiau o ddysgwyr sydd wedi bod ynghlwm wrth y gweithgareddau hyd yma?

*Awgrymu: oedran, gallu*

1.6 Sut a pham dewiswyd y dysgwyr/grwpiau?

*Awgrymu: targedu bwriadol, o ddewis, anghenion y cwricwlwm, lefel diddordeb ayyb*

1.7 Sut y mae datblygiadau'r DRhA wedi'u cyllido?

*Awgrymu: o gyllid yr ysgol, grant, cyllid prosiect penodol, arall*

1.8 Pa rôl, os o gwbl, mae'r AALl wedi'i chwarae yn y datblygiadau?

**2. Deilliannau'r DRhA**

2.1 Beth hoffech chi gyflawni drwy ddatblygu'r DRhA yn yr ysgol?

*Awgrymu: dealltwriaeth dysgwyr uwch, gwelliant mewn maes cwricwlwm, awyrgylch gymunedol*

2.2 I ba raddau mae’r ysgol yn cyflawni’r amcanion hyn yn eich barn chi?

*Awgrymu: Oes unrhyw fuddiannau/deilliannau annisgwyl wedi dod yn sgil y gwaith?*

2.3 Beth yn eich barn chi oedd y prif ddeilliannau i’r grwpiau canlynol?:
(Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda.)

- dysgwyr
- staff
- cymuned yr ysgol
- y gymuned ehangach.

*Awgrymu: lles, gwybodaeth pwnc a dealltwriaeth, datblygu sgiliau, agweddau a gwerthoedd, cynhwysiant cymunedol, cynllun datblygu’r ysgol, datblygiad staff, cydweithio*

2.4 Cyn defnyddio’r offeryn asesu drafft sut roedd eich ysgol wedi ceisio mesur yr uchod? Prior to using the draft assessment tool how has your school attempted to measure the above outcomes?

*Awgrymu: cynllun datblygu ysgol, ymarferion gwerthuso, holiaduron i ddysgwyr/rhieni, cyfweliadau, lefelau cyflawni, ffigurau presenoldeb, trafodaeth staff, cyfarfodydd llywodraethwyr*

2.5 Sut, os o gwbl, wnaethoch chi geisio cynnwys llais dysgwyr/disgyblion?

*Awgrymu: Pa mor llwyddiannus oedd hynny? Pam?*

2.6 Beth oedd y prif rwystrau i ddatblygu’r DRhA yn eich ysgol?

*Awgrymu: amser, cyllid, ymrwymiad staff, tynnu’r gymuned ehangach i mewn*

2.7. Sut rydych wedi ceisio goresgyn yr uchod?

**3. Defnyddio’r offeryn asesu drafft**

3.1 Pa aelodau o staff sydd wedi cyfrannu tuag at gwblhau’r offeryn?

*Awgrymu: Beth oedd ei swyddi a chyfrifoldebau? Sut/Pam y’u dewiswyd? Sut cawson nhw eu rhyddhau?*

3.2 Sut lwyddwyd i gasglu’r wybodaeth gan y staff/grwpiau priodol?

*Awgrymu: memos, e-bost, brifio, cyfarfodydd adran, departmental meetings, adborth gan ddysgwyr ayyb*

3.3 Pa mor hir fuoch chi wrthi yn cwblhau'r ddogfen?

*Awgrymu: Oedd hi'n feichus/brawychus? Oedd yr amser a dreuliwyd yn addas/hylaw?*

3.4 Pa mor hylaw ac addas oedd yr iaith/derminoleg?

*Awgrymu: yr iaith a ddefnyddir yn y FfEY a fframwaith Estyn*

3.5 Pa newidiadau hoffech eu gwneud i'r offeryn?

*Awgrymu: fformat, diwyg, strwythur, cynnwys*

3.6 Pa mor ddefnyddiol oedd y canllawiau?

*Awgrymu: Sut gellid eu gwella? A ddylid ehangu'r canllawiau?*

3.7 Pa ddeunyddiau cefnogol eraill fyddai o gymorth i ysgolion?

*Awgrymu: Astudiaethau achos, gwefannau e.e. dolenni yn arwain at ddogfennau*

3.8 Pa mor ddefnyddiol i'ch ysgol oedd y broses o gwblhau'r offeryn?

*Awgrymu: Pam? Beth a ddysgwyd? Beth mae wedi eich galluogi chi i'w wneud?*

3.9 O dan ba amgylchiadau y byddech yn defnyddio'r offeryn eto o bosibl?

*Awgrymu: i adolygu gweithgareddau DRhA, fel rhan o'r cynllun datblygu ysgol, er mwyn paratoi at arolygiad Estyn, arall?*

## 4. Materion eraill

4.1 Oes unrhyw faterion eraill hoffech eu codi neu oes unrhyw sylwadau hoffech chi eu gwneud?

**DIOLCH AM EICH AMSER**